| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD AT:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **DYDDIAD:** | **1 Gorffennaf, 2014** |
| **PWNC :** | **Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr 2013/14** |
| **AELODAU PORTFOLLIO( AU):** | **Cynghorydd Kenneth Hughes** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Gwen Carrington, Cyfarwyddwraig Cymuned**<br>**Est 2706**<br>**Gwen Carrington@ynysmon.gov.uk** |

## 1.0 ARGYMHELLION

A1. Gofynnir i aelodau gynnig sylwadau i'w hystyried o fewn trefniadau cwblhau'r Adroddiad Blynyddol a rhaglen waith Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 2.0 RHESWM

2.1 **Pwrpas yr adroddiad**

2.2 I dderbyn adroddiad drafft terfynol y Cyfarwyddwr Statudol ac i gyflwyno sylwadau. Hyn er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth ac atebolrwydd yn ymwneud a pherfformiad a chynnydd, a rhannu negeseuon o'r adroddiad drafft cychwynnol gyda aelodau o'r UDA ac i dderbyn sylwadau.

## 3.0 Amserlen

3.1 Mae gofyn i'r Cyfarwyddwr gyflwyno'r adroddiad drafft terfynol i AGCC erbyn diwedded Mehefin. Mi fydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini ar y 1 Gorffennaf, 2014 a'r Pwyllgor Gwaith ar y 14 Gorffennaf, 2014. Mi fydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

3.2 Mae'r broses yn cynnwys cyflwyno'r adroddiad ynghyd a gwerthusiad o holl feysydd gwasanaeth. Gwneir hyn gan ddefnyddio "gridiau dadansoddi" sy'n nodi'r hyn yr ydym yn ceisio ei wneud, pa mor dda yr ydym yn cyflawni a beth yw'r canlyniad i ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae'r sylwadau a'r farn a gyflwynir yn y gridiau hyn yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd o amrediad eang o ffynonellau: peth data ystadegol a gwybodaeth arall gan ddefnyddwyr ein gwasanaeth, gofalwyr a phartneriaid allweddol.

3.3 Cynhaliwyd sesiwn herio ar y 4 Ebrill, 2014 a chafwyd cynrychiolaeth dda gyda 35 o asiantaethau'n bresennol. Bu i ni gyflwyno prif negeseuon yn deillio o'n dadansoddiad cychwynnol o'n cynnydd a pherfformiad yn ystod y flwyddyn. Derbyniwyd adborth eu bod yn croesawu'r cynnydd gyda grwpiau ffocws partneriaid ond hefyd yn dymuno mwy o glirdeb ynglŷn â'n cynlluniau comisiynu ac yn enwedig o ran y cydbwysedd darpariaeth fewnol ac allanol. Bu iddynt hefyd ddatgan cefnogaeth i'n datganiad fel gwasanaeth bod angen cryfhau cysondeb a threfniadau rheoli ansawdd ar draws y sector.

## 4.0 Natur yr adroddiad

4.1 Disgwylir i'r adroddiad fod yn un cryno wedi ei dystiolaethu gan wybodaeth wedi ei gynnwys yn ein "gridiau tystiolaeth". Rydym yn bwriadu sichrau bod dogfen Plant ag Oedolion fwy manwl ar gael i gefnogi'r adroddiad trosolwg. Am y tro cyntaf eleni disgwylir i'r adroddiad gyfeirio at ein cydymffurfiaeth gyda'r strategaeth "Mwy na Geiriau" sef strategaeth Llywodraeth Cymru i hyrwyddo darpariaeth yn yr angen iaith ar gyfer defnyddwyr gofal. Fel awdurdod gallwn fod yn ffyddiog ein bod ar hyn o bryd yn cydymffurfio a'r safonau yma.

4.2 Bydd y Cyngor yn derbyn llythyr ffurfiol gan rheoleiddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGCC) yn yr Hydref fydd yn cyflwyno sylwadau ynglŷn â'u barn am berfformiad yr Awdurdod. Mae trefniadau ar y gweill i gwblhau a fformatio'r adroddiad.

**Awdur:** Gwen Carrington
**Teitl Swydd:** Cyfarwyddwraig Cymuned
**Dyddiad:** 23 Mehefin, 2014

Ynys Môn

THE ISLE OF

Anglesey



# Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd

# Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol 2013-14

# Cyflwyniad y Cyfarwyddwr

Rwyf yn falch o gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol hwn sy'n rhoi cyfrif ystyrlon a chyhoeddus o gystal y mae'r awdurdod wedi perfformio wrth ddarparu Gwasanaethau Cymdeithasol ym Môn.

Mae'r Awdurdod wedi cychwyn ar Raglen Trawsnewid heriol fydd yn cyflawni ei Gynllun Corfforaethol a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar y 5ed o Ragfyr 2013. Mae hwn wedi cynnwys Adolygiad y Cyngor o'i Uwch Dîm Rheoli ac aildrefnu ei Benaethiaid Gwasanaeth. Cyflwynwyd strwythur newydd ym mis Tachwedd 2013.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn croesawu ystod cyfrifoldebau'r cyngor gan gynnwys "Ynys Ynni" a'r angen i flaenoriaethu gwasanaethau ar gyfer aelodau mwyaf bregus ein cymdeithas. Rhydd y cynllun hefyd weledigaeth glir ar gyfer y dyfodol wrth gydnabod y camau brys y mae'n rhaid eu cymryd i roi sylw i'r pwysau sydd ohoni. Er mwyn cael y newidiadau a'r rhaglenni hyn rhaid wrth ymrwymiad i raglenni gweithio ar y cyd ac ymrwymiad i ddarparu efo'n gilydd, yn swyddogion ac aelodau ar draws y Cyngor.

**Mae hon wedi bod yn flwyddyn arwyddocaol i Gyngor Sir Ynys Mon a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Ar Fai yr 2il cynhaliodd y Cyngor etholiadau lleol ac yn sgil hynny, cyhoeddodd Lesley Griffiths, y Gweinidog dros Lywodraeth Leol, ar y 23ain o Fai bod cyfnod yr ymyrraeth ffurfiol wedi dod i ben. Gostyngwyd nifer yr aelodau etholedig o 40 i 30 gyda thri aelod, bellach, yn cynrychioli pob ardal. Roedd dros 10% o'r aelodau etholedig yn newydd a heb wasanaethu fel aelodau etholedig o'r blaen.**

Mae nifer o'r ffrydiau gwaith hyn yn cysylltu'n uniongyrchol gyda chyfrifoldebau a gwasanaethau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Golyga hyn bod y rhaglenni yn y Cynllun Trawsnewid wedi'u cymeradwyo yn rhaglenni corfforaethol ac yn flaenoriaethau allweddol i'r Cyngor.

Mae gan y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant raglenni penodol yn y Cynllun Trawsnewid. Mae rhaglenni allweddol eraill yn cael effaith uniongyrchol ar swyddogaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol, megis:

- "*Gwasanaethau i Gwsmeriaid*" sy'n rhoi'r cwsmer wrth galon Busnes y Cyngor
- "*Tâl Cyfartal*" a "*Statws Sengl*" fydd yn cyfrannu at roi sylw i faterion cyflogaeth a adnabuwyd mewn Gofal Cymdeithasol, a
- "*Gweithio'n Gallach*" fydd yn caniatáu ar gyfer gwasanaeth mwy ymatebol o ran bod ag amser a lleoliad

Y flaenoriaeth a fu yn y Gwasanaethau Gofal i Oedolion oedd sicrhau bod gan y Cyngor raglen y cytunwyd arni ac yr oedd modd ei darparu o ran gwasanaethau heddiw a'r dyfodol. O fewn y Gwasanaethau Plant y flaenoriaeth oedd cynnal a chryfhau gwelliannau a gyflawnwyd; canolbwyntio ar ddatblygu ein gweithlu a chynnwys y trefniadau o ansawdd.

Mae'r agwedd a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn golygu bod y blaenoriaethau'n cael eu cefnogi ar draws gwasanaethau. Mae staff y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyfrannu at raglenni corfforaethol a'u cynorthwyo. Mae'r ffrydiau gwaith Gofal Cymdeithasol a adnabuwyd yn cael cefnogaeth lawn cydweithwyr cyfadrannau eraill. Mae hwn wedi bod yn brofiad gwerthfawr a bydd y Cyngor mewn lle da i ymateb i'r dyheadau yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2014, yn pwysleisio cyfrifoldeb corfforaethol o ran diogelu a lles.

**Rydym hefyd wedi cyflwyno'n llwyddiannus rhaglen "Lleisiau Lleol" gyda Medrwn Môn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadawaladr a sefydliadau'r Trydydd Sector. Mae hwn yn gosod llwyfan ar gyfer ein rhaglen ymgysylltu â'r cymunedau wrth i ni gynllunio a siapio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol. Mae'n ddull sy'n hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer cydgynhyrchu a chyd-berchenogaeth yn seiliedig ar ddealltwriaeth gyffredin o ddyheadau ac anghenion y gymdogaeth.**

Yn ystod Mis Mawrth 2014, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Bwrdd Darparu Integredig rhwng yr Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Bydd y Bwrdd, sydd â chynrychiolwyr o blith pwyllgor gwaith ac uwch rheolwyr gweithredol yr Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn arwain ar uno gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar draws y gwasanaethau Oedolion a Phlant.

Rydym yn ffodus ym Môn bod ymrwymiad tymor hir y Cyngor i hyrwyddo a chefnogi gweithlu dwyieithog yn golygu ein bod mewn lle da i gyflawni ar ddisgwyliadau a gofynion strategaeth Llywodraeth Cymru, "Mwy na Geiriau". Er gwaethaf hynny, rydym wedi achub ar y cyfle i adolygu anghenion defnyddwyr a'r ymrwymiad i gryfhau mwy ar drefniadau sy'n sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn eu dewis iaith.

Cyflawnwyd rhaglen waith eleni mewn cyfnod o ostyngiadau ariannol. Nid yw Cyngor Sir Ynys Môn yn gwario'n helaeth ar Ofal Cymdeithasol o gymharu â'r proffil cenedlaethol ac awdurdodau tebyg. Fodd bynnag, mae 26% o wariant cyfan y Cyngor i'w briodoli i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd angen i'r Cyngor adnabod 7% o arbedion gydag 28% o hwn i ddod o gyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol.

O gofio'r uchod, bu'n angenrheidiol ailedrych ar yr ymrwymiadau yr adroddwyd arnynt yn Adroddiad Blynyddol y llynedd a blaenoriaethu mwy.

Rwyf o'r farn bod arfarniad critigol o berfformiad y Cyngor o fewn Gofal Cymdeithasol yn tystio y bu cynnydd cadarn ac ymrwymiad i flaenoriaethu'r pethau iawn o gofio ystod yr opsiynau sydd ar gael. Er hynny, mae'n amlwg hefyd bod angen canolbwyntio ac ymrwymo'n barhaus i greu newid.

Wrth i'r Cyngor Ad-drefnu ei Benaethiaid Gwasanaeth cafwyd strwythur cywirach yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Bu gostyngiad yn nifer y Penaethiaid Gwasanaeth ond hefyd gyfle i gael mwy o eglurder o ran arweinyddiaeth a chyfrifoldeb ar draws gofal cymdeithasol. Bydd Pennaeth newydd Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn ei swydd o fis Mehefin 2014. Mae trefniadau dros dro wedi bod yn eu lle er mis Tachwedd 2013.

Yn y Gwasanaethau Cymdeithasol mae ymrwymiad i gael canolbwynt cliriach ar ymyriadau sy'n seiliedig ar y teulu a dulliau gweithredu ar y cyd ar draws y Gwasanaethau Oedolion a Phlant. Bydd y newidiadau arfaethedig, fydd yn cael eu cyflwyno yn ystod hydref 2014, hefyd yn rhoi sylw i'r angen i gryfhau trefniadau comisiynu a sicrwydd ansawdd ar draws y gwasanaeth. Y gred yw y bydd y newidiadau'n cryfhau ein gallu i gyflawni dyheadau a gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles a chynnig sicrwydd i bobl Môn wrth i ni fwrw ymlaen i wireddu dyheadau Cynllun Corfforaethol y Cyngor.

Rhaid i'n blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod olygu cyflawni'r hyn yr ydym eisoes wedi ymrwymo i'w wneud ynghyd â chryfhau strwythur ein busnes. Bydd hyn yn hanfodol os ydym yn bwriadu darparu gwasanaethau effeithiol a hyfyw yn y dyfodol. Cafodd hyn ei gymeradwyo gan ein partneriaid yn ystod ein digwyddiad her y gwasanaeth a gynhaliwyd y 4ydd o Ebrill 2014, lle daeth 35 o sefydliadau iddo.

**Wedi ystyried y wybodaeth i law, dyma ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2014/15**:

- Cadarnhau bwriadau comisiynu a rhaglen weithredu am Dai Gofal Ychwanegol ar gyfer tair ardal - Amlwch, Llangefni ac ardal Seiriol
- Cyflwyno cynllun gwaith ar gyfer y Bwrdd Darparu Integredig erbyn hydref 2014 fydd yn amlinellu blaenoriaethau a rhaglen gyflawni ar gyfer gwasanaethau integredig. Ymhlith y blaenoriaethau a adnabuwyd mae: Gofal Canolraddol (yn cynnwys gofal heb ei drefnu), Gwasanaethau ar gyfer Plant Anabl a'r Rhaglen Trawsnewid ar gyfer y Gwasanaethau Plant.
- Cwblhau gwaith ailstrwythuro Gofal Cymdeithasol (yn dilyn adolygiad o'r Penaethiaid Gwasanaeth) a chyflwyno gwaith cyd-ganolbwyntio ar y teulu a'r gymuned ar gyfer gwasanaethau a chryfhau peirianwaith comisiynu a sicrwydd ansawdd
- Hyrwyddo sefydlogrwydd a chyfleoedd cadarnhaol i bobl ifanc wrth iddynt allu aros yn eu cymunedau lleol trwy fwrw ymlaen gyda'r gwelliannau yn y gwasanaeth maethu trwy godi ystod y gofalwyr maeth ar yr ynys a sicrhau bod mwy ar gael
- Parhau i gryfhau trefniadau'r bartneriaeth a ddatblygwyd gyda'r Trydydd Sector a'r Sector Annibynnol trwy gynnwys trefniadau cyswllt, cryfhau sicrwydd ansawdd a gwybodaeth ariannol ar y cyd gyda'r sector.
- Darparu'r rhaglen effeithlonrwydd y cytunwyd â hi gyda'r Cyngor. Bydd hyn yn cynnwys datblygu strategaeth ariannol tymor canolig yn y rhaglen Gorfforaethol.

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn hynod brysur a heriol ac yn un o newid a chynnydd sylweddol i'r Cyngor yn ei gyfanrwydd, i'r swyddogion ac i'r aelodau. Rhaid ystyried y llwyddiannau a nodir yn yr adroddiad hwn o fewn y cyd-destun ehangach. Bu hwn yn benderfyniad ar y cyd i ymrwymo i'r rhaglen o newid angenrheidiol.

Achubaf ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y gwaith effeithiol a gafwyd yn ystod y flwyddyn. O gofio'r newidiadau a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn, rhaid cyfeirio'n benodol at y tîm rheoli a'r staff sydd wedi cyfrannu'n gyson trwy'r llu newidiadau a welwyd. Hoffwn ddiolch yn arbennig i'r Penaethiaid Gwasanaeth sydd wedi gweithio gyda mi yn ystod y flwyddyn - i Anwen Davies, cyn-Bennaeth y Gwasanaethau Oedolion, a ddechreuodd yn ei swydd newydd - Uwch Reolwr Partneriaethau Gwynedd a Môn ym mis Chwefror 2014, i Carys Emyr Edwards, cyn-bennaeth yr Uned Ddarparu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Oedolion, sy'n ymddeol ar ôl 25 mlynedd yn y maes gofal cymdeithasol ac i Anwen Huws, sydd bellach yn arwain ar Wasanaethau Plant a Diogelu yn y Strwythur Corfforaethol newydd.

Gwen Carrington, Mehefin 2014

**Yr Uwch Dîm Rheoli yn 2013/14**

(O'r chwith i'r dde), Gwen Carrington, Cyfarwyddwraig; Anwen Huws, Pennaeth Gwasanaethau Plant; Carys Emyr Edwards, Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Oedolion (cyn-bennaeth yr Uned Ddarparu) ac Anwen Davies, cyn-Bennaeth y Gwasanaethau Oedolion (Chwefror 2014).



# Cynnwys

**Mae chwe rhan yn yr Adroddiad Blynyddol sy'n gysylltiedig â'i gilydd:**


1. Trosolwg a Chyflwyniad y Gyfarwyddwraig
2. Gwybodaeth Ddemograffig
3. Crynodeb, Llwyddiannau a Blaenoriaethau ar gyfer y Gwasanaethau Plant
4. Crynodeb, Llwyddiannau a Blaenoriaethau ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion
5. Gwybodaeth Ariannol
6. Geirfa a Gwybodaeth


**Cefnogir yr Adroddiad Blynyddol gan ddogfennau tystiolaeth allweddol ac maent ar gael trwy ddolenni electronig:**

Adroddiad ar y Gwasanaethau Plant- dolen electronig i adroddiad llawn Pennaeth y Gwasanaethau Plant, Gridiau Tystiolaeth a Gwybodaeth am Berfformiad

Adroddiad ar y Gwasanaethau Oedolion- dolen electronig i adroddiad Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Oedolion, Gridiau Tystiolaeth a Gwybodaeth am Berfformiad

## Gwybodaeth Ddemograffig

Mae gan Ynys Môn, ynys fwyaf Cymru, sy'n enwog am ei harfordiroedd, ei thraethau a'i phontydd, dreftadaeth a diwylliant neilltuol. Mae hi'n gymdeithas wirioneddol ddwyieithog gyda bron i 60% o'r boblogaeth yn nodi bod Cymraeg yn famiaith iddynt.




Wrth ddadansoddi'r newidiadau dros y deg i bymtheg mlynedd diwethaf, amlinellir yn glir bod gan Ynys Môn, bellach, boblogaeth sy'n heneiddio. Bu hyn yn bennaf oherwydd cynnydd yn nisgwyliad oes y boblogaeth hŷn, nifer fawr o bobl yn dod i mewn i'r ardal i ymddeol a nifer fawr o bobl ifanc yn gadael yr ardal i chwilio am gyfleoedd gwaith gwell a chyflogau uwch oherwydd economi Môn sy'n crebachu.

Mae deall y materion lleol, yr economi, y gymuned a'r demograffi'n rhan hanfodol o gynllunio a chael gwasanaethau o ansawdd uchel i ddiwallu anghenion cyfredol a newidiol poblogaeth Môn.






### Ein Proffil Lleol

Yn 2011, 69,913 oedd amcangyfrif poblogaeth yr Ynys. O hyn roedd:

- 11,885 yn 0-15 oed [17% o'r boblogaeth];
- 41,948 yn 16-64 oed [60% o'r boblogaeth];
- 16,080 yn 65+ oed [23% o'r boblogaeth].

Fodd bynnag, rhagamcenir y bydd cyfanswm poblogaeth Môn wedi codi i 72,563 [12,333 yn 0-15 oed, 37,518 yn 16-64 oed a 22,712 yn 65+ oed] erbyn 2033

## Cyflwyniad – Gwasanaethau Plant

**Mae adroddiad trosolwg manwl, hunanarfarniad cynhwysfawr o'r gwasanaeth y cyfeirir ato fel "gridiau tystiolaeth" ac adroddiadau perfformiad ar gyfer pob gwasanaeth wrth wraidd y crynodeb hwn. Mae modd gweld copïau electronig o'r rhain ar ddiwedd yr adroddiad.**

**Cliciwch YMA i weld adroddiad trosolwg manwl Pennaeth y Gwasanaethau Plant**

Rydym yn credu mewn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant yr ydym yn darparu gwasanaeth iddynt. Yn hyn o beth, credwn y cawn ein barnu, nid yn unig wrth yr hyn yr ydym yn ei wneud ond hefyd wrth yr effaith yr ydym yn ei chael ar y canlyniadau i blant. Golyga hyn, oherwydd ein hymyriad, bod disgwyl y bydd plant a phobl ifanc yn :-

- Ddiogel
- Iach
- Cael sefydlogrwydd yn eu bywydau
- Cyflawni eu potensial; ac yn
- Cael rhywun i wrando arnynt a chael cymryd rhan mewn penderfyniadau allweddol ynghylch eu bywydau.



# Gwasanaethau Plant – Meysydd lle bu llwyddiant a chynnydd yn 2013/14

Mae awydd gwirioneddol ym Môn i wneud y gorau y gallwn i'r plant a'r teuluoedd yr ydym yn gweithio gyda nhw. Rydym wedi adeiladu ar y datblygiadau a amlygir yn ein hadroddiadau blaenorol a'r hyn yw'r isod yw trosolwg o'r hyn yr ydym wedi'i ddatblygu a'i gyflawni yn y deuddeg mis diwethaf:

Rydym wedi

- Cynnal adolygiadau sylweddol o'n trefniadau cyswllt cyntaf, y llwybrau y mae achosion yn eu cymryd trwy'r gwasanaeth, ac ansawdd y cymorth a'r ymyriad a gynigir i deuluoedd er mwyn cynorthwyo'r Rhaglen Trawsnewid.
- Cynnal cyfres o gynadleddau dan arweiniad Pennaeth y Gwasanaeth i amlinellu'r rhaglen newid a chreu ymdeimlad cryf o bwrpas a pherchenogaeth o ran datblygu model o waith cymdeithasol i Fôn – er mwyn cefnogi gwneud gwaith anodd yn well.
- Cynnal a chryfhau ein sefyllfa a symud ymlaen yn gadarnhaol yn erbyn targedau perfformiad allweddol.
- Sicrhau sefydlogrwydd staff rheng flaen, rheolwyr rheng flaen a'r uwch dîm rheoli. Wedi cynnal lefelau rhesymol o lwythi achos gwaith cymdeithasol a buddsoddi mewn staff dros dro.
- Symud ymlaen gyda'r Cynllun Gweithredu Gwella Maethu – gyda'r nod o recriwtio deg gofalwr newydd erbyn mis Rhagfyr 2014 fel rhan o'n hymgyrch recriwtio uchelgeisiol i sicrhau bod modd dewis lleoliadau lleol a chael cyfatebiad yn lleol.
- Gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, darparu gwasanaeth integredig i Blant ag anableddau a'u teuluoedd.
- Gyda Chyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr, arwain gwasanaeth Cefnogi Teuluoedd Integredig Gwynedd/Môn fydd yn dod yn weithredol ym mis Mai 2014.
- Cael arolygon llwyddiannus yng nghyswllt ein Gwasanaethau Mabwysiadu a Maethu.
- Parhau i gymryd rhan weithgar yn agenda Cymru Gyfan i wella gwaith darparu'r gwasanaethau cymdeithasol trwy gydweithio.
- Parhau i wreiddio prosesau Sicrwydd Ansawdd ar draws yr haenau rheoli i sicrhau yr edrychir yn agos a manwl ar ansawdd y gwaith.
- Cynnal Seminarau Diogelu ar gyfer Aelodau a Phenaethiaid Gwasanaeth.
- Gweithio gyda'n partneriaid yng Ngogledd Cymru i ddarparu Bwrdd Diogelu Plant rhanbarthol.

Mae gwaith gwella perfformiad y gwasanaethau plant yn cael ei wneud yn frwd yn yr awdurdod gan weithlu brwdfrydig ac ymroddedig. Cam cyntaf ein taith gwella oedd cymryd yr holl gamau angenrheidiol i wella perfformiad ym meysydd allweddol asesu a rheoli gofal, tra hefyd yn

cynnal perfformiad da ar draws y bwrdd. Fodd bynnag, er bod hyn wedi arwain at welliannau mewn rhai meysydd arfer, credaf nad yw'r newidiadau hyn wedi rhoi sylw llwyr i rai o'r materion sylfaenol sy'n berthnasol i drosglwyddo ar raddfa eang waith darparu Gwasanaethau Plant ym Môn.

Rhaid i wasanaethau'r dyfodol fod yn gynaliadwy a chaiff hyn ei adlewyrchu yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Llywodraeth Cymru, Rhaid i ni ddatblygu dull gweithredu gwahanol ac wrth galon hwn bydd:-

> Rwyf yn hyderus bod gennym sail gadarn i dyfu ohoni ac er nad oes lle i fod yn hunanfodlon, rwyf yn hyderus y bydd y Gwasanaethau Plant yn parhau i ddarparu gwasanaethau effeithlon, effeithiol a diogel i blant Ynys Môn.

- Gweithwyr cymdeithasol yn gweithio'n rhagweithiol gyda theuluoedd i reoli risg – treulio llawer mwy o amser yn gweithio wrth ochr teuluoedd, yn eu cynorthwyo i newid fel bod y teulu'n lle diogel i'w plant.

- I deuluoedd lle nad yw hyn yn bosib, cymerir camau amserol i warchod plant a rhoi sefydlogrwydd iddynt.

- Gwella gwasanaethau cefnogi teuluoedd [yn ymarferol ac yn therapiwtig] ac, felly, gynhyrchu cylch rhinweddol o wasanaethau gwell i blant a theuluoedd. Targedir buddsoddiad, yn benodol, i roi cefnogaeth ddwys a chyflym pan fydd y teulu'n torri i lawr, gyda'r nod o gadw'r teulu gyda'i gilydd.

- Ailstrwythuro ac ail-lunio systemau fel eu bod yn berthnasol, yn synhwyrol, yn hyblyg ac yn ddefnyddiol i ymarferwyr.



Yn seiliedig ar y cynnydd amlwg hwn ac ymdrech ac ymrwymiad staff ar draws y gwasanaeth, rwyf yn hyderus y gallwn barhau i addasu a thrawsnewid.

Rwyf yn llwyr gefnogi dymuniad a bwriad tîm rheoli'r gwasanaethau plant i barhau i adeiladu ar ein cryfderau a sicrhau ansawdd ar hyd bob rhan o daith y plentyn neu'r person ifanc trwy'r gwasanaeth.

| Beth wnaethom addo'i wneud? | Wnaethom ni hyn? |
| --- | --- |
| **Ymateb i Angen** | |
| Cynnal y gwaith canolbwyntio ar ansawdd y broses gwneud penderfyniadau, a sicrhau bod y rhesymau dros y penderfyniadau'n cael eu cofnodi'n gyson, gan gynnwys dal barn defnyddwyr gwasanaeth yn well | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Gwelliannau mewn arferion Rheoli Achosion o fewn y Gwasanaethau Arbenigol Plant | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Datblygu mwy ar ffyrdd integredig o weithio sy'n sicrhau bod teuluoedd yn cael cefnogaeth ar y cyfle cyntaf i atal yr angen am ymyriadau arbenigol mwy dwys | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Adolygu ein trefniadau "drws ffrynt" a'r rhyngwyneb gyda'r Tîm o Amgylch y Teulu | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| **Diogelu** | |
| Ar sail Awdurdod Lleol - gweithredu'r polisi Diogelu er mwyn sicrhau y diogelir pobl sydd mewn perygl o niwed ac esgeulustod a chodi ymwybyddiaeth bod diogelu yn fusnes i bawb | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Ystyried opsiynau ar gyfer gwella gweithio rhanbarthol trwy'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant Rhanbarthol | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Gweithio'n agosach gydag asiantaethau sy'n delio â thrais yn y cartref er mwyn cynorthwyo ymateb gwasanaethau | ✗ Ar ei hôl hi |
| **Hyrwyddo Lles, Annibyniaeth a Sefydlogrwydd** | |
| Darparu gwaith cymdeithasol o ansawdd ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal lle mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar gael sefydlogrwydd | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| Parhau i gefnogi aelodau o'r teulu estynedig i ofalu am blant neu bobl ifanc sy'n perthyn iddynt ac sy'n destun gorchmynion preswyliaeth, gwarchodaeth arbennig neu ofal lle asesir ei fod yn ddiogel a phriodol gwneud hynny. | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |

| | |
|---|---|
| Recriwtio ugain gofalwr maeth generig (dros ddwy flynedd) i sicrhau bod gennym ddewis lleol o leoliad a bod cyfatebiaeth. Bydd hyn yn gwella sefydlogrwydd y lleoliad, cyrhaeddiad addysgol a chyrhaeddiad ein plant mewn gofal. Y nod yw gostwng costau darpariaeth Maethu Annibynnol a darpariaeth breswyl | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Parhau gyda threfniadau cydweithredol i ddarparu lleoliadau ar gyfer plant mewn gofal a datblygu trefniadau newydd lle byddant yn gwella ystod a dewis o leoliadau sydd ar gael i'n plant | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Gwella cyfleoedd bywyd Plant mewn Gofal trwy ddarparu'r Strategaeth Rhiantu Corfforaethol | ✗ Ar ei hôl hi |
| Sicrhau y canolbwyntir yn benodol ar gyrhaeddiad a chyflawniad addysgol y plant sydd yn ein gofal | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Gweithio gyda phartneriaid i weithredu'r opsiwn llety i bobl ifanc (hyd at 24 mlwydd oed). | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| **Comisiynu a Phartneriaethau** | |
| Dylanwadu ar ddatblygu mwy o wasanaethau ataliol ac ymyrryd cynnar trwy'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, gan gynnwys cefnogi gwaith gweithredu'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Datblygu trefniadau cefnogaeth ddwys i deuluoedd fel y bydd y cyfleoedd o sicrhau canlyniadau da yn y tymor hir yn gwella i blant mewn teuluoedd sydd mewn argyfwng a lle mae diogelwch y plentyn yn bryder a sefydlogrwydd yn amheus. | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Ailfodelu'r gwasanaeth i blant a phobl ifanc ag anableddau i greu gwasanaeth mwy disgybledig y mae modd ei ddarparu o fewn yr adnoddau presennol ac sy'n cael ei gydnabod gan blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr fel un sy'n diwallu anghenion | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Gweithio gyda Chyngor Gwynedd a phartneriaid i ddarparu'r gwasanaeth integredig cefnogi'r teulu (IFSS) ar y cyd | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| **Rheoli Adnoddau** | |
| Parhau i weithredu'r Strategaeth Gweithlu | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |

| | |
|---|---|
| Penodi i swyddi rheoli allweddol – gostwng costau asiantaethau | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Rheoli o fewn y gyllideb - lleihau dibyniaeth ar leoliadau trydydd parti | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| **Perfformiad a Rheoli Busnes** | |
| Gweithredu'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |

**Cyfraddau cadw Staff:**

**2013/14 = 91.3%,**

**O gymharu ag 88.4% yn 2012/13.**

"Dangosodd y gweithwyr cymdeithasol gofal plant y siaradom â nhw ethos rhiantu corfforaethol y Cyngor Sir, gan fynegi ymrwymiad i blant yng ngofal y Cyngor a dangos eu cymhelliant i gael y canlyniadau gorau posib i i blant y gwnaed penderfyniad i'w lleoli".

AGGCC 2013

Cwblhawyd 90.86% o asesiadau Cychwynnol o fewn saith diwrnod yn ystod 2013/14, ac ar gyfer y rhai hynny y tu allan i'r terfyn saith diwrnod, rydym wedi gweld gostyngiad parhaus, i lawr i 12 diwrnod ar gyfartaledd. Mae hyn yn cymharu'n dda gyda chyfartaledd Cymru o 73.10% ac ugain diwrnod

# Gwasanaethau Plant – Meysydd Blaenoriaeth ar gyfer 2014/15

**Rydym wedi ymrwymo i weithio tuag at gwblhau'r isod eleni:**

| **Ymateb i Angen** |
|---|
| Newid trefniadau ein tîm pwynt cyswllt cyntaf |
| Cynnal a chryfhau'r perfformiad a gyflawnwyd yn ystod 2013/14 yng nghyswllt meysydd arfer allweddol sy'n sicrhau, lle bo plant yn gymwys, eu bod yn cael ymateb da ac amserol i'w hanghenion |
| Gwella ansawdd ac amseroldeb asesiadau craidd |
| Gweithredu ein Gwasanaeth Cefnogi'r Teulu diwygiedig |
| Astudiaeth ar y Posibiliadau – Gwasanaethau Ymyl Gofal |
| **Diogelu** |
| Cynnal a chryfhau perfformiad a gyflawnwyd yn ystod 2013-14 yng nghyswllt Dangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n sicrhau y bydd gan blant gynlluniau amddiffyn plant da a chyfredol sy'n sicrhau y bydd eu hanghenion yn cael eu diwallu. |
| Bod â systemau yn eu lle i sicrhau bod plant sy'n destun trefniadau maethu preifat yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth lle bynnag y bo'n bosib ac yn cael cynnig cymorth ac amddiffyniad amserol yn unol â'r Polisi, y Cyfarwyddyd a'r Rheoliadau Statudol Cenedlaethol. |
| Gweithredu'r Gwasanaeth Diogelu Pobl – yn cwmpasu gwaith gwarchod oedolion a phlant |
| Cydgysylltu'r Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol |
| Gwneud penderfyniad ynghylch a ydym yn mabwysiadu'r Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaethol ym Môn – fel rhagflaenydd i bwynt mynediad sengl ar gyfer yr holl gyfeiriadau Plant mewn Angen a Phlant mewn Perygl. |

| |
|---|
| **Hyrwyddo Lles, Annibyniaeth a Sefydlogrwydd** |
| Bydd Plant Môn sydd mewn Gofal yn cael cefnogaeth i fyw ym Môn neu cyn agosed â bo modd i Fôn |
| Bydd Plant Môn sydd mewn Gofal yn cael cefnogaeth i allu byw gyda theulu ar ryw adeg yn eu plentyndod, lle bynnag a phryd bynnag y bo’n bosib |
| Cymeradwyo ein strategaeth rhiantu corfforaethol a rhoi hyfforddiant i aelodau ar eu cyfrifoldebau Rhiantu Corfforaethol |
| Cynyddu nifer y lleoliadau maethu mewnol o ddeg teulu erbyn mis Rhagfyr 2014 a deg ychwanegol erbyn mis Rhagfyr 2015 a, felly, gostwng ein gwariant ar leoliadau maethu trydydd parti |
| Gwella ein perfformiad o ran sefydlogrwydd lleoliadau a newid ysgol i blant mewn gofal |
| **Comisiynu a Phartneriaethau** |
| Parhau i ddylanwadu ar ddatblygu rhannau allweddol o gefnogaeth effeithiol i deuluoedd ar draws continwwm angen – o atal i risg uchel, gan gynnwys sefydlu model lles y plentyn sy’n gysylltiedig ac yn gydlynol ac sy’n gosod cyfrifoldebau ar gyfer gwasanaethau dwys, ataliol a rhai sydd wedi’u targedu ac y mae’r holl staff a phartneriaid eraill yn berchen arno ac yn ei ddeall |
| Datblygu trefniadau cefnogaeth ddwys i deuluoedd fel y bydd y cyfleoedd o sicrhau canlyniadau da yn y tymor hir yn gwella i blant mewn teuluoedd sydd mewn argyfwng a lle mae diogelwch y plentyn yn bryder a sefydlogrwydd yn amheus. |
| Ailfodelu’r gwasanaeth i blant a phobl ifanc ag anableddau i greu gwasanaeth mwy disgybledig y mae modd ei ddarparu o fewn yr adnoddau presennol ac sy’n cael ei gydnabod gan blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr fel un sy’n diwallu anghenion |
| Gweithio gyda Chyngor Gwynedd a phartneriaid i ddarparu'r gwasanaeth IFSS ar y cyd |
| **Rheoli Adnoddau** |
| Cynnal sefydlogrwydd staff |
| Gwella cyfraddau salwch staff |

| Rheoli o fewn y gyllideb - lleihau dibyniaeth ar leoliadau trydydd parti |
|---|
| **Perfformiad a Rheoli Busnes** |
| Parhau i lwyr weithredu'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd |

Cliciwch YMA i gael at Gridiau Tystiolaeth Gwasanaethau Plant 2013/14

**Mae gan yr hollblant mewn gofal Weithiwr Cymdeithasol**

**Cynhaliwyd 95.68% o'r holl adolygiadau o fewn yr amser, gan aros uwchlaw cyfartaledd Cymru yn 2012/13 o 71.40%**

Cliciwch YMA i gael at Wybodaeth am Berfformiad a Chardiau Sgorio 2013/14

## Cyflwyniad – Gwasanaethau Oedolion

**Mae adroddiad trosolwg manwl, gridiau tystiolaeth ac adroddiadau perfformiad ar gyfer pob gwasanaeth wrth wraidd y crynodeb hwn. Mae modd gweld copïau electronig o'r rhain ar ddiwedd yr adroddiad.**

**Cliciwch YMA i weld Adroddiad Trosolwg Manwl y Gwasanaethau Oedolion**

**Nod Gofal a Chefnogaeth Gymdeithasol yw:**

- Cefnogi oedolion a'u gofalwyr i ddatblygu ffyrdd o ddatrys eu hanghenion gofal cymdeithasol sydd, lle bynnag y mae hynny'n bosibl, yn ei gwneud yn bosib iddynt naill ai gadw ei hannibyniaeth neu adennill eu hannibyniaeth;
- Gweithio gyda phartneriaid megis Iechyd a Gwasanaethau Tai, sefydliadau yn y Trydydd Sector a grwpiau cymunedol fel bod modd cefnogi pobl fregus yn ddiogel yn eu cymunedau lleol;
- Gyda'i gilydd, sicrhau bod oedolion bregus yn cael eu gwarchod rhag niwed.

**Rhaid i'r weledigaeth hon fod yn uchelgeisiol a chynnwys yr isod:**

- Cefnogi pobl ym Môn i aros yn eu cartrefi eu hunain - gydag ystod o wasanaethau o ansawdd uchel ar gael iddynt yn y gymuned;
- Hyrwyddo a chefnogi oedolion annibynnol, iach sydd wedi'u cynnwys yn gymdeithasol ac yn economaidd yng nghymuned yr Ynys;
- Cydnabod bod cyflwr a lles meddyliol iach cyn bwysiced â lles corfforol;
- Cefnogi oedolion i wneud y mwyaf o fanteision cyflogaeth;
- Cydnabod bod gan oedolion rolau i'w cyflawni sy'n wahanol ac yn gymhleth (gweithiwr, rhiant, gwirfoddolwr, gofalwr, esiampl i eraill) ac sydd â gwahanol gyfrifoldebau cymdeithasol sy'n cael effaith ar eu ffordd o fyw a'u dewisiadau o ran iechyd;
- Sicrhau y bydd ein partneriaid yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol yn canolbwyntio ar ymyriad cynnar a gwasanaethau ataliol;
- Sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf effeithlon ac effeithiol o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

## Gwasanaethau Oedolion – Meysydd o lwyddiant a chynnydd 2013/14

Mae ein cynnydd wedi bod yn fawr dros y deuddeg mis diwethaf wrth i ni ddatblygu nifer o ffrydiau gwaith yn unol â'n blaenoriaethau datganiedig. Ymhlith rhai o'n llwyddiannau mwyaf mae:

- Cynnydd wrth ddatblygu'r Rhaglen Drawsnewid i Oedolion Hŷn gan gynnwys cyhoeddi ein gweledigaeth a Bwriadau'r Gwasanaeth yn sgil cyfnod o ymgysylltu, ail-lansio Ailalluogi, datblygu Llety a Chefnogaeth, datblygu trefniadau Broceriaeth a Rhestr Brisiau ar gyfer gwasanaethau gofal cartref, a "Creu Cymunedau".

- Gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddatblygu mwy ar y Pwynt Mynediad sengl; datblygu ymatebion gwasanaeth trwy'r Gwasanaeth Gofal Lefel Uwch Môn ac Ymateb Brys (Gofal canolraddol) a thrwy weithio'n lleol ac ar y cyd gyda Thîm Arweinyddiaeth Lleol Model Môn sy'n cynnwys rheolwyr strategol a gweithredol ar gyfer disgyblaethau gofal cymdeithasol ac iechyd cymunedol.

- Ymateb effeithiol parhaus i honiadau o gam-drin ac esgeulustod a pharhad o'n hymdrechion i godi ymwybyddiaeth yng nghyswllt gwarchod oedolion bregus (rhaglen ataliol). Mae hyn yn cynnwys cynnydd wrth sefydlu Bwrdd Diogelu Gwynedd a Môn sy'n golygu ein bod mewn lle da i ymateb i'r disgwyliadau a fynegir trwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru)

- Rydym wedi hwyluso gwaith datblygu gwasanaeth cartref cadarnach ar y cyd gyda'r sector annibynnol trwy gyflymu gwaith allanoli gofal cartref yn y tymor hir.

> Ddiwedd mis Mawrth 2014, bu i ni amcangyfrif bod 53% o'r ddarpariaeth hon bellach yn cael ei phrynu gan ddarparwyr y sector annibynnol o gymharu â 37% ym mis Mawrth 2013.

- Mae gennym dystiolaeth o ymgysylltiad da rhwng defnyddwyr y gwasanaeth a'r gofalwyr yn ogystal â gweithgaredd cymunedol mewn meysydd gwasanaeth penodol (e.e. pobl hŷn ac oedolion ag anableddau). Rydym wedi adolygu Cytundebau Lefel Gwasanaeth a'n buddsoddiadau yn y 3ydd Sector. Rydym wedi datblygu Fforwm Gofal Cartref ar gyfer darparwyr ac wedi dechrau gwaith llywio a datblygu'r farchnad i gwrdd â galwadau'r gwasanaeth ar draws y chwe bro daearyddol ym Môn. Rydym wedi dechrau gweithio dan y ffrwd gwaith Creu Cymunedau lleol i ddatblygu dull o weithio gyda'r gymuned yn ardal Seiriol er mwyn gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau cymunedol a chyfalaf cymdeithasol trwy fodel o gyd-gynhyrchu.

- Rydym wedi cyhoeddi strategaeth gofalwyr ddrafft yn amlinellu ein bwriadau comisiynu yng nghyswllt gwasanaethau i gefnogi Gofalwyr. Rydym hefyd wedi gweithio ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu swyddi Hwylusydd Gofalwyr er mwyn adnabod a chefnogi Gofalwyr yn Ysbyty Gwynedd ac mewn meddygfeydd.

- Rydym wedi cynnal perfformiad da yn lleol ar draws cyfres o Ddangoswyr Perfformiad Allweddol a'r tu mewn i'n fframwaith rheoli perfformiad lleol. Cyflawnwyd hyn gyda llai o gyllideb yn cwrdd â strategaeth effeithlonrwydd heriol y cyngor.

- Rydym wedi sefydlu Bwrdd Cyflawni Integredig ar gyfer Gofal Cymdeithasol ac Iechyd er mwyn darparu trefniadau llywodraethu cadarnach i ddatblygu gwaith ar y cyd gydag Iechyd er mwyn integreiddio gwasanaethau. Rydym hefyd wedi gweithio gyda'r awdurdodau eraill a'r Bwrdd Iechyd yng Ngogledd Cymru i ddatblygu Datganiad o Fwriad ar y Cyd yng nghyswllt integreiddio, i'w gyflwyno'n derfynol i Lywodraeth Cymru erbyn 31/03/14.



***Cynghorydd Sir Ynys Môn Llinos Medi Huws, a benodwyd yn eiriolwraig Gofalwyr Môn, gyda Deilydd Portffolio'r Gwasanaethau Cymdeithasol, y Cynghorydd Ken Hughes a Ms April Smith, sy'n gofalu am ei mam oedrannus***

"Rwyf yn edrych ymlaen at ymgymryd â'r rôl hynod bwysig hon. Yn ôl y cyfrifiad diweddar, mae dros 9000 o ofalwyr di-dâl ym Môn. Mae'n ffaith a gydnabyddir na allai ein cymdeithas na'n gwasanaethau cyhoeddus weithredu heb gyfraniadau sylweddol y gofalwyr. Byddaf yn gweithio gyda swyddogion y Cyngor a phartneriaid yn y trydydd sector i sicrhau fy mod yn cael cymaint o gyswllt â phosib gyda gofalwyr ym Môn."

Y Cynghorydd Llinos Medi Huws, Eiriolwraig Gofalwyr

| Beth wnaethom addo'i wneud? | Wnaethom ni hyn? |
| --- | --- |
| **Ymateb i Angen** | |
| Cwblhau adolygiad o daflenni gwybodaeth a gyhoeddwyd ac adolygu'r trefniadau gwybodaeth presennol gan gynnwys yr ystod o bwyntiau gwybodaeth a datblygu ein tudalennau gwe | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| Dod â'n trefniadau Pwynt Mynediad Sengl gyda'r Bwrdd iechyd i'r brif ffrwd | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Ail-lunio ac ailfodelu gwasanaethau i bobl hŷn fydd yn cael eu harwain gan ddwy nod - ei gwneud yn bosib i bobl allu aros gartref, darparu canlyniadau gwell i ddefnyddwyr y gwasanaeth a gwella effeithlonrwydd/fforddiadwyedd. | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Bydd ailalluogi ac ymyriad cynnar yn y gymuned yn dod yn nodweddion fwyfwy amlwg yn ein modelau ymateb i'r gwasanaeth wrth i ni ostwng ein dibyniaeth ar ofal preswyl tymor hir | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| Proffesiynol - gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ar draws y maes Gwasanaethau Oedolion fel gyrrwr yn cynnal ein gweithredoedd, yn tystiolaethu i ddarparu gwasanaeth atebol o fewn diwylliant rheoli perfformiad lleol a chadarn. Bydd hyn yn cynnwys gwreiddio disgyblaeth rheoli rhaglen yn holl agweddau'r busnes. | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Datblygu mwy ar y rhyngwyneb strategol a gweithredol gydag Iechyd (e.e. datblygu mwy ar Ofal Lefel Uwch Môn, dod â threfniadau pwynt mynediad sengl arbrofol mewn model gofal cwsmer integredig i'r brif ffrwd); | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Cwblhau'r adolygiad presennol o wasanaethau eiriolaeth a gomisiynir a gweithredu arno | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Sicrhau y cryfheir rhagor ar wasanaethau cyffredinol ataliol cymunedol trwy ddatblygu capasiti cymunedol a mwy o gyfalaf cymdeithasol – mabwysiadu rôl arweinyddiaeth gymunedol mewn un gymuned yn y lle cyntaf | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Sicrhau Model Heneiddio'n Dda cynaliadwy yn y brif ffrwd ar draws holl gymunedau'r Ynys | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Adnewyddu ein strategaethau comisiynu cyfredol fel dogfennau allweddol i arwain gweledigaeth, cyfeiriad a | ✓ |

| | |
|---|---|
| blaenoriaethau ein Gwasanaeth | Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Mewn cydweithrediad ag Iechyd, adolygu ein trefniadau strategol i gefnogi gofalwyr ar draws yr holl grwpiau defnyddwyr gan sicrhau bod ein holl fwriadau comisiynu yn gyfoes, yn addas i bwrpas ac yn unol â blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| **Diogelu** | |
| Cryfhau mwy ar arfer diogelu yn lleol mewn fframwaith cynllun gwella – yn cynnwys asesiadau risg, cynlluniau gwarchod, profiad defnyddwyr a chysylltiadau â Diogelwch Cymunedol | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Ystyried cyfleoedd sydd ar gael i gryfhau capasiti strategol mewn diogelu; | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Parhau i gydymffurfio'n llwyr â'r polisi/gweithdrefn Diogelu Corfforaethol | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Gwreiddio'n llwyr archwiliadau o ffeiliau achos yng nghyswllt arferion diogelu yn fframwaith sicrhau ansawdd ein gwasanaeth sy'n esblygu; | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Parhau i ddatblygu Bwrdd Diogelu Cysgodol Gogledd-Orllewin Cymru gyda'n partneriaid | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| Ystyried opsiynau ar gyfer gwell gweithio'n rhanbarthol (Bwrdd Diogelu Oedolion rhanbarthol a chanolfan gyfeirio diogelu arfaethedig Gogledd Cymru); | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Adolygu ein protocol lleol a chyfredol, Trosglwyddo Pryderon yn Uwch | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| **Comisiynu a Phartneriaethau** | |
| Parhau yn gyflym i drawsnewid gwaith ailfodelu gwasanaethau pobl hŷn er mwyn rhoi mwy o gefnogaeth yn y gymuned, atal dirywiad mewn iechyd a lles, gostwng dibyniaeth ar wasanaethau preswyl tymor hir a gostwng nifer y bobl sy'n mynd i'r ysbyty heb fod rhaid | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Cynnal adolygiad cynhwysfawr o wasanaethau anableddau dysgu | × |

| | Ar ei hôl hi |
|---|---|
| Datblygu a chryfhau mwy ar ein trefniadau lleol ar gyfer ymgysylltu â defnyddwyr y gwasanaeth, gofalwyr a dinasyddion o fewn fframwaith corfforaethol sy'n esblygu | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Mewn partneriaeth gyda Chyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd, arfarnu ein trefniadau cyfredol o ran gwaith cymdeithasol yn yr ysbyty | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Adolygu ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd lywodraethu a chyfrifoldebau sy'n cynnal gwasanaethau iechyd meddwl o fewn ethos o welliant parhaus | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Parhau i ddatblygu ein partneriaethau gyda'r Sector Annibynnol a'r Trydydd Sector | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Cryfhau a datblygu mwy ar ein perthynas gydag Iechyd trwy sefydlu'r Bwrdd Darparu Integredig arfaethedig ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| **Rheoli Adnoddau** | |
| Parhau i gryfhau arferion cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn y Gwasanaeth; | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Cwrdd â'r holl dargedau cymhwyso cenedlaethol perthnasol, gorfodol a phenodol | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| Parhau i weithio gyda phartneriaid i ddarparu cyfleoedd hyfforddi Fframwaith Credyd a Chymwysterau (QCF) er mwyn cryfhau mwy ar weithlu gofal cymdeithasol cymwys | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Parhau i weithio ar y cyd a chynnal ein partneriaethau ffurfiol (datblygu'r gweithlu); | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Paratoi strategaeth gweithlu ar gyfer gwasanaethau Gofal Cymdeithasol rheoledig i Oedolion | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Sicrhau peirianwaith cadarn er mwyn rheoli absenoldeb/salwch | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Parhau i foderneiddio gan sicrhau y gwneir y defnydd gorau posib o adnoddau a chyfrannu at raglen effeithlonrwydd y Cyngor (targed ariannol y gwasanaeth o £972k yn ystod 2013/14); | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |

| | |
|---|---|
| Mabwysiadu strategaeth ariannol tymor canolig i Ofal Cymdeithasol i Oedolion gan leihau dibyniaeth ar leoliadau preswyl/nyrsio tymor hir yn ogystal â rhoi sylw i bwysau cost a adnabuwyd; | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| **Perfformiad a Rheoli Busnes** | |
| Cyhoeddi fersiwn derfynol ein fframwaith sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad; | × Ar ei hôl hi |
| Cyhoeddi a gweithredu cynllun gwella mewn ymateb i arfarniad allanol o'n systemau gwybodaeth a data | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Gweithredu cynllun gwella ar reoli cwynion | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Parhau i adolygu cofrestr risg y Gwasanaeth yn rheolaidd wrth i gamau lliniaru gael eu gyrru ymlaen | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| **Arweinyddiaeth a Chefnogaeth Gorfforaethol a Gwleidyddol** | |
| Sicrhau y penodir Aelodau'n fentoriaid ar gyfer Gwasanaethau Oedolion, Eiriolwr Gofalwyr ac Eiriolwr Pobl Hŷn pan gaiff y Cyngor Newydd ei gadarnhau ym mis Mai 2013 | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| Rhoi cwrs cyflwyno ar ofal cymdeithasol i oedolion ar gyfer Aelodau Etholedig newydd yn sgil etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2013 | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Parhau i gryfhau mwy ar waith datblygu a gwerthfawrogi Aelodau Etholedig ac Uwch Reolwyr (gyda chyfrifoldebau corfforaethol) ynghylch rolau a swyddogaeth Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a datblygu strategaeth ymgysylltu i Aelodau ac uwch reolwyr gyda staff rheng flaen yn y gwasanaeth gofal cymdeithasol i oedolion | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Egluro mwy ar lefelau a chyfyngiadau o gyfrifoldeb dirprwyedig sydd yn mynd law yn llaw gyda gweithredu'n llawn sustem gyfrifon ariannol newydd y Cyngor; | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |
| Cryfhau mwy ar waith archwilio corfforaethol a gwleidyddol gofal cymdeithasol i oedolion o fewn fframwaith craffu/perfformio. | ✓ Ar waith/yn debygol o gyflawni |

## Gwasanaethau Oedolion – Meysydd Blaenoriaeth ar gyfer 2014/15

**Mae'r blaenoriaethau a ganlyn wedi'u nodi ar gyfer 2014/15:**

- Parhau gyda'n rhaglen i drawsnewid gwasanaethau i Bobl Hŷn. Rydym wedi dechrau gyda chynllunio prosiectau fydd yn canolbwyntio ar wasanaethau Dementia a datblygu ein dull o weithredu Cefnogaeth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion.
- Parhau i ddatblygu ein strategaeth i ailfodelu ystod a dewis o wasanaethau cefnogi a llety i Bobl Hŷn.
- Datblygu rhaglen waith ar y cyd gydag Iechyd i integreiddio gwasanaethau mewn ymateb i alwadau a disgwyliadau Llywodraeth Cymru fel y nodir yn 'Fframwaith ar gyfer Gwasanaethau Integredig i Bobl Hŷn ag Anghenion Cymhleth' (Gorffennaf 2013).
- Cyflwyno trefniadau Asesu Integredig diwygiedig ar y cyd gydag Iechyd a rhoi hyfforddiant amlddisgyblaethol i staff gofal cymdeithasol ac iechyd.
- Cryfhau modelau o ddarparu gwasanaethau yn y gymuned mewn partneriaeth ag Iechyd, Tai a'r Trydydd Sector trwy'r Grant Gofal Canolraddol a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru.
- Dechrau'r adolygiad i ailfodelu gwasanaethau Anabledd Dysgu.
- Cryfhau mwy ar ein trefniadau cefnogi Busnes a Chomisiynu.
- Datblygu mwy ar ein trefniadau ar gyfer ymgysylltu gyda defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr, a darparwyr y trydydd sector a'r sector annibynnol wrth adolygu ein bwriadau comisiynu i sicrhau ystod o wasanaethau cefnogi cymunedol priodol.
- Llunio ein bwriadau comisiynu ar gyfer y dyfodol o ran sicrhau gwasanaethau eiriolaeth annibynnol i gwrdd â'r anghenion ar draws y gwasanaethau oedolion.

Bu cynnydd sylweddol yn ystod 2013/14 er nad ydym wedi gallu cwblhau ein ffrydiau gwaith i gyd o fewn yr amser disgwyliedig. Er hynny, byddwn yn parhau i wneud cynnydd dros y deuddeg mis nesaf. Rhaid bod yn realistig ynghylch yr hyn y mae modd ei gyflawni o fewn yr adnoddau sydd gennym a byddir yn parhau i fod angen blaenoriaethu ac aildrefnu rhaglenni gwaith yn y gwasanaeth a'r awdurdod. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor wedi nodi'r sialensiau a sefydlu dull corfforaethol o adnabod blaenoriaethau a monitro cynnydd. Mae Gofal Cymdeithasol Oedolion yn flaenoriaeth a gydnabyddir yn y rhaglen waith hon.

**Yn y tabl a ganlyn, rydym yn amlinellu meysydd allweddol eraill ar gyfer cynnydd ar gyfer eleni:**

| |
|---|
| **Ymateb i Angen** |
| Cytuno ar fodel o ofal a chymhwysedd ar gyfer Tai Gofal Ychwanegol. |
| Sicrhau caniatâd ffurfiol y Cyngor i fwrw ymlaen gyda thri chyfleuster tai gofal ychwanegol yn Amlwch, Llangefni a de'r Ynys. |
| Ymgysylltu'n lleol ynghylch anghenion llety a gofal ar draws yr Ynys |
| Gweithredu'r cynllun gwaith mewn ymateb i'r argymhellion yn yr Adolygiad Cefnogi Pobl ynghylch y contract i ddarparu Gwasanaeth Warden mewn tai gwarchod. |
| Dechrau adolygiad sylweddol o wasanaethau anabledd dysgu ar y cyd gyda phartneriaid. |
| Dechrau gwaith ar y Prosiect Gwasanaethau Dementia a ffrydiau gwaith blaenoriaethu Cefnogaeth a gyfarwyddir gan Ddinasyddion dan y Rhaglen Trawsnewid. |
| **Diogelu** |
| Cynnal archwiliadau o ffeiliau achos yn rheolaidd yng nghyswllt arferion diogelu yn fframwaith sicrhau ansawdd ein gwasanaeth sy'n esblygu |
| Adolygu a chryfhau ein trefniadau ar gyfer ymateb i geisiadau am hawliau yng nghyswllt Diogelu rhag Colli Rhyddid, yn enwedig felly ar gyfer y bobl fregus hynny nad oes ganddynt y gallu na chefnogaeth teulu mewn cartrefi gofal a chyfleusterau byw gyda chefnogaeth |
| **Hyrwyddo Lles, Annibyniaeth a Sefydlogrwydd** |
| Datblygu'r agwedd creu Partneriaeth Gymunedol leol wrth ddarparu ymateb gwasanaeth ataliol yn y gymuned yn ardal Seiriol a datblygu agwedd ar gyfer Cydgysylltu Ardaloedd Lleol |
| Gweithredu'r bwriadau comisiynu ar gyfer dyfodol Gwasanaethau Cefnogi Pobl Hŷn yng nghyswllt Tai - bwriadau a nodir yn y Strategaeth Comisiynu Cefnogi Pobl. |

| Comisiynu a Phartneriaethau |
|---|
| Parhau i ddatblygu bwriadau'r gwasanaeth dan y Prosiect Gofal a Llety Gofal Uwch dan y Rhaglen Trawsnewid i Bobl Hŷn |
| Cadarnhau bwriadau comisiynu yng nghyswllt Cartref Preswyl Garreglwyd |
| Dechrau gweithio ar adolygiad cynhwysfawr o wasanaethau anableddau dysgu |
| Sefydlu trefniadau Rheoli Prosiectau ffurfiol i gefnogi gwaith datblygu gwasanaethau Cefnogi Dementia dan y Rhaglen Trawsnewid |
| Datblygu trefniadau Rheoli Prosiectau ffurfiol i gefnogi gwaith datblygu ffrwd gwaith Cefnogaeth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion |
| Cytuno ar fersiwn derfynol y Strategaeth Gofalwyr a dechrau gweithredu'r Cynllun Gwaith tair blynedd. |
| Gweithredu'r Cytundeb Fframwaith Cyn-leoliad Preswyl Gogledd Cymru gyda darparwyr gofal nyrsio a phreswyl ym Môn ac adfywio'r fforwm darparu Gofal Nyrsio a Phreswyl lleol. |
| Rhoi ar waith y Cynllun Gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion yn yr adolygiad Cefnogi Pobl o wasanaethau warden mewn cynlluniau tai gwarchod. |
| Datblygu rhaglen o flaenoriaethau ar gyfer darparu mwy o wasanaethau integredig gydag Iechyd dan faner y Bwrdd Darparu Integredig ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. |
| **Rheoli Adnoddau** |
| Datblygu perthynas waith effeithiol gyda'r Uned Datblygu'r Gweithlu y mae ei rheolwr llinell bellach yn yr adain gorfforaethol |
| Parhau i sicrhau cyfleoedd hyfforddi a datblygu ystyrlon ar draws gweithlu gofal cymdeithasol, defnyddwyr a gofalwyr yn unol â'r blaenoriaethau yn ein Cynlluniau Trawsnewid; |
| Parhau i weithio gyda phartneriaid i roi cyfleoedd datblygu hyfforddiant QCF i gryfhau mwy ar y gweithlu gofal cymdeithasol cymwys |
| Gweithredu'n llwyr y Rhaglen Gyfuno sydd newydd ei lansio ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol sydd newydd gymhwyso, dan faner fframwaith CEPL y Cyngor Gofal ar gyfer Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru; |
| Parhau i weithio ar y cyd a chynnal ein partneriaethau ffurfiol yng nghyswllt Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol; |
| Parhau i foderneiddio gan sicrhau'r defnydd gorau posib o adnoddau a chyfrannu i raglen effeithlonrwydd y Cyngor (Targed ariannol y gwasanaeth o £1,260,000 yn 2014/15). |
| **Perfformiad a Rheoli Busnes** |

| |
|---|
| Datblygu Fframwaith Rheoli Perfformiad a Sicrwydd Ansawdd ar draws yr Adran i wella gwaith canolbwyntio ar fonitro ansawdd gwasanaethau |
| Cryfhau capasiti mewn Cefnogi Busnes i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig gyda'n gallu i ymateb i geisiadau i gydymffurfio â gwybodaeth o fewn amser statudol |
| Parhau i fonitro effeithiolrwydd ein trefniadau wrth ymateb i gwynion a'u datrys a dysgu'r gwersi i wella ansawdd ein gwasanaethau'n barhaus. |
| Gweithredu'r Cynllun Gwella a luniwyd mewn ymateb i'r argymhellion yn yr adolygiad allanol o'n systemau gwybodaeth |
| Rhoi i Weithwyr Cymdeithasol rheng flaen liniaduron i lenwi ffurflenni a rhoi gwybodaeth i mewn i DRAIG pan fyddant allan yn y maes mewn ymateb i Weithio'n Gallach |
| Parhau i weithio gyda'r Adain TCG wrth flaenoriaethu gwaith a bwrw ymlaen gydag o ar ddatblygu systemau TCG, cael systemau newydd yn eu lle a'u gweithredu. |
| Parhau i gydweithredu gyda phartneriaid yn Rhaglen Gydweithredol Systemau Cymru i sicrhau system wybodaeth newydd yn lle'r un DRAIG/RAISE. |
| **Arweinyddiaeth a Chefnogaeth Gorfforaethol a Gwleidyddol** |
| Datblygu cysylltiadau effeithiol rhwng Pennaeth newydd Gwasanaethau Oedolion a deilyddion portffolio allweddol a sgriwtini corfforaethol; |
| Parhau i ymgysylltu gydag aelodau etholedig trwy drefnu sesiynau gwybodaeth ar bynciau allweddol |
| Egluro mwy ar lefelau a chyfyngiadau o gyfrifoldeb dirprwyedig sydd yn mynd law yn llaw gyda gweithredu'n llawn system gyfrifon ariannol newydd y Cyngor |
| Cryfhau mwy ar waith archwilio corfforaethol a gwleidyddol gofal cymdeithasol i oedolion o fewn fframwaith sgriwtini/perfformio. |

Rhaid i Ofal Cymdeithasol i oedolion drawsnewid dros y cyfnod nesaf i gynnwys rhaglen ehangach na'r hyn y mae wedi'i gynnwys hyd yn hyn. Rhaid iddo symud y tu draw i waith traddodiadol darparu gofal cymdeithasol i roi i oedolion ym Môn weledigaeth gydgysylltiedig a chyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Cliciwch YMA i gael at Wybodaeth am Berfformiad a Chardiau Sgorio 2013/14

Roedd cyfanswm o 5,440 o gyfeiriadau yn 2013/14 (o gymharu â 4,524 yn ystod 2012/13). O'r rhain, roedd 5,061 (3493 yn 2012/13) yn geisiadau am wasanaeth newydd gydag 84% (77% yn 2011/12 AC 85% yn 2012/13) wedi'u neilltuo cyn pen pum diwrnod gwaith (neilltuwyd 76% cyn pen dau ddiwrnod gwaith) gan roi ymateb amserol i gyfeiriadau.

Cliciwch YMA i gael at Gridiau Tystiolaeth Gwasanaethau Oedolion 2013/14







# Gwybodaeth Ariannol 2013/14

Yn y flwyddyn ddiwethaf bu pwysau parhaus i gwrdd â galwadau'r gwasanaeth gyda phwysau sylweddol ar y gyllideb. Wrth edrych i'r dyfodol, rhaid i ni ystyried cyd-destun o bwysau ariannol sylweddol, newidiadau demograffig a disgwyliadau uwch.

Gwasanaethau Plant

Pwyntiau Allweddol

Anwen?

**Gwasanaethau Oedolion**


Mae gwariant y Cyngor ar draws y maes gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn is na'r gwariant cyfartaledd ar draws Awdurdodau Lleol Cymru:

£702.60 y pen o boblogaeth 65+ yw gwariant pobl hŷn –(£849 yw canolrif Cymru)

£246.62 y pen yw gwariant gofal cymdeithasol i oedolion dan 65 (£247.12 yw canolrif Cymru)

| DISGRIFIAD O'R GWASANAETH | Cyllideb 2013/14 £'000 | Gwirioneddol 2013/14 £'000 |
|---|---|---|
| **Gwasanaethau Plant** | **6,781** | **6,566** |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | |
| - Pobl Hŷn | **6,188** | **5,958** |
| - Anableddau Corfforol | **1,512** | **1,421** |
| - Anableddau Dysgu | **4,663** | **4,805** |
| - Iechyd Meddwl | **1,605** | **1,880** |
| **Gwasanaethau Cefnogi** | **704** | **722** |
| **Uned Ddarparu** | **8,609** | **8,086** |
| **Gwasanaethau Eraill** | **144** | **132** |
| **CYFANSWM** | **30,205** | **29,569** |

# £129m Cyllideb Net y Cyngor, yn ôl Gwasanaeth 2013-14




- Cyllideb o £129 miliwn. Caiff 26% o gyllideb y Cyngor ei wario ar Ofal Cymdeithasol (6% Gwasanaethau Plant & 20% Gwasanaethau Oedolion)

- £1,213,720 oedd arbedion 2013/14 ar gyfer Gofal Cymdeithasol, sef gostyngiad o 4.35% yn erbyn cyllideb y flwyddyn flaenorol (2012/2013) o £27,917,310 - swm a gyflawnwyd gan y gwasanaeth yn llwyr.


- Nodwyd arbedion o £1,774,940 ar gyfer 2014/15, sef gostyngiad o 5.88% yn erbyn cyllideb y flwyddyn flaenorol (2013/2014) o £30,204,960

# Lluniau Gwobrwyo Staff 2013













Chwith uchod: Gwobr Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned – Rona Jones (Ail safle); Canol Uchod: Gwobr Proffesiynol a Chynnal yn Dda - James Dawson (**Enillydd);** De Uchod: Gwobr Gwerthfawrogi a Datblygu ein Pobl - Elin Jones (Ail Safle);

Ar y chwith: Gwobr Cyflawnwr – Gwasanaeth Ailalluogi (Ail safle);

Ar y dde: Gwobr Wedi Ymrwymo i Bartneriaeth

Tîm Cefnogaeth i Ddementia, Gofal Cartref (**Enillydd**).



## Geirfa a Rhagor o Wybodaeth

**Creu Cymunedau -** Mae'r prosiect Creu Cymunedau'n ystyried cael cymunedau, y sector gwirfoddol a'r asiantaethau hynny sy'n rhoi gwasanaethau cyhoeddus yn lleol, i weithio mewn partneriaeth. Bydd y prosiect yn ymgynghori gyda chymunedau i nodi'r adnoddau a'r asedau lleol, yr hyn y credant sydd ar goll a'r hyn y credant yw'r blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol o ran creu capasiti cymdeithasol a gwytnwch mewn cymunedau lleol er mwyn gwella ystod y cyfleusterau a gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi dinasyddion.

**Cefnogaeth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion -** Agwedd/model sy'n ei gwneud yn bosib i bobl y mae arnynt angen cymorth i fyw mor annibynnol â phosib ac felly gael mynediad at gyfleoedd y prif lif, fedru gwneud hynny yw cefnogaeth a gyfarwyddir gan ddinasyddion. Cyflawnir y canlyniad hwn trwy gefnogaeth eraill sy'n cydnabod mai'r unigolyn ei hun sy'n gwybod orau yr hyn y mae arno angen a sut y mae modd diwallu'r anghenion hyn.

**Partneriaeth Gymunedol -** Mae'r term hwn yn cyfeirio at gael gwasanaethau cyhoeddus statudol, y trydydd sector (gwirfoddol) a'r sector annibynnol (dielw) a diddordebau cymunedol yn gweithio mewn partneriaeth ac yn gydgynhyrchiol er mwyn ymgynghori ac ymgysylltu â dinasyddion lleol i ddatblygu capasiti, adnoddau a chyfleusterau cymdeithasol ac asedau mewn cymunedau lleol i wella amgylchedd a bywydau pobl leol.

**Lleisiau Lleol -** Prosiect pedair blynedd a ariennir gan y Loteri yw hwn ac mae'n golygu naw sefydliad gwirfoddol yn gweithio gyda'i gilydd ym Môn i gael unigolion a chymunedau o ddiddordeb i ymwneud mwy gyda llunio a darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yn lleol. Caiff y Portffolio ei reoli a'i weinyddu trwy Reolwr Lleisiau Lleol Medrwn Môn. Partneriaeth o naw prosiect yw'r portffolio gyda phob un ohonynt yn gyfrifol am ymgysylltu â'u cymunedau o ddiddordeb a'u cefnogi i ddod yn rhan weithredol o lunio a darparu'r gwasanaethau sy'n cael yr effaith fwyaf arnynt.

**Cefnogaeth i Ddementia -** Mae'r term hwn yn cyfeirio at ystod o wasanaethau gofal a llety wedi'u cynllunio a'u darparu i roi cefnogaeth i bobl sy'n byw gyda dementia a'i gofalwyr.

**Fforwm Gofal Cartref-** Cyfarfod chwarterol yw hwn rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r asiantaethau gofal cartref annibynnol sy'n gweithredu ym Môn i weithio gyda'i gilydd, rhannu gwybodaeth am anghenion poblogaeth a galwadau ar wasanaethau a blaenoriaethau a bwriadau comisiynu er mwyn llunio a datblygu'r farchnad gofal cymdeithasol leol i ymateb i alwadau gwasanaethau ym Môn yn y tymor canolig i hir.

**Prosiect Gofal a Llety Gofal Uwch -** y rhan honno o Raglen Trawsnewid y Gwasanaethau Oedolion sy'n ymwneud â newid a gwella'r modd y gallwn ei gwneud yn bosib i bobl hŷn fyw a chael gofal yn eu cartref eu hunain am cyhyd â bod modd neu mewn math arall o lety a fydd yn rhoi iddynt fywyd o'r ansawdd gorau. Mae'n ymwneud â rhoi i'r sawl sy'n cael gofal fwy o ddewis a rheolaeth dros y gofal y mae yn ei gael i hyrwyddo urddas a pharch.

**Gofal Tai Ychwanegol-** Nod y model gofal ychwanegol yw diwallu anghenion tai, gofal a chefnogi pobl hŷn wrth eu cynorthwyo i gynnal eu hannibyniaeth yn eu llety preifat eu hunain. Darperir yn aml gyfleusterau cymunedol a chymdeithasol er mwyn cynorthwyo i roi sylw i unigrwydd cymdeithasol a chreu ymdeimlad o gymuned. Mae cynlluniau gofal ychwanegol yn adlewyrchu polisïau allweddol y llywodraeth sy'n hyrwyddo annibyniaeth, rheolaeth a gofal i bobl hŷn sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

**Gwasanaeth Integredig Cefnogi'r Teulu** - Mae Tîm Integredig Cefnogi'r Teulu yn dîm amlasiantaethol sy'n gweithio gyda phlant a'u teuluoedd lle ceir achos o'r rhieni'n cam-drin sylweddau a bod hyn yn mynd law yn llaw â phryderon ynghylch lles y plentyn.

**Gofal Lefel Uwch Môn (MEC) -** Mae'r gofal hwn yn rhoi GOFAL MEDDYGOL I GLEIFION sydd wedi cofrestru gyda phractis Meddyg Teulu sy'n cymryd rhan yn y cynllun er mwyn osgoi iddynt orfod mynd i'r ysbyty'n ddiangen (cam-i-fyny) ac i hwyluso eu cyfnod yn ôl i'r gymuned neu fan preswylio arferol (cam-i-lawr). Rhagwelir y bydd cleifion 'cam-i-fyny' a chleifion 'cam-i-lawr', sy'n cael eu hadnabod fel cleifion sy'n addas ar gyfer y gwasanaeth MEC, dan ofal y Tîm MEC am hyd at bedwar diwrnod ar ddeg cyn cael eu rhyddhau i ofal parhaus 'arferol' eu meddyg teulu a/neu weithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol ac iechyd eraill.

**Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol** – Y Brif Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaethol (MASH) yw'r pwynt cyswllt sengl ar gyfer yr holl bryderon diogelu ynghylch plant a phobl ifanc. Daw â gweithwyr proffesiynol ynghyd o wasanaethau sydd â chysylltiad gyda phlant, pobl ifanc, a'u teuluoedd, ac mae'n gwneud y defnydd gorau posib o'u gwybodaeth gyfunol i gadw plant yn ddiogel rhag niwed.

**Gwasanaeth Ailalluogi** - Mae hwn yn cyfeirio at becyn dwys o wasanaethau gofal cartref a ddarperir am gyfnod o hyd at chwe wythnos i gynorthwyo pobl i adennill eu hyder a'u gallu i weithredu'r gorau y gallant i gynnal eu hannibyniaeth a gallu parhau i fyw gartref ar ôl cyfnod o salwch, anabledd a/neu wendid.

**Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol -** Mae Byrddau Diogelu Plant Lleol yn bartneriaethau statudol. Mae amcan y cyfryw fyrddau, sef cydgysylltu a sicrhau bod gweithgareddau diogelu'r partneriaid yn effeithiol, wedi'i sefydlu yn Neddf Plant 2004. Mae system dwy haen o Fyrddau Diogelu wedi bod yn ei lle ar draws Gogledd Cymru er yn gynnar yn 2013. Sefydlwyd bwrdd Rhanbarthol ond parhaodd y swyddogaethau statudol gyda thri Bwrdd Diogelu Plant Lleol isranbarthol.

**Pwynt Mynediad Sengl –** Canolfan Gyfathrebu'r Pwynt Mynediad Sengl, sydd yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ac sy'n weithredol o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8am-6.30pm, fydd y canolbwynt ar gyfer derbyn cyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd cymdeithasol gartref yn y gymuned neu yn eu man preswylio arferol.

**Cefnogi Pobl -** Menter fframwaith polisi ac ariannu Llywodraeth Cymru yw Cefnogi Pobl sy'n rhoi cefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai (cymorth gyda chael tenantiaethau a'u cynnal a hyrwyddo annibyniaeth a chynhwysiad cymdeithasol) ar gyfer ystod o unigolion neu deuluoedd gwahanol ond bregus. Mae'r

rhaglen yn canolbwyntio ar gynllunio, comisiynu a monitro llety gyda chefnogaeth a gwasanaethau cefnogi fel bo'r angen, sy'n cael eu darparu gan amryfal ddarparwyr ar draws ystod o ddaliadaethau ond nid yw'n ariannu costau llety, gofal personol na gofal iechyd i gefnogi unigolion.

**Tîm o amgylch y Teulu** - Menter Llywodraeth Cymru sy'n cael ei hyrwyddo ledled Cymru. Mae'r dull gweithredu'n argymell bod gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi plant a'u teuluoedd (athrawon, ymwelwyr iechyd, cwnselwyr, gweithwyr ieuenctid ac ati) yn gweithio gyda'i gilydd yn gynnar er mwyn datrys problemau gyda theuluoedd. Dull gweithredu'r Tîm o amgylch y Teulu ar gyfer teuluoedd a phlant yw model ataliol cynnar. Ei bwrpas yw rhoi teuluoedd bregus mewn cysylltiad effeithiol â gwasanaethau cymunedol. Mae'n rhan o fenter Teuluoedd yn Gyntaf ehangach. Nod Teuluoedd yn Gyntaf yw gwella canlyniadau tymor byr a hir i rieni, plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi.

**Rhaglen Trawsnewid -** y ffordd o gyflawni'r newidiadau sy'n ofynnol i wneud y gwasanaethau a ddarperir yn fwy modern ac yn fwy effeithlon, fel eu bod yn diwallu anghenion dinasyddion Môn (yr anghenion cyfredol a rhai'r dyfodol). Mae hyn yn golygu newid ffyrdd o feddwl am yr hyn yr ydym yn ei ddarparu a sut yr ydym yn ei ddarparu, sut yr ydym yn darparu gwasanaethau a phwy sydd yn eu darparu, yn enwedig felly gan weithio'n agosach gyda'r rhai hynny yn y gymuned.

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar ffurfiau eraill wrth ofyn amdanynt (e.e. print bras, Braille neu glywedol)**.

Os ydych yn dymuno rhagor o wybodaeth am unrhyw agwedd o'r adroddiad, a fyddech cystal â chysylltu â:

Mrs Emma Edwards,
Rheolwr Cefnogi Busnes,
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor,
Llangefni,
Ynys Môn,
LL77 7TW
E-bost: ejess@anglesey.gov.uk
Rhif Ffôn: 01248 751887



Ynys Môn

THE ISLE OF Anglesey

# Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2013/14

## Adroddiad Trosolwg o'r Gwasanaethau Plant

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.gov.uk www.anglesey.gov.uk

cyngormon
ioacc

@cyngormon
@angleseycouncil

CYNNWYS

1. Cyflwyniad

2. Cyd-destun y Gwasanaeth

3. Ymateb i Angen

4. Diogelu

5. Hyrwyddo Lles, Annibyniaeth a Sefydlogrwydd

6. Comisiynu a Phartneriaethau

7. Rheoli Adnoddau

Rheoli Busnes a Pherfformiad

## 1 Cyflwyniad

Hwn yw fy nhrydydd adroddiad trosolwg fel Pennaeth y Gwasanaethau Plant. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, pwrpas fy adroddiad yw cloriannu ein perfformiad a'n cynnydd yn erbyn blaenoriaethau a osodwyd yn adroddiad y llynedd, a gwneud hynny yn gywir ac yn onest. Rwyf hefyd yn amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer gwella dros y flwyddyn nesaf. Mae fy adroddiad yn rhan o'r dadansoddi a'r gwerthuso fydd o fudd i Adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fel sy'n ofynnol gan Fframwaith Adrodd y Cyngor Blynyddol. Caiff y dadansoddiad a'r dyfarnu yn yr adroddiadau eu cefnogi gan dystiolaeth fanwl o fewn proses arfarnu ein gwasanaeth.

Cyn i mi egluro ein sefyllfa bresennol, credaf y byddai o fudd pe bawn i'n eich atgoffa o'r hyn yr ydym yn ei anelu ato.

Rydym yn credu mewn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant yr ydym yn darparu gwasanaeth iddynt. Yn hyn o beth, credwn y cawn ein barnu, nid yn unig wrth yr hyn yr ydym yn ei wneud ond hefyd wrth yr effaith yr ydym yn ei chael ar y canlyniadau i blant. Golyga hyn, oherwydd ein hymyriad, bod disgwyl y bydd plant a phobl ifanc yn :-

- Ddiogel
- Iach
- Cael sefydlogrwydd yn eu bywydau
- Cyflawni eu potensial; ac
- Cael rhywun i wrando arnynt a chael cymryd rhan mewn penderfyniadau allweddol ynghylch eu bywydau.

**Meysydd o Gyflawni a Chynnydd 2013/14**

Mae awydd gwirioneddol ym Môn i wneud y gorau y gallwn i'r plant a'r teuluoedd yr ydym yn gweithio gyda nhw. Rydym wedi adeiladu ar y datblygiadau a amlygir yn ein hadroddiadau blaenorol a'r hyn yw'r isod yw trosolwg o'r hyn yr ydym wedi'i ddatblygu a'i gyflawni yn y deuddeg mis diwethaf:

- Wedi cynnal adolygiadau sylweddol o'n trefniadau cyswllt cyntaf, y llwybrau y mae achosion yn eu cymryd trwy'r gwasanaeth, ac ansawdd y cymorth a'r ymyriad a gynigir i deuluoedd er mwyn cynorthwyo'r Rhaglen Trawsnewid.
- Wedi cynnal cyfres o gynadleddau dan arweiniad Pennaeth y Gwasanaeth i amlinellu'r rhaglen newid a chreu ymdeimlad cryf o bwrpas a pherchenogaeth o ran datblygu model o waith cymdeithasol i Fôn – er mwyn cefnogi gwneud gwaith anodd, yn well.
- Wedi cynnal a chryfhau ein sefyllfa ac yn symud ymlaen yn gadarnhaol yn erbyn targedau perfformiad allweddol.
- Wedi sicrhau sefydlogrwydd staff rheng flaen, rheolwyr rheng flaen a'r tîm rheoli uwch. Wedi cynnal lefelau rhesymol o lwythi achos gwaith cymdeithasol a buddsoddi mewn staff dros dro.
- Wedi symud ymlaen gyda'r cynllun gweithredu Gwella Maethu – gyda'r nod o recriwtio deg gofalwr newydd erbyn mis Rhagfyr 2014 fel rhan o'n hymgyrch recriwtio uchelgeisiol i sicrhau bod modd dewis lleoliadau lleol a chael cyfatebiad yn lleol.

- Gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, wedi darparu gwasanaeth integredig i Blant ag anableddau a'u teuluoedd.
- Gyda Chyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr, wedi arwain gwasanaeth Cefnogi Teuluoedd Integredig Gwynedd/Môn fydd yn dod yn weithredol ym mis Mai 2014.
- Wedi cael arolygon llwyddiannus yng nghyswllt ein Gwasanaethau Mabwysiadu a Maethu.
- Wedi parhau i gymryd rhan weithgar yn agenda Cymru Gyfan i wella gwaith darparu'r gwasanaethau cymdeithasol trwy gydweithio.
- Gwaith wedi parhau i wreiddio prosesau Sicrwydd Ansawdd ar draws yr haenau rheoli i sicrhau yr edrychir yn agos a manwl ar ansawdd y gwaith.
- Seminarau Diogelu wedi'u cynnal ar gyfer Aelodau a Phenaethiaid Gwasanaeth.
- Wedi gweithio gyda'n partneriaid yng Ngogledd Cymru i ddarparu bwrdd Diogelu plant rhanbarthol.

Mae gwaith gwella perfformiad y gwasanaethau plant yn cael ei wneud yn frwd yn yr awdurdod gan weithlu brwdfrydig ac ymroddedig. Cam cyntaf ein taith gwella oedd cymryd yr holl gamau angenrheidiol i wella perfformiad ym meysydd allweddol asesu a rheoli gofal, tra hefyd yn cynnal perfformiad da ar draws y bwrdd. Fodd bynnag, er bod hyn wedi arwain at welliannau mewn rhai meysydd arfer, credaf nad yw'r newidiadau hyn wedi rhoi sylw llwyr i rai o'r materion sylfaenol sy'n berthnasol i drosglwyddo ar raddfa eang waith darparu Gwasanaethau Plant ym Môn.

Rydym yn cydnabod ein bod yn gweithio mewn amgylchedd heriol, cymhleth a newidiol ac ynddo bwysau ariannol estynedig, newidiadau demograffig a disgwyliadau uwch. Wrth ddadansoddi ein gwariant dangosir bod lefel sylweddol o'r gwariant wedi'i ymrwymo i'r achosion hynny sydd ym mhegwn eithaf ein hymyriadau - plant mewn gofal, plant y mae eu henwau ar y gofrestr amddiffyn plant neu'r rhai sy'n destun achosion gofal. Heb allu ymyrryd mewn achosion sydd â'r nod o gefnogi gwytnwch ac annibyniaeth, mae risg y bydd mwy o unigolion, teuluoedd a chymunedau'n cael eu cau allan - yn enwedig felly ar adeg o gyni ariannol. Rhaid i wasanaethau'r dyfodol fod yn gynaliadwy a chaiff hyn ei adlewyrchu yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Llywodraeth Cymru, Rhaid i ni ddatblygu dull gweithredu gwahanol ac wrth galon hwn bydd:-

- Gweithwyr cymdeithasol yn gweithio'n rhagweithiol gyda theuluoedd i reoli risg – treulio llawer mwy o amser yn gweithio wrth ochr teuluoedd, yn eu cynorthwyo i newid fel bod y teulu'n lle diogel i'w plant.

- I deuluoedd nad yw hyn yn bosib, cymerir camau amserol i dynnu'r plant trwy brosesau llys a chael hyd i leoliad parhaol iddynt gyda theulu.

- Gwella gwasanaethau cefnogi teuluoedd [yn ymarferol ac yn therapiwtig] ac, felly, gynhyrchu cylch rhinweddol o wasanaethau gwell i blant a theuluoedd. Targedir buddsoddiad, yn benodol, i roi cefnogaeth ddwys a chyflym pan fydd y teulu'n torri i lawr, gyda'r nod o gadw'r teulu gyda'i gilydd.

- Ailstrwythuro ac ail-lunio systemau fel eu bod yn berthnasol, yn synhwyrol, yn hyblyg ac yn ddefnyddiol i ymarferwyr.

Yn seiliedig ar y cynnydd amlwg hwn ac ymdrech ac ymrwymiad staff ar draws y gwasanaeth, rwyf yn hyderus y gallwn barhau i addasu a thrawsnewid. Fel tîm rheoli, ein dymuniad yw parhau i adeiladu ar ein cryfderau a sicrhau ansawdd ar hyd bob rhan o daith y plentyn neu'r person ifanc trwy'r gwasanaeth. Mae yna heriau amlwg o'n blaenau. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i sicrhau bod ein staff wedi'u cefnogi a'u hyfforddi'n dda. Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein peirianweithiau adrodd yn gadarn o ran ansawdd a faint yr adroddir arno a bod digon o her ac

arloesedd yn y gwasanaeth i ymateb yn hyblyg gyda'n partneriaid. Rwyf yn hyderus bod gennym sail gadarn i dyfu ohoni ac er nad oes lle i fod yn hunanfodlon, rwyf yn hyderus y bydd y Gwasanaethau Plant yn parhau i ddarparu gwasanaethau effeithlon, effeithiol a diogel i blant Ynys Môn.

Dyma yw fy marn i a hoffem glywed eich barn chi. Yn benodol felly, ydym ni'n disgrifio'r gwasanaeth yr ydych chi'n ei adnabod o'ch profiad chi?

## 2 Cyd-destun y Gwasanaeth

Mae darparu gwasanaethau cymdeithasol i blant yn parhau i fod yn fusnes cymhleth a heriol gyda risgiau sylweddol ynghlwm wrth weithio gyda phlant bregus iawn a'u teuluoedd. Er ein bod yn chwarae rhan lawn mewn partneriaethau a gweithgareddau corfforaethol sydd â'r nod o wella bywyd pob un plentyn sy'n byw ar yr Ynys, nid ydym wedi ein llunio i fod yn wasanaeth cyffredinol. Ein cyfrifoldeb allweddol yw cynllunio a datblygu'r gwasanaethau mwy arbenigol i gefnogi plant a'u teuluoedd sydd â phroblemau cymhleth a dwys - hynny yw, y plant hynny:-

- Sydd ag anghenion cymhleth ac y mae arnynt angen ein cefnogaeth
- Y mae angen eu gwarchod rhag camdriniaeth
- Y mae'r awdurdod lleol yn gofalu amdanynt
- Sy'n gadael gofal yr awdurdod lleol
- Sydd ag anableddau
- Sy'n troseddu neu mewn perygl o droseddu
- Sy'n ofalwyr i eraill

Mae pob un o'n gwasanaethau'n cael eu darparu ar sail sir gyfan, o ddau leoliad yn Llangefni. Mae gennym nifer o rolau arbenigol gan gynnwys y Rheolwr Sicrwydd Ansawdd, Cydlynydd Amddiffyn Plant a Swyddog Adolygu Annibynnol. Rydym yn gweithio ar y cyd gydag awdurdodau lleol eraill i gyflwyno nifer o Wasanaethau allweddol, gan gynnwys y Gwasanaeth Mabwysiadu a'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Hefyd rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag adrannau, asiantaethau a sefydliadau eraill. Mae'r gwasanaeth ar gyfer plant ag anableddau yn bartneriaeth ffurfiol rhwng iechyd, addysg a'r gwasanaethau plant, sy'n dwyn ynghyd staff i ddarparu gwasanaeth o un lle. Mae nifer o'n gwasanaethau cymorth yn cael eu comisiynu o'r Trydydd Sector a'r darparwr mewnol adrannol. Mae'r rhain yn cynnwys goruchwylwyr cyswllt, gwasanaethau cymorth i deuluoedd, cynadleddau grwpiau teulu, gwasanaethau cymorth i Ofalwyr Ifainc, a gwasanaethau cefnogi ar gyfer plant sy'n agored i effaith trais yn y cartref.


Rydym hefyd yn gweithio gyda mentrau'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc i ddylanwadu ar ddatblygiad gwasanaethau i grŵp ehangach o blant mewn angen. Rydym wedi croesawu'r fenter Teuluoedd yn Gyntaf, y "Tîm o Amgylch y Teulu" a'r Prosiect Potensial. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau ystod gynhwysfawr o wasanaethau ar gyfer plant a theuluoedd ar draws ystod o anghenion ac anawsterau.

**Ychydig o Ffigyrau ac ati**
Mae'n bwysig bod perfformiad y gwasanaeth yn cael ei ddeall yn y cyd-destun y mae staff y gwasanaeth yn gweithio ynddo ac adnabod y galwadau ar y gwasanaeth.

Bob blwyddyn mae teuluoedd gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd yn cysylltu â ni
i rannu pryderon ynghylch plant a phobl ifanc. Mae cyfradd defnyddwyr gofal cymdeithasol y gwasanaethau plant ym Môn yn llai na chyfartaledd Cymru ([1] 42 y 1,000 poblogaeth o gymharu â 46 y 1,000 poblogaeth), a chyfartaledd awdurdodau cymharol. Fodd bynnag, rhwng 2002-03 a 2012-13, cododd graddfa cleientiaid gofal cymdeithasol plant y 1,000 poblogaeth oed 0-17 ym Môn 48%, o gymharu â chynnydd o 42% ar draws Cymru. Er nad yw'r wybodaeth ddemograffig ar gael ar gyfer 2013/14 ar hyn o bryd, dengys ein data ein hunain bod y cynnydd mewn galw, yn gyffredinol, wedi parhau:-

| | 2012/13 | 2013/14 |
|---|---|---|
| Cysylltiadau | 2695 | 3230 |
| Cyfeiriadau | 1111 | 1464 |
| Cysylltiadau â'r Heddlu | 1503 | 1765 |
| Asesiadau Cychwynnol | 540 | 514 |
| Asesiadau Craidd | 123 | 110 |

Lle bo raid, rydym yn cynnal ymchwiliadau amddiffyn plant sy'n arwain, yn aml, at gynadleddau amlasiantaethol lle gallai plant gael eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (y Gofrestr). Mae'r gofrestr yn cael ei chynnal gan bob un awdurdod lleol er mwyn gwella canllawiau amddiffyn plant i blant a phobl ifanc. Ledled Cymru rydym wedi gweld cynnydd yn y niferoedd ar y cofrestri amddiffyn plant ar draws y cyfnod 2001-02 i 2012-13. Yn ystod yr un cyfnod, gwelwyd cynnydd, er ei fod yn gynnydd llai, yn nifer y plant a phobl ifanc ar y Gofrestr ym Môn o gymharu â chyfartaledd Cymru. Roedd ein cynnydd, fodd bynnag, yn uwch na chyfartaledd ein hawdurdodau cymharol.




Er nad yw'r wybodaeth ddemograffig gyffredinol ar gael ar gyfer 2013/14 ar hyn o bryd, dengys ein data ein hunain y peidiodd y cynnydd hwn yn ystod y flwyddyn:-

| | 2012/13 | 2013/14 |
|---|---|---|
| Plant a roddwyd ar y Gofrestr yn ystod y flwyddyn | 111 | 83* |


[1] Yn seiliedig ar ffigyrau 2012/13 – Proffil Awdurdod Lleol AGGC

| | | |
|---|---|---|
| Plant y tynnwyd eu henwau oddi ar y Gofrestr yn ystod y flwyddyn | | 110 |
| Enwau plant a roddwyd ar y gofrestr 31.03.14 | 98 | 71 |
| Plant oedd yn destun Cynhadledd Amddiffyn Plant cychwynnol yn ystod y flwyddyn | 163 | 110 |
| Plant oedd yn destun Adolygiad o Gynhadledd Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn | 232 | 265 |

*O’r rhain, roedd y rhan fwyaf o’r plant wedi’u cofrestru oherwydd camdriniaeth gorfforol (35), yna gamdriniaeth emosiynol (22), Esgeulustod (14), Camdriniaeth Rywiol (11), Camdriniaeth Gorfforol a Rhywiol (1).

Rydym wedi adnabod yr angen i gynnal Adolygiad Arfer Plant yn ystod y flwyddyn i sicrhau arfer proffesiynol a thryloyw ac adnabod unrhyw ddysgu. Bydd hyn yn cael ei gwblhau yn 2014/15.

Lle bydd cefnogaeth y teulu’n aflwyddiannus wrth reoli’r perygl o niwed, gall yr awdurdod lleol ofalu am blant. Ledled Cymru, yn ystod y cyfnod 2002-03 a 2012-13 rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y plant mewn gofal. Yn ystod yr un cyfnod, gwelwyd cynnydd yn nifer y plant mewn gofal ym Môn a’r nifer cyfartalog yn ein hawdurdodau cymharol. Yn ystod 2012-13, roedd nifer y plant mewn gofal yn is na chyfartaledd Awdurdodau Lleol Cymru.




Yn ystod 2013/14 gofalwyd am ugain o blant o ganlyniad uniongyrchol iddynt gael eu cam-drin. Er nad yw’r wybodaeth ddemograffig ar gael ar gyfer 2013/14 ar hyn o bryd, dengys ein data ein hunain y peidiodd y cynnydd hwn yn ystod y flwyddyn gyda 78 o blant mewn gofal ar 31ain o Fawrth 2014 o gymharu ag 80 yr un adeg y llynedd.

Yn ystod y cyfnod 2001-02 i 2012-13 cynyddwyd gennym ein gwariant ar wasanaethau plant 119%[2]. Yn ystod yr un cyfnod, cododd gwariant cyfartalog ein hawdurdodau cymharol hefyd. O’r herwydd, yn ystod 2012-13 arhosodd y gwariant net ar wasanaethau plant yn is na’r awdurdodau cymharol. Yn ystod yr un cyfnod rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y staff gwaith cymdeithasol a gyflogir. Ar hyn o bryd mae gennym gyfradd uwch o weithwyr cymdeithasol na’r cyfartaledd drwy Gymru (ar 31.03.13).

[2] Yn seiliedig ar ffigyrau 2012/13 – Proffil Awdurdod Lleol AGGC

## 3 Ymateb i Angen

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn ymwneud â'n prosesau o ran mynediad i wasanaethau, nodi anghenion plant (a elwir yn asesiad), darparu cefnogaeth i ddiwallu'r anghenion hynny ac adolygu pa mor effeithiol yr ydym yn diwallu'r anghenion hynny. Rydym yn gwneud hyn drwy ddilyn proses genedlaethol sy'n cael ei hadnabod fel y Canllawiau i'r Fframwaith Asesu.

**Beth wnaethom addo'i wneud?**

- Cynnal y gwaith canolbwyntio ar ansawdd y broses o wneud penderfyniadau, a sicrhau bod y rhesymau dros y penderfyniadau yn cael eu cofnodi'n gyson, gan gynnwys dal barn defnyddwyr gwasanaeth yn well
- Gwelliannau mewn arferion Rheoli Achosion o fewn y Gwasanaethau Arbenigol Plant
- Datblygu mwy ar ffyrdd integredig o weithio sy'n sicrhau bod teuluoedd yn cael cefnogaeth ar y cyfle cyntaf i atal yr angen am ymyriadau arbenigol mwy dwys.
- Adolygu ein trefniadau "drws ffrynt" a'r rhyngwyneb gyda'r Tîm o Amgylch y Teulu.

**Beth wnaethom ni?**

Rydym wedi cynnal gwelliannau yn ein trefniadau asesu a rheoli gofal. Rydym yn hyderus bod plant sy'n dod i gysylltiad â Gwasanaethau Plant, yn y rhan fwyaf o achosion, yn cael asesiad amserol o'u hanghenion. Ein nod yw sicrhau yr ymdrinnir yn amserol gyda chyfeiriadau a bod y system gwneud penderfyniadau'n gadarn ac, felly, ymyriadau'n ymatebol.

- ✓ Cyflawnwyd 98.77% o gyfeiriadau lle gwnaed penderfyniadau cyn pen pedair awr ar hugain ar gyfer y flwyddyn 2013/14. Mae ein perfformiad yn ein gosod uwchben cyfartaledd Cymru ar gyfer 2012/13 ac mae'n faes lle rydym wedi gwella'n gyffredinol dros y tair blynedd diwethaf.

- ✓ Gostyngiad parhaus yn y gyfradd ailgyfeirio yn 2013/14 gyda pherfformiad o 18.87%, sy'n welliant sylweddol ar ein sefyllfa yn 2010/11 pryd mai 31.18% oedd y gyfradd ailgyfeirio.

- ✓ Mae'r holl asesiadau cychwynnol a chraidd yn cael eu cynnal gan weithwyr cymdeithasol cymwys

- ✓ Mae ein gweithwyr cymdeithasol i gyd wedi'u hyfforddi i ddefnyddio Model Risg cyson sy'n fodd o adnabod risgiau o fewn achosion. Mae'r model yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd mewn nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr. Enillodd y Model Risg wobr gofal cymdeithasol yn 2010. Mae'r ffordd hon o weithio'n sicrhau bod gweithwyr yn gofyn cwestiynau rheolaidd am risg ac yn dod i benderfyniad yn seiliedig ar dystiolaeth

- ✓ Cwblhawyd 90.86% o asesiadau Cychwynnol o fewn saith diwrnod yn ystod 2013/14, ac ar gyfer y rhai hynny y tu allan i'r terfyn saith diwrnod, rydym wedi gweld gostyngiad parhaus, i lawr i 12 diwrnod ar gyfartaledd. Mae hyn yn cymharu'n dda gyda chyfartaledd Cymru o 73.10% ac ugain diwrnod

- ✓ Cynhaliwyd 92.51% o'n hadolygiadau o gynlluniau plant mewn angen o fewn yr amser, sy'n dangos gwelliant o un flwyddyn i'r llall dros y ddwy flynedd diwethaf ac mae'n parhau uwchlaw cyfartaledd Cymru ar gyfer 2012-13 (86.40%)

- ✓ Cynhaliwyd 95.68% o'r holl adolygiadau o fewn yr amser, sy'n dangos gwelliant o un flwyddyn i'r llall dros y tair blynedd diwethaf ac mae'n parhau uwchlaw cyfartaledd Cymru ar gyfer 2012-13 (71.40%)

- ✓ Bellach mae'r holl wybodaeth am ddefnyddwyr y gwasanaeth yn cael ei chadw'n electronig ar ffeil. Mae hyn wedi gwella ein gallu i gael mynediad at wybodaeth a'i rhannu (pan fo gofyn) yn ogystal â gostwng y risgiau ynghlwm wrth warchod data.

- ✓ Gweithredir y Fframwaith Asesu yn ein gwasanaethau i blant ag anableddau (Gwasanaethau Arbenigol Plant)

- ✓ Rydym wedi symud ymlaen gyda phrosiectau sydd wedi ei gwneud yn bosib i ni adeiladu ar integreiddio mwy er mwyn cefnogi gwaith darparu gwasanaethau'n well trwy ein Gwasanaeth Integredig Plant ag Anableddau. Rydym hefyd wedi sicrhau bod y Tîm o amgylch y Teulu yn rhyngweithio'n effeithiol gyda'n Tîm Dyletswydd

- ✓ Fel partner allweddol o'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a phartneriaethau strategol eraill, rydym wedi parhau i ddylanwadu ar yr Agenda Ymyriad Cynnar ac Ataliol a'i gefnogi.

- ✓ Bu i ni gwblhau'n llwyddiannus adolygiad o'n trefniadau "Drws Ffrynt" gan ganolbwyntio ar gysylltiadau, cyfeiriadau a phrosesau ac arferion er mwyn rhoi dadansoddiad o'r system gyswllt, cyfeirio ac asesu ac edrych ar y llwybrau y mae achosion yn eu cymryd trwy'r gwasanaeth. Y nod yw:

    - Sefydlu lle caiff ymdrech ei ddyblygu
    - Sefydlu a yw gwybodaeth yn mynd i'r lle cywir fel bod modd gwneud penderfyniad, ar amser priodol
    - Edrych i mewn i unrhyw rwystro o ran mewnbwn effeithlon
    - Dadansoddi ansawdd asesu ac ymyriad

- ✓ Bu i ni hefyd gynnal yn llwyddiannus adolygiad o daith y plentyn yn y system gwaith cymdeithasol. Bu i ni ganolbwyntio ar ansawdd y cymorth a'r ymyriad a gynigiwyd i deuluoedd, gan edrych yn benodol ar ansawdd y cymorth a'r gefnogaeth i deuluoedd lle mae plant mewn perygl ac ar drothwy mynd i mewn i ofal

- ✗ Rydym yn cydnabod bod angen gwella ein perfformiad yng nghyswllt amseroldeb cwblhau asesiadau craidd. Bu i ni gwblhau 71.68% o asesiadau craidd o fewn y 35 dirnod gofynnol, o gymharu ag 80.49% y llynedd ac o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef (yn ystod 12-13) 76.60%

- ✗ Nid ydym wedi gwneud cymaint o gynnydd ag yr oeddem wedi'i fwriadu yng nghyswllt datblygu ein strategaeth gwybodaeth gan ein bod wedi ymrwymo ein hadnoddau i gynnal darpariaeth y gwasanaeth ac ansawdd

**Dyfarniad**
Credaf ein bod yn cynnal ein safle ac yn symud ymlaen yn gadarnhaol yn erbyn targedau perfformiad allweddol y mae modd eu priodoli i fwy o sylw gan reolwyr, gwell prosesau, hyfforddiant ac adnoddau gwaith cymdeithasol. Er ein bod yn siomedig nad ydym wedi cynnal y gwelliannau a gafwyd y llynedd, mae'r perfformiad hwn yn parhau'n welliant sylweddol ar ein perfformiad yn 2010-11 a 2011-12. At hyn, mae'r amser ar gyfartaledd a gymerodd i gwblhau'r

asesiadau craidd hynny a gymerodd dros 35 diwrnod wedi gwella o un flwyddyn i'r llall yn ystod yr un cyfnod – o 99.25 diwrnod yn 2010-11 i 46 diwrnod yn 2013-14.

Yn gyffredinol, mae'r gwasanaeth, dros y tair blynedd diwethaf, wedi gwella'n sylweddol o ran amseroldeb gwneud penderfyniadau ac asesiadau. Rydym yn parhau i gredu y byddai'n anodd cynyddu perfformiad yn arw ar draws y bwrdd, o gofio'r ffactorau sy'n creu natur anrhagweladwy. Rydym wedi dadansoddi ein model gwaith cymdeithasol gan ganolbwyntio ar yr hyn sydd angen bod yn ei le fel bod modd i weithwyr cymdeithasol plant ddarparu ymyriadau o ansawdd uchel. Y flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf fydd darparu ymyriadau gwaith cymdeithasol o ansawdd uchel fel modd o ddiogelu plant a hwyluso newid cynaliadwy mewn teuluoedd. Byddir yn canolbwyntio ar ein trefniadau drws ffrynt ac ymyriadau adferiadol sy'n canolbwyntio ar atebion ac ail-alluogi.

Ein nod fydd cael gwasanaeth o weithwyr hyfforddedig sy'n gallu gweithredu methodolegau ymyrryd gyda theuluoedd a all newid ymddygiad a chynorthwyo i reoli lefelau amrywiol o risg. Mae gan fuddsoddi mewn gweithwyr hynod fedrus, sy'n gallu rhoi ymateb amserol a dwys lle mae perygl difrifol o deulu'n torri i lawr, botensial i fod yn wasanaeth cost effeithiol iawn - yn gostwng niferoedd y plant mewn gofal ac yn cefnogi teuluoedd mewn adeg o argyfwng.

*““Mae hi wedi bod yn bleser gweithio gyda chi gan i chi fod mor agored a gonest gyda mi, yr ysgol a'n pobl ifanc ac yn gefnogol ohonom”*

*“Roedd ganddo wastad amser i drafod fy ngofidiau fy hun ac mae ei gyngor wedi bod yn hynod werthfawr yn ystod yr adegau mwyaf blinderus”*

**Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu**

- Newid trefniadau dyletswyddau, ystyried trefniadau amlddisgyblaethol a darparu gwybodaeth cyswllt cyntaf effeithiol a chyfeirio yn y pwynt cyswllt gyda phwyslais ar ymyriad mewn argyfwng a chefnogi teuluoedd i ofalu am eu plant yn ddiogel
- Cynnal a chryfhau'r perfformiad a gyflawnwyd yn ystod 2013/14 yng nghyswllt meysydd arfer allweddol a sicrhau, lle bo plant yn gymwys, eu bod yn cael ymateb da ac amserol i'w hanghenion
- Gwella ansawdd ac amseroldeb asesiadau craidd
- Gweithredu ein Gwasanaeth Cefnogi'r Teulu diwygiedig
- Datblygu Achos Busnes i sefydlu gwasanaethau ymyl gofal

## 4 Diogelu

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn disgrifio ein perfformiad o ran gweithio gydag eraill, i amddiffyn plant a allai fod neu sydd mewn perygl o gael eu niweidio neu eu cam-drin. Mae diogelu plant a hybu eu lles yn flaenoriaeth allweddol i ni. Un o'n cyfrifoldebau allweddol yw amddiffyn plant rhag niwed a chymryd camau i amddiffyn unrhyw blentyn y ceir ei fod wedi'i gam-drin, neu y mae ei les yn debyg o ddioddef heb ymyriad neu wasanaethau pellach. Rydym yn ceisio gwneud hyn mewn partneriaeth gyda theuluoedd a, lle bo'n briodol, cadw plant yn eu cartrefi eu hunain. Mae gwneud penderfyniadau amserol yn seiliedig ar asesiad cyfrannol, cynnar ac o ansawdd yn sylfaenol i arfer diogelu effeithiol ac rwyf wedi trafod ein cynnydd ym mhennod 3. Mae amseroldeb asesu a chynllunio amddiffyn plant yn amlasiantaethol hefyd yn rhan bwysig o drefniadau diogelu effeithiol.

**Beth ydym wedi addo'i wneud?**

- Ar sail Awdurdod Lleol - gweithredu'r polisi Diogelu er mwyn sicrhau diogelu pobl sydd mewn perygl o niwed ac esgeulustod a chodi ymwybyddiaeth bod diogelu yn fusnes i bawb
- Ystyried opsiynau ar gyfer gwella gweithio rhanbarthol trwy'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant Rhanbarthol
- Gweithio'n agosach gydag asiantaethau sy'n delio â thrais yn y cartref er mwyn cynorthwyo ymateb gwasanaethau

**Beth wnaethom ni?**

Mae'r Bwrdd Diogelu Plant yn paratoi i ddarparu fframwaith strategol, cadarn i Wasanaethau Plant weithio ynddynt a chyda'n partneriaid allweddol:-

- ✓ Rydym yn parhau'n aelodau ac yn arweinyddion brwd o'r agenda diogelu, yn lleol ac yn rhanbarthol ac yn cyfrannu'n frwd iddo

- ✓ Mae gan bob plentyn sydd â chynllun amddiffyn plant weithiwr cymdeithasol dynodedig

Yn gyffredinol, rydym wedi cynnal neu wella'r gwelliannau a gyflawnwyd mewn dangosyddion allweddol dros y tair blynedd diwethaf.

- ✓ Gwelliant yn ein ffigyrau yng nghyswllt cynnal cyfarfodydd grŵp craidd yn sgil y gynhadledd amddiffyn plant cychwynnol. Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd 91.46% o gyfarfodydd gofynnol o fewn yr amser, sy'n welliant ar ein perfformiad yn 2012-13 (82.66%) ac ar gyfartaledd Cymru gyfan (88.50%) am yr un flwyddyn

- ✓ Wedi cynnal ein canolbwynt allweddol, sef gweld plant yn ystod eu hasesiadau. Yn ystod 2013/14, 91.63% oedd canran yr asesiadau cychwynnol a gynhaliwyd lle mae tystiolaeth o blentyn yn cael ei weld gan weithiwr cymdeithasol. Mae hyn eto'n welliant ar ein perfformiad yn 2012-13 (89.91%) ac ar gyfartaledd Cymru gyfan (75.40%) am yr un flwyddyn

- ✓ Wedi cynnal y perfformiad yn uwch na chyfartaledd Cymru (yn seiliedig ar ddata 2012-13) yng nghyswllt amseroldeb cynnal cynadleddau amddiffyn plant. Yn ystod 2013/14, 92.66% oedd canran y Cynadleddau Amddiffyn Plant Cychwynnol a gynhaliwyd o fewn yr amser o gymharu â chyfartaledd Cymru o 87.40%. Yn ystod yr un flwyddyn, cynhaliwyd 98.49% o

Adolygiad o Gynadleddau Amddiffyn Plant o fewn yr amser o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 96.10%

O ran effeithiolrwydd ein cynlluniau amddiffyn plant, un ffordd o fesur hyn yw canfod a yw enwau plant wedi'u hailgofrestru o fewn cyfnodau penodol. Rydym yn parhau i berfformio'n dda yn y maes hwn:-

- ✓ Pedwar yn unig o blant a ail-gofrestrwyd o fewn 12 mis, ac un o fewn dwy flynedd

Ystyriaeth arall o ran effeithiolrwydd ein cynlluniau amddiffyn plant yw'r amser y bydd enwau'r plant yn aros ar y gofrestr.

- ✓ Gweithredir y rhan fwyaf o gynlluniau'n llwyddiannus a'r risg i blant yn gostwng mewn chwe mis

| | 2013/14 |
|---|---|
| Llai na 6 mis | 43 |
| Rhwng 6 a 12 mis | 14 |
| Rhwng 12 mis a 24 mis | 12 |
| Dros 2 flynedd | 2 |

Adnabu archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn bod rhaid wrth welliannau o ran asesiadau clir o risg. O'r herwydd, rydym wedi bod yn arbrofi gyda chynnwys offeryn risg penodol yn y broses oruchwylio ac yn ein hadroddiadau i'r Gynhadledd Amddiffyn Plant. Bwriad hyn yw sicrhau y byddir yn gyson yn ein hagwedd tuag at reoli risg a gweithredu'n seiliedig ar dystiolaeth wrth fesur, gwella a/neu drosglwyddo'r risg yn uwch. Hyd yn hyn, mae'r adborth a gafwyd gan y staff ar yr arbrawf yn gadarnhaol. Mae'r Uned Datblygu'r Gweithlu wedi cynnwys y Model Risg yn eu rhaglen hyfforddi staff a bydd yn rhannu hyn gyda'r holl staff, gan gynnwys cydweithwyr amlasiantaethol, yn y man.

Yn ystod 2013/14 gwnaethom welliannau i'n trefniadau i reoli honiadau yn erbyn gweithwyr proffesiynol. Ar ein cais, comisiynodd y Bwrdd Diogelu Plant Lleol nifer o seminarau ar reoli honiadau yn erbyn gweithwyr proffesiynol – seminarau y daeth ystod o weithwyr proffesiynol ac asiantaethau iddynt. Cadarnhaodd archwiliad annibynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ein cynnydd.

"Rwyf wedi canfod tystiolaeth o gynnydd sylweddol wrth weithredu'r cynllun gweithredu a luniodd yr awdurdod yn sgil yr archwiliad blaenorol"

"Roedd argymhellion yn gliriach ac hefyd yn bwrpasol"

"Ceir tystiolaeth y meddyliwyd am sut y byddai'r plentyn yn cymryd rhan ym mhob achos a welais"

Ym mis Hydref 2013, bu i ni weithredu'r arweiniad newydd yng nghyswllt achosion llys, o'r enw Trefn ar gyfer Cyfraith Gyhoeddus (Public Law Outline), a'r angen i'w cwblhau cyn pen 26 wythnos. Nid ydym yn dod yn rhan o achosion llys oni bai ei bod yn wirioneddol angenrheidiol ond nid yw rhai rhieni'n teimlo eu bod yn gallu gweithio gyda ni ac mae arnom angen i'r Llys gyfeirio pob parti er mwyn cael y gorau i blentyn. Bu cynnydd o 37% mewn achosion rhwng 2012-13 a 2013-14 ac mae dyfarniadau llys yn parhau i gadarnhau eu bod i gyd yn angenrheidiol.

- ✓ Mae 16 o'n staff wedi cael yr hyfforddiant craidd a gydnabyddir yn genedlaethol ar gyfer ymgymryd â gwaith yn y Drefn ar gyfer Cyfraith Gyhoeddus

Yn ystod y flwyddyn, daeth yr Awdurdod Lleol â'r cyfrifoldeb dros ddiogelu plant ac oedolion dan un pennaeth gwasanaeth. Gwnaed hyn i sicrhau bod ein hymatebion i anghenion pobl fregus yn gyson ac yn gadarn a bod ein harfer o'r safon uchaf bosib. Y bwriad yw sefydlu Gwasanaeth Diogelu Pobl. Y cynllun yw i'r gwasanaeth hwn ddod yn weithredol erbyn mis Medi 2014.

Mae gennym yn eu lle Bolisi Diogelu'r Cyngor a Chynllun Gweithredu Corfforaethol cysylltiedig i sicrhau y gweithredir y polisi Diogelu Corfforaethol yn effeithiol ac yn gyson ar draws yr Awdurdod Lleol. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi sicrhau bod:-

- ✓ Polisïau recriwtio a chwythu'r chwiban diogel ac effeithiol yn eu lle ar gyfer yr holl weithwyr ac aelodau etholedig

- ✓ Y Polisi Cyflwyno Corfforaethol yn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau yng nghyswllt diogelu plant ac oedolion

- ✓ Hyfforddiant wedi'i gomisiynu ar gyfer yr holl Benaethiaid Gwasanaeth, Deiliaid Portffolio a Deiliaid Portffolio Cysgodol, Aelodau Allweddol eraill a swyddogion diogelu dynodedig ym mhob gwasanaeth fel eu bod yn cael cefnogaeth i ddeall eu cyfrifoldebau diogelu a'u bod yn atebol am eu cyfrifoldebau diogelu. Bydd hwn yn cael ei roi ym mis Ebrill 2014. Mae hyfforddiant wedi cael ei gomisiynu hefyd ar gyfer yr holl Aelodau eraill a bydd yn cael ei roi yn ystod 2014

- ✓ Cyflwynwyd 'ymweliadau rota' ar gyfer Aelodau lle mae Aelodau'n ymweld â mannau gwaith ar draws y Gwasanaethau Plant i gwrdd â staff rheng flaen a chael dealltwriaeth well o sut y mae'r gwasanaeth yn gweithio.

Ym mis Tachwedd 2012, arweiniodd rhagor o honiadau o gam-drin plant flynyddoedd yn ôl at sefydlu 'Operation Pallial' ac adolygiad Macur yng Ngogledd Cymru. Rydym wedi bodloni ein hunain ein bod yn cydymffurfio gydag argymhellion ymchwiliadau blaenorol a chydag awdurdodau eraill Gogledd Cymru, rydym yn sicrhau bod gwasanaethau cefnogi a chwnsela priodol ar gael i ddioddefwyr sy'n dod ymlaen yn sgil yr ymchwiliadau diweddar.

Rydym wedi gweld gwaith partneriaeth yn gweithio ar draws asiantaethau i ddatblygu gwaith diogelu ym Môn yn ystod y flwyddyn:-

- ✓ Rydym wedi bod yn gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru i edrych ar yr achos busnes i sefydlu Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol ym Môn i dderbyn ac asesu risg cyfeiriadau yng nghyswllt amddiffyn plant, ecsbloetio plant yn rhywiol, trais yn y cartref ac oedolion bregus. Byddai hyn yn caniatáu i wybodaeth berthnasol gael ei rhannu rhwng asiantaethau yn amserol cyn penderfynu ar yr ymyriad sy'n ofynnol i dimau mewn asiantaethau.

- ✓ Mewn ymateb i fwriad y Dirprwy Weinidog dros Blant a'r Gwasanaethau Cymdeithasol i ostwng nifer y Byrddau Diogelu Plant Lleol, rydym wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid ac awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru i gynllunio'r trawsnewid o dri Bwrdd Diogelu Plant Lleol isranbarthol i Fwrdd Diogelu Rhanbarthol.

- ✓ Rydym yn cadeirio Grŵp Tasg amlasiantaethol Gwynedd a Môn Ar Goll o Gartref/Ecsbloetio Plant yn Rhywiol, sydd â'r nod o atal Plant rhag cael eu hecsbloetio a diogelu plant trwy ostwng nifer y plant a phobl ifanc sy'n mynd ar goll. Gwneir hyn trwy ymyriadau strategol ac adnabod arferion gweithio da y mae modd eu rhannu ar draws fforwm amlasiantaethol. Bydd gwaith y grŵp hwn yn cael ei gryfhau gan Brosiect Ymarferwr Ecsbloetio Plant yn Rhywiol – prosiect tair blynedd i godi ymwybyddiaeth o Ecsbloetio Plant yn Rhywiol ymhlith gweithwyr proffesiynol a phobl ifanc o'r holl gymunedau a gwella'r canlyniadau i bobl ifanc a adnabuwyd yn rhai mewn perygl o gael eu hecsbloetio'n rhywiol. Mae'r prosiect hwn yn cael ei arwain gan Heddlu Gogledd Cymru a Barnardos. Y manteision i'r plant a'r bobl ifanc yw eu bod yn cael ymyriadau priodol sydd wedi'u teilwrio i ddiwallu eu hanghenion unigol.

- ✓ Mabwysiadodd Bwrdd Diogelu Plant Lleol Gwynedd a Môn y dewis opsiwn o ddewis model AIM o weithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywiol-niweidiol - model a ariannodd hyfforddiant amlasiantaethol ar draws y sir. Gwnaed hyn er mwyn gweithredu agwedd gyson ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywiol-niweidiol. Mae Grŵp Fforwm Ymarferion amlddisgyblaethol wedi'i sefydlu i gynorthwyo gyda datblygu arferion parhaus staff yn y maes hwn o ddiogelu.

- ✓ Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn yw Cadeirydd Prosiect Gwrth-fasnachu Pobl Gogledd Cymru.

Prosiect Masnachu Pobl
Y bwriad yw adnabod a chynorthwyo mwy o ddioddefwyr ac i Ogledd Cymru fod yn amgylchedd mwy gelyniaethus i fasnachwyr pobl. Mae pedwar prif nod strategol gan Brosiect Gogledd Cymru:-
- Codi ymwybyddiaeth (Mewnol/allanol) trwy roi hyfforddiant sefydlog i staff, rhannu gwybodaeth, casglu data ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth cyhoeddus;
- Diogelu Llwybrau dioddefwyr gan roi pwyslais cryf ar weithredu fel Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol;
- Atal trwy adnabod y peryglon i Ogledd Cymru a gwneud i ffwrdd â nhw
- Gorfodaeth trwy wneud Gogledd Cymru'n elyniaethus i fasnachwyr pobl.

- × Nid ydym wedi gwneud cymaint o gynnydd ag y byddwn wedi ei obeithio yng nghyswllt gweithio'n agosach gydag asiantaethau sy'n ymdrin â thrais yn y cartref er mwyn cynorthwyo ymatebion gwasanaeth. Rhoddwyd blaenoriaeth i sefydlu'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd a gweithredu'r Drefn ar gyfer Cyfraith Gyhoeddus a'r

prosiectau datblygiadol a amlinellir yn y paragraff uchod. Bellach mae'r gwaith wedi'i gynllunio ar gyfer 2014/15

**Dyfarniad**

Rydym wedi cynnal y gwelliannau yn ein harfer diogelu. Rydym yn parhau'n gryf yn ein hymrwymiad i ddiogelu plant trwy wneud penderfyniadau, prosesu asesiadau ac ymyriadau cadarn. Mae ein tystiolaeth yn cadarnhau bod y sefyllfa hon wedi'i chynnal, yn y gwasanaeth ac yn gorfforaethol, gyda bwriadau i gryfhau mwy ar ddiogelu cefnogaeth ar draws y Gwasanaethau Plant ac Oedolion. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi adnabod bod angen cryfhau ein harferion maethu preifat.

**Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu**

- Cynnal a chryfhau perfformiad a gyflawnwyd yn ystod 2013-14 yng nghyswllt Dangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n sicrhau y bydd gan blant gynlluniau amddiffyn plant da a chyfredol sy'n sicrhau y bydd eu hanghenion yn cael eu diwallu.

- Bod â systemau yn eu lle i sicrhau bod plant sy'n destun trefniadau maethu preifat yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth lle bynnag y bo'n bosib ac yn cael cynnig cymorth ac amddiffyniad amserol yn unol â'r Polisi, y Cyfarwyddyd a'r Rheoliadau Statudol Cenedlaethol.

- Gweithredu'r Gwasanaeth Diogelu Pobl

- Gweithredu'r Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol

- Gwneud penderfyniad ynghylch a ydym yn mabwysiadu'r Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaethol ym Môn – fel rhagflaenydd i bwynt mynediad sengl ar gyfer yr holl gyfeiriadau Plant mewn Angen a Phlant mewn Perygl.

## 5 Hyrwyddo Lles, Annibyniaeth a Sefydlogrwydd

Yn y rhan hon o'm hadroddiad, ceir trafodaeth ar ein trefniadau ynghylch Plant a Phobl sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol - mae hynny'n golygu'r rhai hynny sydd yn ein gofal ar gais eu rhieni neu oherwydd gorchymyn llys, pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddwyn yn droseddol neu'n gysylltiedig â hynny a phlant sy'n ymgymryd â rôl ofalgar. Ceir ystod o weithgareddau y mae'n rhaid i ni ymgymryd â nhw yng nghyswllt bob plentyn a ddaw i ofal. Yn eu plith mae dynodi gweithiwr cymdeithasol i bob plentyn, datblygu cynllun gofal, sicrhau bod ganddynt leoliad priodol a'u bod yn cael ymweliad ac adolygiad yn amserol i sicrhau eu bod yn hapus, yn ddiogel a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Yn ôl ein dadansoddiad, gallwn fod yn hyderus mai'r unig amser yr ydym yn tynnu plant oddi wrth eu rhieni yw pan nad oes modd ei osgoi. Mae'r rhan fwyaf o'r plant hyn yn destun gorchymyn llys sy'n golygu bod llysoedd wedi cytuno y byddai o les iddynt fynd i ofal.

**Beth wnaethom addo'i wneud**

- Darparu gwasanaeth gwaith cymdeithasol o ansawdd ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal sy'n canolbwyntio ar gael sefydlogrwydd
- Parhau i gefnogi aelodau o'r teulu estynedig i ofalu am blant neu bobl ifanc sy'n perthyn iddynt ac sy'n destun gorchmynion preswyliaeth, gwarchodaeth arbennig neu ofal lle asesir ei fod yn ddiogel a phriodol gwneud hynny.
- Recriwtio ugain gofalwr maeth generig (dros ddwy flynedd) i sicrhau bod gennym ddewis lleol o leoliad a bod cyfatebiaeth. Bydd hyn yn gwella sefydlogrwydd y lleoliad, cyrhaeddiad addysgol a chyrhaeddiad ein plant mewn gofal. Y nod yw gostwng costau darpariaeth Maethu Annibynnol a darpariaeth breswyl
- Parhau gyda threfniadau cydweithredol i ddarparu lleoliadau ar gyfer plant mewn gofal a datblygu trefniadau newydd lle byddant yn gwella ystod a dewis o leoliadau sydd ar gael i'n plant
- Gwella cyfleoedd bywyd Plant mewn Gofal trwy ddarparu'r Strategaeth Rhiantu Corfforaethol
- Sicrhau y canolbwyntir yn benodol ar gyrhaeddiad a chyflawniad addysgol y plant sydd yn ein gofal
- Gweithio gyda phartneriaid i weithredu'r opsiwn llety i bobl ifanc (hyd at 24 mlwydd oed).

**Beth wnaethom ni?**

**Plant mewn gofal**

Mae Rhiantu Corfforaethol yn gyfrifoldeb critigol sy'n cynnwys holl wasanaethau'r cyngor ac mae wedi cael sylw o'r newydd eleni. Mae gennym Strategaeth Rhiantu Corfforaethol, yn cynnwys 'addunedd' i blant mewn gofal. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc i ddatblygu'r strategaeth a byddwn yn canolbwyntio ar y maes hwn yn 2014/5. Rydym wedi cynnal perfformiad cadarnhaol yng nghyswllt nifer o ddangosyddion allweddol yn y maes hwn. At ei gilydd, gall plant fod yn hyderus y bydd penderfyniadau amserol yn cael eu gwneud a bod sylw'n cael ei roi i gynllunio effeithiol er mwyn diwallu eu hanghenion.

- ✓ Mae gan bob plentyn mewn gofal weithiwr cymdeithasol cymwys

- ✓ Dechreuodd 96.67% o leoliadau cyntaf gyda chynllun gofal yn ei le sy'n nodi'r gwasanaethau a'r gefnogaeth sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion plant. Mae hyn yn welliant ar ein perfformiad yn 2012-13 (90.24%) ac ar gyfartaledd Cymru gyfan (89.10%) am yr un flwyddyn

- ✓ Cynhaliwyd 97.14% o adolygiadau statudol o fewn yr amser, perfformiad sy'n uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer 2012-13 (91.90%)

- ✓ Cyflawnwyd 90.54% o ymweliadau statudol â phlant yn eu lleoliadau gan ein gosod yn gadarn uwchlaw cyfartaledd Cymru ar gyfer 2012/13 (83%). Er ein bod wedi cynnal ein safle ar y flwyddyn flaenorol, fy mwriad oedd gwella ar ein perfformiad yn 2012/13. O'r herwydd, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar wella yn 2014/15

Rydym yn falch gyda nifer y plant sydd wedi'u rhoi mewn lleoliadau mabwysiadu ac rydym wedi gweld gwelliant mewn sicrhau sefydlogrwydd ar gyfer plant unigol dros y flwyddyn ddiwethaf. Tystiolaethir i hyn gan nifer y plant sy'n destun gorchymyn lleoliad ac wedi'u cyfatebu gyda mabwysiadwyr neu wedi'u lleoli gyda theuluoedd parhaol trwy orchmynion cyfreithiol eraill.

| | 2012-13 | 2013-14 |
|---|---|---|
| Gorchmynion Lleoliad a Roddwyd | 3 | 7 |
| Gorchmynion Mabwysiadu a Roddwyd | 0 | 2 |
| Gorchmynion Gwarchodaeth Arbennig a Roddwyd | 5 | 4 |
| Mewn Lleoliadau Mabwysiadu ar 31.03 | 1 | 6 |
| Yn disgwyl cyfatebiaeth ar 31.03.14 | 6 | 6 |

Gallwn hefyd dystiolaethu i ganlyniadau cadarnhaol i Blant yn ein Gofal. Rydym wedi cefnogi naw o blant, oedd ar un adeg mewn gofal, i'w dychwelyd i gyfrifoldeb eu rhieni neu i gael rhyddhau eu gorchymyn. Mae hyn yn dangos sgiliau ein gweithwyr cymdeithasol, yn treulio llawer mwy o amser yn gweithio wrth ochr teuluoedd yn eu cynorthwyo i newid fel bod y teulu'n lle diogel i'w plant. Rwyf yn arbennig o falch o un gŵr ifanc a ymunodd â Chadetiaid yr Heddlu'r llynedd ac a gafodd ei enwebu gan ei uwch-arolygydd am ei gyfraniad eithriadol. Fel rhan o'r acolâd, rhoes gyflwyniad ar ei brofiad fel cadét yr heddlu yn Nhŷ'r Arglwyddi. Bu i ni weithio gyda'n cydweithwyr addysgol i egluro ein gwerthoedd a'n strategaeth ac er mwyn diwallu anghenion addysgol a dysgu plant mewn gofal. Rwyf yn ddiolchgar i
Dr Catherine Robinson a'i thîm ym Mhrifysgol Bangor am hwyluso'r gwaith hwn. Mae gan blant mewn gofal hawl i ddisgwyl yr un canlyniadau â phob plentyn arall ac mae hyn yn cynnwys canlyniadau addysgol. Er bod rhai yn gwneud yn dda, yn gyffredinol mae gan blant mewn gofal ledled Cymru gyrhaeddiad addysgol isel o gymharu â'u cydweithwyr. Rydym eisiau sicrhau bod pob plentyn mewn gofal yn cael y safon uchaf o addysg ag y gallant a chael mynediad at addysg a chyrhaeddiad o answadd dda. Mae ein rhif sylfaen isel yn cael effaith ar ein perfformiad yr adroddir arno a gall canlyniadau unigol gael effaith ar berfformiad blynyddol. Dyma rai llwyddiannau allweddol:-

- ✓ Perfformiad gwell na chyfartaledd Cymru ar gyfer darparu Cynlluniau Addysg Personol o fewn amser ar gyfer Plant mewn Gofal (90% o gymharu â chanolrif Cymru o 65%)
- ✓ Gwelliannau bychain o ran presenoldeb plant mewn gofal yn yr ysgol
- ✓ Ni chafodd yr un plentyn ei wahardd yn barhaol yn ystod y flwyddyn a gostyngodd lefel y gwaharddiadau am gyfnod sefydlog ac roedd dan gyfartaledd Cymru ar gyfer 2012-13
- ✓ Rhoddwyd i ddeg Plentyn mewn Gofal (blwyddyn 9 ac uwch) liniadur personol i'w cynorthwyo gyda'u hastudiaethau addysgol ac mae mentor dysgu ar gael i gefnogi plant mewn gofal gyda'u dysgu

Mae plant mewn gofal hefyd yn cael mantais cymorth ychwanegol Nyrs Plant mewn Gofal. Parhau'n sefydlog wnaeth y perfformiad o ran asesiadau iechyd a chael mynediad at wasanaethau meddyg teulu a deintydd ac roedd uwchlaw cyfartaledd Cymru ar gyfer 2012-13.

- ✓ Gwelwyd 94.92% o blant mewn gofal gan ddeintydd yn ystod y flwyddyn
- ✓ Cafodd 95.41% o blant mewn gofal asesu eu hanghenion iechyd yn ystod y flwyddyn
- ✓ Roedd 98.48% o blant mewn gofal wedi cofrestru gyda meddyg teulu cyn pen deg diwrnod o fynd i ofal

Mae'r ymgynghoriad a roddir gan seicolegydd clinigol CAMHS i ofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gyda phlant mewn gofal yn cael ei werthfawrogi a gwneir defnydd da ohono. Fodd bynnag, bu i ni gydnabod bod angen rhoi darpariaeth iechyd fwy cyfannol sy'n hyrwyddo lles emosiynol a seicolegol. Mewn ymateb, rydym wedi adolygu rôl y gweithiwr cymdeithasol a leolwyd yn y gwasanaeth CAMHS lleol. Bellach bydd y swydd yn canolbwyntio ar blant mewn gofal a'r rhai hynny sydd 'ar ymyl gofal' trwy roi asesiad iechyd meddwl CAMHS, cyngor a chymorth a, phan fydd angen, ymyrryd mewn achosion penodol law yn llaw gyda gweithiwr cymdeithasol y plentyn/person ifanc. Bydd hyn yn weithredol ym mis Mai 2014.

Mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc mewn gofal yn cael eu rhoi gyda gofalwyr maeth (70% hyd at 31/03/14). Er bod y gwasanaeth maethu wedi wynebu anawsterau wrth recriwtio gofalwyr maeth, mae'r gwasanaeth ei hun yn cael ei redeg yn dda ac yn darparu gofalwyr maeth sy'n cael cymorth da ac sy'n effeithiol.

Ym mis Ionawr 2014 cynhaliodd AGGCC archwiliad rheoleiddiol a chael nad oedd yna'r un gofyn (i newid), sy'n golygu bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddio

> Roedd y plant a ymatebodd i'n holiaduron yn gadarnhaol iawn ynhylch eu lleoliadau maeth. Disgrifiodd un ei leoliad fel 'gwych'. Dywedodd un arall, 'maent yn gofyn i mi a ydw i'n hapus,
>
> AGGCC, 2014

- ✓ Wedi gweithredu'r Prosiect Maethu Buddsoddi i Arbed a phenodi Swyddog Recriwtio Maethu a ddechreuodd yn ei gwaith ym mis Rhagfyr 2013. Rydym ar y trywydd i gwrdd â'n targed o recriwtio deg gofalwr maeth newydd ym mlwyddyn gyntaf y prosiect

Un canlyniad o beidio â bod â'n hasiantaeth gofalwyr maeth ein hunain yw bod y dewis o gael lleoliad yn lleol a chael cyfatebiaeth yn llai. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ein perfformiad mewn nifer o faterion allweddol:-

- × Sefydlogrwydd lleoliadau –profodd 7.79% o blant a barhaodd mewn gofal hyd at 31ain Mawrth 2014 ddau symudiad neu fwy yn ystod 2013/14. Er bod hyn yn cymharu'n dda gyda chyfartaledd Cymru gyfan o 9.40% (2012-13), rwyf yn dal yn bryderus ynghylch ein gallu i sicrhau sefydlogrwydd parhaol

- × Mae ein perfformiad o ran plant yn newid ysgol tra bônt mewn gofal wedi dirywio. Credwn fod hyn yn ymwneud â'r ffaith nad oes lleoliadau ar gael ar yr Ynys. Bydd recriwtio a chadw gofalwyr maeth yn flaenoriaeth allweddol i ni yn 2014-15.
- × Mae 25 o'n plant mewn gofal yn cael eu lleoli y tu allan i'r ardal (hyd at 31.03.14)

- × Parheir i ddefnyddio Asiantaethau Maethu Annibynnol ac mae hyn yn achosi pwysau sylweddol ar y gyllideb. Fodd bynnag, mae'r rhain wedi'u cynnwys yng nghyllideb y gwasanaeth

Rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau prosesau effeithlon wrth brynu lleoliadau trydydd parti pan fo'r gofyn. Rwyf yn ddiolchgar i'm cydweithwyr yn y tîm rheoli contractau am eu cyfraniad sylweddol i'r gwaith hwn. Hefyd, ynghyd â'r pum awdurdod lleol arall sy'n rhan o Raglen Gydweithredol Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru, rydym wedi datblygu Prif Ganolfan Gomisiynu Ranbarthol ar gyfer lleoliadau preswyl arbenigol.

Rydym yn aelod o Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru, sy'n Wasanaeth Mabwysiadu ar y cyd ac yn cynnwys pob un o chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru.

- ✓ Mae hyn wedi ei gwneud yn bosib i ni ymestyn ein cymorth a'n gwasanaethau ôl-fabwysiadu i rieni biolegol

- ✓ Yn barod i ymateb i'r gofynion i sefydlu rhaglen gydweithredol ranbarthol i gynnal y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i Gymru

- ✓ Roedd ein harchwiliad mabwysiadu a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2013 gan AGGCC hefyd yn gadarnhaol i raddau helaeth.

- × Mae'r prinder cenedlaethol o ddarpar fabwysiadwyr yn parhau i fod yn fater sy'n cael effaith ar y rhanbarth ac, fel y cyfryw, wedi cyfyngu ar gynnydd wrth recriwtio ystod ddigonol o fabwysiadwyr y mae modd eu cyfatebu gyda'n plant sy'n addas ar gyfer eu mabwysiadu

"Dangosodd y gweithwyr cymdeithasol gofal plant y siaradom â nhw ethos rhiantu corfforaethol y Cyngor Sir, gan fynegi ymrwymiad i blant yng ngofal y Cyngor a dangos eu cymhelliant i gael y

Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid, gan gynnwys darparwyr y trydydd sector, i ddiwallu anghenion y bobl ifanc sydd yn ein gofal:-

- ✓ Mae Prosiect Coedlys yn dod yn weithredol yn 2013/14. Mae'r prosiect hwn yn darparu tai a chymorth i bobl ifanc yn cynnwys y rhai sy'n gadael gofal ac sy'n wynebu bod yn ddigartref

- ✓ Mae'r holl bobl ifanc sydd gennym yn gadael gofal yn cael gweithiwr cymdeithasol cymwys dynodedig, yn ogystal ag Ymgynghorydd Personol

- × Er ein bod mewn cyswllt â 100% o'r rhai sy'n gadael gofal, ein bwriad yw gwella ein perfformiad o ran rhoi cymorth iddynt (i mewn i lety neu i hyfforddiant). Roedd perfformiad yn ystod y flwyddyn yn y ddau faes yn cymharu'n anffafriol gyda pherfformiad y llynedd a'r perfformiad ar gyfartaledd ledled Cymru

**Pobl Ifanc mewn perygl o ymddwyn yn droseddol neu o fod yn gysylltiedig â'r weithred**

Fel rhan o fframwaith Archwilio Cenedlaethol Cyfiawnder Ieuenctid, dewiswyd y gwasanaeth ar gyfer Archwiliad Sgrinio Ansawdd Byr ym mis Ionawr 2014. Ymwelodd arolygwyr Arolygiaeth Carchardai ei Mawrhydi (CI) â'r gwasanaeth am dri diwrnod ac arolygu pymtheg achos sampl. Dyma oedd eu sylwadau a'u hargymhellion:

- ✓ Tîm o staff ymroddgar, lle'r oedd perthynas adeiladol gyda phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd wedi'i chreu. Roedd cysylltiadau da'n amlwg gydag ystod eang o asiantaethau ac adnoddau. Nodwyd gwelliannau ers ein harchwiliad diwethaf yn y meysydd Gostwng y Tebygolrwydd o Aildroseddu ac Amddiffyn y Cyhoedd
- ✓ Nid oedd y rheolwyr yn goruchwylio'r maes Diogelu Plant yn ddigon effeithiol
- ✓ Roedd arolygwyr yn hyderus y gellid cael gwelliannau yn gyflym ac yn effeithlon oherwydd y gwaith da a welwyd mewn meysydd eraill a'r ymrwymiad a welwyd mewn meysydd gwaith eraill

Am y bedwaredd flwyddyn yn olynol mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn wedi cael canlyniadau cadarnhaol;

- ✓ Mae cyfraddau a niferoedd y rhai sy'n dod i'r gwasanaeth am y tro cyntaf yn parhau i syrthio
- ✓ Mae'r defnydd a wneir o garcharu ar ei isaf er cyn 2005 (gan adlewyrchu tuedd genedlaethol)
- ✓ Er bod cyfraddau aildroseddu wedi parhau'n uchel a heb newid yn y blynyddoedd diweddaraf, roedd y tîm Rheoli a'r Bwrdd yn falch o weld rhyw fymryn o ostyngiad yn y cyfraddau a'r amlder yn nau chwarter olaf 2013-14

- ✓ Dim Llety Cadw Ieuenctid / pobl ifanc yn disgwyl eu prawf yn 2013-14, gwell pecynnau cymorth gyda mechnïaeth, ac awgrymir mai rheolaeth a datblygiad da o brotocolau yw'r prif resymau am y llwyddiant hwn

Mae ein tri phrif ddangosydd lles yn parhau i ddangos perfformiad da ac yn adlewyrchu'r gefnogaeth wych yr ydym yn ei chael gan ein partneriaid yn y ddau awdurdod lleol ac yn y bartneriaeth ehangach:-

- ✓ Gall darpariaeth a chymorth gyda llety fod yn anodd iawn i'w reoli gan nad oes gennym y capasiti i ddosbarthu adnoddau i bob maes lle mae angen posib. Fodd bynnag, dylid nodi y gwnaed ymdrechion sylweddol i sicrhau bod hyblygrwydd ac anghenion pobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid wedi cael eu cynnwys mewn darpariaeth newydd ac wrth ailstrwythuro'r fframwaith Cefnogi Pobl
- ✓ O un chwarter i'r llall rydym yn perfformio'n dda iawn wrth ddarparu Hyfforddiant Addysg a chyfranogiad cyflogaeth i blant a phobl ifanc yn y System Cyfiawnder Ieuenctid. Bellach, ychydig iawn o ddefnydd a wneir o ddarpariaeth ran-amser ar gyfer y rhai hynny sydd o oed ysgol ac rydym yn cael budd mawr o gael Swyddog Gyrfa Cymru ar secondiad yn y gwasanaethau. Mae'r swyddog hwn yn sicrhau bod y rhai hynny uwchlaw oed ysgol yn cael blaenoriaeth a mynediad didrafferth i gyfleoedd hyfforddi ac addysgu
- ✓ Yn gyffredinol, mae ein perfformiad o ran cyflawni ein targed asesu'r camddefnydd a wneir o Sylweddau a chael triniaeth iddo wedi bod yn dda i dda iawn. Fodd bynnag, mae'r perfformiad yn y ddau faes targed wedi gostwng yn y chwarteri diwethaf oherwydd problemau staffio. Yn ffodus, mae ymyriad gan reolwyr wedi ei gwneud yn bosib adnabod adnoddau eraill ac mae gwaith cynllunio yn ei le i sicrhau bod problemau dilynol yn cael eu rheoli'n well ac yn cael eu hatal

Er bod y gwasanaeth wedi gweld toriadau sylweddol yn yr arian gan y llywodraeth ganolog er 2010, rydym yn parhau i weithio o fewn ein cyllideb, oherwydd cefnogaeth barhaus ein partneriaeth, yn enwedig felly'r ymrwymiadau gan y ddau awdurdod lleol. Cyflawnwyd arbedion effeithiolrwydd sylweddol dan arweiniad rheolwr y gwasanaeth a chaiff ei fonitro'n agos gan y bwrdd rheoli. Lle mae gwasanaethau cefnogi wedi bod mewn perygl, gwnaed gwell defnydd o arian arall sydd wedi arwain at fwy o arian ar bob lefel o ymyriad cyfiawnder ieuenctid.

Fel rhan o'n hymdrechion parhaus i wella arferion, mae'r gwasanaeth wedi dechrau ar arbrawf i gyflwyno rhaglen Ataliol 'Bureau' ar gyfer Gogledd Cymru. Proses asesu cyn cyhuddo i leihau i'r eithaf ar nifer y plant a phobl ifanc sy'n troi at droseddu yw 'Bureau', a chynyddu'r defnydd a wneir o gyfiawnder adferol (dwyn i mewn y dioddefwr). Mae 'Triage' a 'Bureau' wedi cael eu defnyddio'n helaeth mewn ardaloedd gwledig, gennym ni a bydd Powys yn rhoi'r prosesau hyn ar brawf mewn ardaloedd gwledig. Mae gennym gefnogaeth y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Heddlu Gogledd Cymru.

**Gofalwyr Ifainc**

Rydym wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth gyda Gweithredu dros Blant er 1998. Mae'r prosiect cyfredol wedi cefnogi 134 o blant a phobl ifanc ledled Ynys Môn trwy gynnig 49 o sesiynau grŵp yn amrywio o dripiau ysgol a hamdden i sesiynau ar bynciau penodol megis 'rheoli arian', gwaith achos unigol, cyswllt uniongyrchol gyda gweithwyr proffesiynol eraill a sesiynau 'galw heibio' ym mhob un o ysgolion uwchradd yr Ynys. Mae ein gofalwyr ifanc wedi bod yn cyfrannu i waith ar draws sefydliadau. Aeth dau grŵp o bobl ifanc i ddigwyddiad ymgynghorol yng Ngogledd Cymru a hwyluswyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ym mis Ebrill 2013. Ym mis Mehefin, cymerodd grŵp o ofalwyr ifainc ran mewn prosiect a gyd-gysylltwyd gan Blant

yng Nghymru a Llywodraeth Cymru i gael barn gofalwyr ifainc am ystod o wasanaethau gan gynnwys y gwasanaethau cymdeithasol, addysg, iechyd a hamdden. Cawsant eu cyfweld gan staff Plant yng Nghymru a chafodd y sesiynau hyn eu recordio fel rhan o DVD a gynhyrchwyd. Cafodd y prosiect adborth cadarnhaol ynghylch mewnbwn Gofalwyr Ifainc Ynys Môn i'r prosiect. Mae ein gofalwyr ifainc wedi cymryd rhan mewn prosiect a sefydlwyd gan Unllais i wella'r cyfleusterau yn ystafell y teulu yn Uned Hergest yn Ysbyty Gwynedd fel bod yr awyrgylch a'r amgylchedd yn fwy cadarnhaol ar gyfer ymweliadau gan deuluoedd. Mae'n werth sôn hefyd am lwyddiannau gofalwyr ifainc unigol - boed hynny yn addysgol wrth ymgymryd â rôl ofalgar neu ddefnyddio eu profiad personol i godi ymwybyddiaeth o anghenion a gwytnwch gofalwyr ifainc.

Mae'r prosiect yn adolygu anghenion pob person ifanc yn flynyddol a defnyddir holiaduron adborth ar ôl pob sesiwn gweithgaredd. Cesglir y wybodaeth hon ac mae modd monitro'r canlyniadau a'u defnyddio i gynorthwyo i lunio datblygiad y gwasanaeth. Bydd barn gofalwyr ifainc yn bwysig yn y misoedd i ddod wrth i ni gynllunio darpariaeth y dyfodol a sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn diwallu anghenion yn effeithiol.

" Mae'n rhoi seibiant i mi o fod yn gofalu. Rwyf wedi ymlacio mwy ac yn gall ymdopi gyda'r pwysau gartref yn well"

"Rwyf yn cael yr holl gymorth y mae ei angen arnaf o'r prosiect. Hefyd, mae nhw yno pan fo arnaf angen rhywun i siarad ag o"

" Rwyf wedi cwrdd â llawer o bobl yn yr un sefyllfa â mi sy'n braf. Mae'n lleddfu'r straen rhyw gymaint"

"Dw i'n hoff o gael fy amser gyda'r staff prosiect a'u bod yn gwneud yn siŵr fy mod yn iawn"

"Mae'n haws siarad am fod yn ofalwr, mae wedi bod o gymorth i mi gyda'r ysgol a gartref"

**Dyfarniad**
Er gwaethaf y pwysau, mae tystiolaeth sylweddol bod plant a phobl ifanc mewn gofal yn cael cymorth amserol a gwasanaethau o ansawdd. Rwyf yn hyderus, yn gyffredinol, bod plant mewn gofal yn cael gwasanaeth amserol sy'n cydymffurfio â gofynion statudol, bod gweithwyr cymdeithasol yn rheoli achosion cymhleth lle'r oedd plant a phobl ifanc mewn perygl o niwed sylweddol ac wedi cael gofal yr awdurdod. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan weithwyr cymdeithasol ac ymarferwyr medrus a hyderus. Mae'r anghenion hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn parhau i oruchwylio ansawdd a safon y gwasanaethau a roddir. Mae ein hymdrech i recriwtio gofalwyr maeth lleol i ddarparu mwy o gyfleoedd i gael lleoliad yn lleol yn dangos arwyddion cynnar o lwyddiant. Blaenoriaeth allweddol yn 2014/15 fydd cynyddu ystod a nifer opsiynau'r lleoliadau i blant a phobl ifanc. Lle bo angen i ni gomisiynu lleoliadau gan ddarparwyr allanol, byddwn yn cydweithio gydag eraill, gan gynnwys ein darparwyr, i wella caffael a gwerth am arian.

Mae gennym Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Gwasanaeth Gofalwyr Ifainc sy'n perfformio'n dda, gyda'r ddau'n amlwg yn cael canlyniadau cadarnhaol i bobl ifanc ac yn esiamplau o arfer da.

**Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu**

- Bydd Plant Môn sydd mewn Gofal yn cael cefnogaeth i fyw ym Môn neu cyn agosed â bo modd i Fôn fel bod ystod lawn o wasanaethau lleol ar gael iddynt, gan gynnwys lefel uchel o gyswllt gyda gweithiwr cymdeithasol ac i'w gwneud yn bosib iddynt gynnal perthynas ddiogel gyda theulu, ffrindiau a'u cymuned leol

- Bydd Plant Môn sydd mewn Gofal yn cael cefnogaeth i allu byw gyda theulu ar ryw adeg yn eu plentyndod, lle bynnag a phryd bynnag y bo'n bosib

- Cymeradwyo ein strategaeth rhiantu corfforaethol a rhoi hyfforddiant i aelodau ar eu cyfrifoldebau Rhiantu Corfforaethol

- Cynyddu nifer y lleoliadau maethu mewnol i ddeg teulu a, felly, gostwng ein gwariant ar leoliadau maethu trydydd parti

- Gwella ein perfformiad o ran sefydlogrwydd lleoliadau a newid ysgol

## 6 Comisiynu a Phartneriaethau

Mae'r adran hon yn disgrifio ein trefniadau ar gyfer sicrhau y bydd plant a'u teuluoedd a gofalwyr yn gallu cael mynediad at wasanaethau sy'n cael eu cynllunio'n ofalus, ac sydd ar gael pryd a ble y bydd teuluoedd eu hangen, o fewn yr adnoddau sydd ar gael i ni.

**Beth wnaethom addo'i wneud?**

- Dylanwadu ar ddatblygu mwy o wasanaethau ataliol ac ymyrryd cynnar trwy'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, gan gynnwys cefnogi gwaith gweithredu'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf
- Datblygu trefniadau cefnogaeth ddwys i deuluoedd fel y bydd y cyfleoedd o sicrhau canlyniadau da yn y tymor hir yn gwella i blant mewn teuluoedd sydd mewn argyfwng a lle mae diogelwch y plentyn yn bryder a sefydlogrwydd yn amheus. Ailfodelu'r gwasanaeth i blant a phobl ifanc ag anableddau i greu gwasanaeth mwy disgybledig y mae modd ei ddarparu o fewn yr adnoddau presennol ac sy'n cael ei gydnabod gan blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr fel un sy'n diwallu anghenion
- Gweithio gyda Chyngor Gwynedd a phartneriaid i ddarparu'r gwasanaeth integredig cefnogi'r teulu (IFSS) yn gydweithredol

**Beth wnaethom ni?**

Er bod ein strategaeth Comisiynu yn canolbwyntio ar y gwasanaethau statudol hynny y mae Gwasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol â chyfrifoldeb amdano, mae'n gwneud cyswllt clir â phwysigrwydd dylanwadu'n strategol ar waith datblygu'r gwasanaethau eraill hynny megis gwasanaethau ymyrryd cynnar ac wedi'u targedu, y rhai hynny a ariennir trwy'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, a gwaith y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc ac asiantaethau unigol ei haelodau. At hyn, mae gweithio mewn partneriaeth effeithiol yn y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn elfen hanfodol o'r agwedd hon, yn darparu agwedd strategol i ddatblygu a darparu gwasanaethau cefnogi ym Môn ar draws pob lefel o angen. Rhan hanfodol o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy a sicrhau y gwneir defnydd effeithiol o adnoddau cyfyngedig sy'n prinhau yw sicrhau ystod o wasanaethau atal ac ymyrryd cynnar sy'n hyrwyddo lles, gostwng yr angen i drosglwyddo'n uwch ac, felly, ostwng y galw am wasanaethau cymdeithasol ffurfiol. Mae targedu gwasanaethau o'r fath a chysylltiadau gweithredol agos gyda drws ffrynt y gwasanaethau cymdeithasol yn rhan allweddol arall.

- Mae Uned Partneriaeth ar y Cyd Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn wedi sefydlu byrddau darparu lleol ar wahân i gynllunio gwasanaethau i Blant a'u teuluoedd ar ôl-troed lleol. Yn fy marn i, mae hwn yn ddatblygiad cadarnhaol a fydd yn caniatáu cydweithrediad ar draws y bartneriaeth, gan wneud y mwyaf o adnoddau cyfredol y bartneriaeth ac arian allanol, cynllunio gwaith darparu gwasanaethau a fydd yn hyrwyddo cryfderau a gwytnwch unigolion mewn teuluoedd a chymunedau. Bydd hefyd yn ei gwneud yn bosib gwella gwaith cydgysylltu'r cynnig o gymorth cynnar i deuluoedd. Mae angen egluro pa deuluoedd y mae gwahanol wasanaethau ataliol yn gweithio â nhw a sicrhau bod gwasanaethau ataliol yn gweithio gyda'r grwpiau o deuluoedd y mae arnynt angen y gwasanaethau hyn fwyaf h.y. cyn i anghenion a risgiau gynyddu. Yn yr un modd, mae'n bwysig nad yw gwahanol wasanaethau'n cael ar ffordd y naill a'r llall. O'r herwydd, mae croeso i'r datblygiad diweddar o'r bartneriaeth plant, sef agwedd strategol yn seiliedig yn lleol i sicrhau y gwneir y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

- ✓ Rydym wedi bod yn gweithio'n agos wrth ddatblygu rhyngwynebau effeithiol gyda'r Tîm o amgylch y Teulu ac yn aelodau o'r Bwrdd Rheoli. Mae'r Tîm o amgylch y Teulu yn gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd i roi sylw i anghenion cefnogi penodol. Mae'n rhoi cefnogaeth ymarferol a brwd er mwyn atal anghenion teuluoedd rhag cynyddu i'r pwynt lle mae'n ofynnol i'r gwasanaethau statudol gamu i mewn. Mae hefyd yn darparu gwasanaeth cam-i-lawr i deuluoedd sydd wedi ymwneud yn flaenorol â Gwasanaethau Plant

- ✓ Y llynedd bu i ni gydnabod bod angen datblygu, ar y cyd gyda'n partneriaid, ystod o wasanaethau cefnogi i'r teuluoedd hynny sydd ar y lefelau uchaf o angen. Eleni, rydym wedi ailfodelu ein Gwasanaeth Cefnogi'r Teulu i ganolbwyntio ar ddarparu ymyriadau Rhieni - bydd hyn yn dod yn weithredol yn 2014/15

- ✓ Wedi symud ymlaen gydag ailfodelu gwasanaethau cefnogi i blant ag anableddau a'u teuluoedd, i symud i ffwrdd oddi wrth ddarpariaeth sefydliadol a darpariaeth nad yw'n gynhwysol, darparu mwy o wasanaethau cefnogi i blant ag anableddau yn eu cymunedau a gartref a darparu ystod ehangach o ysbaid dros nos

- ✓ Wedi gwneud penderfyniad i benodi Cydgysylltydd Cynadledda Grŵp y Teulu yn y gwasanaeth

- ✓ Wedi adolygu ein holl fuddsoddiadau yn y Sector Gwirfoddol – gan sicrhau ein bod yn targedu adnoddau i'r gwasanaethau hynny sy'n strategol berthnasol i'n strategaeth

- × Wedi gwneud llai o gynnydd nag yr oeddwn wedi'i obeithio yng nghyswllt gweithio gyda phartneriaid i ailasesu ein hagwedd at gomisiynu a darparu gwasanaethau sy'n ymateb i effaith y mae trais yn y cartref yn ei chael ar blant. O'r herwydd, bydd hwn yn flaenoriaeth ar gyfer 2014/15

Datblygiad sylweddol eleni oedd sefydlu nifer o wasanaethau newydd ac adolygu gwasanaethau eraill a ddarperir mewn partneriaeth:-

- ✓ Wedi arwain datblygiad y Gwasanaeth Integredig Cefnogi'r Teulu (IFSS) i Wynedd a Môn. Er na wnaethom gyrraedd ein targed o fod yn weithredol erbyn 31.12.13 oherwydd anawsterau yn recriwtio i swyddi allweddol yn y tîm, rwyf yn falch y bydd y gwasanaeth yn weithredol erbyn mis Mai 2014. Nod IFSS yw gwella ansawdd bywyd a chyfleoedd bywyd teuluoedd bregus trwy weithredu'n amlddisgyblaethol ac integredig

- ✓ Rydym yn aelod allweddol yn y bartneriaeth sydd wedi hen ennill ei blwyf – y Gwasanaethau Arbenigol Plant sy'n darparu gwasanaethau gan Iechyd a'r Awdurdod Lleol i blant ag anableddau. Cafodd y gwasanaeth ei gyfuno'n ffurfiol dan un rheolwr llinell ym mis Medi 2013

- ✓ Rydym yn aelod o Wasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol Gogledd Cymru er sawl blwyddyn. Dros y tair blwyddyn ddiwethaf, mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru wedi bod yn cryfhau ei safle, ac ym mis Mai 2013 cynhaliodd adolygiad o'r gwasanaeth, dan arweiniad y Sefydliad Gofal Cyhoeddus/ Prifysgol Brookes Rhydychen. Rhoes hyn gyfle i adolygu trefniadau cyfredol, yn enwedig felly yn wyneb cyhoeddi 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy' a'r argymhellion i symud i wasanaethau mabwysiadu cenedlaethol. Mae'r adolygiad a'r cynllun gweithredu cysylltiedig wedi sicrhau bod Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru mewn lle da i ddatblygu mwy dros y tair i bum mlynedd nesaf a gallu addasu i'r polisi cenedlaethol sy'n newid. Arweiniodd Cyngor Sir Ynys Môn ar lif gwaith yn y Cynllun Gweithredu i wella trefniadau llywodraethu y symudir ymlaen â nhw.

Rydym yn rhan o nifer o brosiectau rhanbarthol a chenedlaethol:-

- ✓ Ar faterion sy'n benodol i'r gwasanaeth e.e. Recriwtio Maethu, Comisiynu Asiantaethau Maethu Annibynnol, datblygu polisïau a threfniadaethau cyson, ymuno â fframwaith Maethu 4C (Cymru Gyfan)
- ✓ Ar faterion cyffredinol e.e. Bwrdd Datblygu Gweithlu Rhanbarthol Gogledd Cymru, Canolfan Gomisiynu Gogledd Cymru, Bwrdd Cefnogi Teuluoedd Gogledd Cymru

Rydym yn comisiynu gwasanaeth eiriolaeth i blant a phobl ifanc o NYAS Cymru. Mae'r contract hwn yn dod i ben ym mis Mawrth 2015 ac rydym wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau eraill ar draws Gogledd Cymru i dendro am wasanaeth eiriolaeth proffesiynol annibynnol a rhanbarthol i blant a phobl ifanc sy'n adnabyddus i'r Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngogledd Cymru. Mae'r cydweithrediad hwn yn cynnwys chwe Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwalader.

Cynhaliwyd digwyddiad "Dweud eich dweud" gyda phlant mewn gofal yn ystod mis Hydref 2013 ac mae un arall wedi'i gynllunio ar gyfer mis Mai 2014.

**Dyfarniad**

Mae modd tystiolaethu i weithio mewn partneriaeth fel thema gyson yn y ffyrdd yr ydym yn darparu ac yn comisiynu gwasanaethau. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad ydym yn gallu cyflawni gofynion y Fframwaith Comisiynu a Chanllawiau Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol. Mae yna fylchau yn ein trefniadau comisiynu – nid yn unig yn y gwasanaethau plant ond ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd hi'n gamp cwblhau'r Strategaeth Gomisiynu gyntaf ar gyfer y gwasanaeth. Ein bwriad oedd i'r strategaeth hon fod yn ddeinamig a chael ei hadolygu a'i newid yn rheolaidd wrth i flaenoriaethau ac anghenion strategol newydd gael eu hadnabod. Nid ydym wedi medru gwneud hyn yn systematig ac yn gyson. Er ein bod yn cydnabod bod comisiynu strategol yn pwysleisio cylch tymor hir adolygu, cynllunio a datblygu gwasanaethau yn lleol ac yn unigol, rhaid i ni gydnabod nad oes gennym nifer y staff a'r broses i ddarparu'n gyson ar draws yr holl dasgau yn ein fframwaith comisiynu. Fel Tîm Rheoli'r Gwasanaethau Cymdeithasol rydym wedi cydnabod bod angen gwella fel ein bod yn darparu swyddogaeth gomisiynu gadarn a chynhwysfawr.

**Blaenoriaethau Allweddol**

- Parhau i ddylanwadu ar ddatblygu rhannau allweddol o gefnogaeth effeithiol i deuluoedd ar draws continwwm angen – o atal i risg uchel, gan gynnwys sefydlu model lles y plentyn sy'n gysylltiedig ac yn gydlynol sy'n gosod cyfrifoldebau ar gyfer gwasanaethau dwys, ataliol a rhai sydd wedi'u targedu ac y mae'r holl staff a phartneriaid eraill yn berchen arno ac yn ei ddeall
- Datblygu trefniadau cefnogaeth ddwys i deuluoedd fel y bydd y cyfleoedd o sicrhau canlyniadau da yn y tymor hir yn gwella i blant mewn teuluoedd sydd mewn argyfwng a lle mae diogelwch y plentyn yn bryder a sefydlogrwydd yn amheus. Ailfodelu'r gwasanaeth i blant a phobl ifanc ag anableddau i greu gwasanaeth mwy disgybledig y mae modd ei ddarparu o fewn yr adnoddau presennol ac sy'n cael ei gydnabod gan blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr fel un sy'n diwallu anghenion
- Gweithio gyda Chyngor Gwynedd a phartneriaid i ddarparu'r gwasanaeth IFSS ar sail gydweithredol

## 7 Rheoli Adnoddau

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn disgrifio'n trefniadau ar gyfer sicrhau bod gennym weithlu sefydlog sy'n cael ei oruchwylio, ei reoli a'i gefnogi i wneud ei waith yn effeithiol. Mae'r adran hefyd yn disgrifio sut yr ydym yn cynllunio ac yn defnyddio ein hadnoddau ariannol.

**Beth wnaethom addo'i wneud?**

- Parhau i weithredu'r Strategaeth Gweithlu
- Penodi i swyddi rheoli allweddol – gostwng costau asiantaethau
- Rheoli o fewn y gyllideb - lleihau dibyniaeth ar leoliadau trydydd parti

**Sut wnaethon ni?**

Mae staff yn parhau i fod ein hadnodd pwysicaf a mwyaf gwerthfawr. Amlygodd arolygiadau blaenorol gan yr AGGCC yr anawsterau mawr o ran recriwtio a chadw staff gwaith cymdeithasol rheng flaen a'r peryglon o orddibynnu ar weithlu asiantaeth. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o weithwyr cymdeithasol mor brofiadol ag y byddem yn ei ddymuno. Mae nifer yng nghyfnod cynnar eu gyrfaoedd ac yn cryfhau eu gwybodaeth am yr arferion trwy brofiad, mentora a dysgu. Rydym yn mireinio ein rhaglen hyfforddi a datblygu i sicrhau ei bod yn parhau i ddiwallu anghenion staff sydd â gwahanol lefel o brofiad. Mae ein strategaeth datblygu'r gweithlu'n canolbwyntio ar gyflwyno a rhoi hyfforddiant sylfaenol yn effeithiol er mwyn llawn gefnogi'r staff hynny yn eu blwyddyn gyntaf o ymarfer, gan symud ymlaen i ddatblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer ein staff mwy profiadol.

✓ Mae nifer lawn y staff bellach yn y Gwasanaethau Plant

✓ Mae tri gweithiwr cymdeithasol dros y sefydliad fel ein bod yn gwarchod y llwythi achos ac yn dysgu am ein staff proffesiynol cynnar a'r rhai sydd newydd gymhwyso

✓ Trosiant staff yn eithaf isel yn ystod y flwyddyn

✓ Y Gymraeg – 'Mwy na Geiriau' – 89% o staff y Gwasanaethau Plant yn siarad Cymraeg

× Lefelau salwch yn parhau uwchlaw'r targed perfformiad mewnol a ddisgwylir

Rwyf yn parhau i fod yn ddiolchgar am y gwaith caled, yr ymrwymiad a'r ymroddiad a ddangoswyd gan ein staff rheng flaen a'n rheolwyr. Mae gweithwyr cymdeithasol plant yn eirioli dros y plant ac wedi ymrwymo i gael y canlyniadau gorau iddynt.

> "Cadarnhaodd y gwaith a welwyd gan y gweithwyr cymdeithasol gofal plant a'r trafodaethau a gafwyd gyda nhw eu brwdfrydedd a'u hymrwymiad i ddatblygu'r sgiliau gwybodaeth ac ymarfer yn eu gwaith gyda phlant y gallent gael eu mabwysiadu." (AGGCC, 2013)

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd yr Awdurdod Lleol ei seremoni flynyddol gyntaf i wobrwyo staff, gan gydnabod, dathlu a hyrwyddo llwyddiannau ei staff. Cafodd ddau aelod o weithlu'r gwasanaethau plant acolâdau. Cafodd Rona Jones ei chydnabod am ganolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned. Rona Jones yw'r Swyddog Adolygu Annibynnol ac mae'n eiriolwraig a hyrwyddwraig angerddol ynghylch hawliau a lles plant mewn gofal. Enillodd James Dawson, ein Rheolwr Gwella Gwasanaeth ac a enwebwyd gan gydweithiwr corfforaethol, y Wobr Rhedeg Gwasanaeth yn Broffesiynol a Da. Cydnabu'r wobr ymrwymiad James i ethos y gwasanaeth cyhoeddus, ei allu i ddangos arweinyddiaeth effeithiol a chryf ac effeithlonrwydd amlwg.






.
Rwyf yn hynod falch o'u llwyddiant fel yr wyf o ethos tîm cyfan fy ngweithlu.

Rydym yn gweithio i Fframwaith Cymwysterau Cyngor Gofal Cymru ac i Safonau Cefnogi Hyfforddiant a Datblygu i Weithwyr Cymdeithasol. Rydym yn darparu ystod o Hyfforddiant cymhwyso ac ôl-gymhwysol. I ofalwyr maeth mae hyn yn golygu Hyfforddiant Cyflwyno (6 chwrs Llwybr; Gofalu Diogelach; Ymlyniad; Ymddygiad; Cyswllt; Addysg; ac Iechyd) wedi'i ddilyn gan raglen Datblygu Gofal Maeth (y mae modd ei chymryd o fewn dwy flynedd i'r gymeradwyaeth gychwynnol).

Dros y deuddeg mis diwethaf, mae'r gwasanaeth wedi cynnal pump o fyfyrwyr gradd gwaith cymdeithasol i annog gwaith datblygu swyddogion proffesiynol newydd a thalentog.

Er gwaethaf cynnydd mewn galw a disgwyliadau, rydym wedi llwyddo i gadw o fewn y gyllideb a neilltuwyd i ni tra hefyd yn cwrdd â'n targedau arbedion. Bu i ni gwrdd yn llawn ag arbedion ein cyllideb ar gyfer 2013-14, sef £312,000. Yn ystod yr un cyfnod rhoes yr awdurdod lleol £84,000 o arian newydd i'w Wasanaethau Plant i gwrdd â chostau gweithredu darpariaethau newydd, yn ogystal ag i gynyddu cyllideb y gwasanaeth am gostau lleoliadau trydydd parti. Rydym wedi adnabod ein harbedion ar gyfer 2014-15, sef £415K. Mae proses rhagweld a monitro'r gyllideb yn fisol ac yn fanwl wedi'i sefydlu sy'n rhoi syniad cynnar o feysydd a allai beri problem. Mabwysiadwyd dull gweithredu'n seiliedig ar risg er mwyn hwyluso cynllunio gweithgareddau i roi sylw i unrhyw feysydd a nodwyd yn broblem. Er gwaethaf hyn, mae'r gwasanaeth yn wynebu pwysau oherwydd costau lleoliadau asiantaethau trydydd parti ar gyfer Plant mewn Gofal. Gweithredwyd prosiect 'Buddsoddi i Arbed' sydd â'r nod o ostwng y costau hyn trwy ddarparu mwy o ofalwyr ein hasiantaethau ein hunain.

**Dyfarniad**

Rydym wedi gweithio'n galed yn ystod y flwyddyn, i ymdrin â sialensiau'r gweithlu a adnabuwyd o fewn y gwasanaeth. Mae gwaith datblygu ein gweithlu'n dwyn ffrwyth, gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol gyda sefydlogrwydd staff rheng flaen, rheolwyr rheng flaen a'r uwch reolwyr, fel ei bod

yn bosib symud ymlaen yn gynaliadwy. Wrth symud ymlaen, rydym yn ymwybodol o'r heriau sydd yn ein hwynebu:

- Cynnal sefydlogrwydd y gweithlu
- Lefel absenoldeb salwch yn ystod y flwyddyn a chydymffurfio â'r Polisi Rheoli Absenoldeb
- Effaith gweithredu'r broses Arfarnu Swyddi
- Cwrdd â gofynion cymwysterau newydd neu ganllawiau safonau newydd e.e. fframwaith y CPEL
- Pwysau sylweddol i'w oresgyn er mwyn cael cyllideb gytbwys ar ddiwedd 2014/15
- Costau gofal maeth a phreswyl allanol fydd prif bwysau'r gyllideb
  Yr amodau economaidd y bydd disgwyl i holl wasanaethau'r sector cyhoeddus ddarparu arbedion effeithlonrwydd ynddynt, yn ogystal â gwelliannau mewn gwasanaeth a chanlyniadau gwell i ddefnyddwyr y gwasanaeth

**Blaenoriaethau Allweddol**

- Cynnal sefydlogrwydd staff
- Gwella cyfraddau salwch staff
- Rheoli o fewn y gyllideb - lleihau dibyniaeth ar leoliadau trydydd parti

## 8 Perfformiad a Rheoli Busnes

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn disgrifio ein trefniadau ar gyfer sicrhau bod gennym brosesau a threfniadau yn eu lle i nodi ein perfformiad fel gwasanaeth i gwrdd â'r canlyniadau ar gyfer plant.

**Beth wnaethom addo'i wneud?**

- Gweithredu'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd

**Beth wnaethon ni?**

Mae gennym broses rheoli perfformiad gynhwysfawr a Fframwaith Sicrwydd Ansawdd yn eu lle ac rydym yn adrodd ar wybodaeth am berfformiad yn rheolaidd fel bod modd i reolwyr wneud penderfyniadau cytbwys a gosod blaenoriaethau. Mae targedau, cynlluniau gwasanaeth a busnes yn gyrru gwelliannau mewn perfformiad ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Mae'r Fframwaith yn cynnwys:

- Dadansoddi a dysgu o gwynion.
- Canlyniadau ymgysylltu Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr
- Defnyddio archwiliadau ffeiliau achos
- Adroddiadau gan y Swyddog Adolygu Annibynnol a'r Cydlynydd Amddiffyn Plant
- Rhaglen gynhwysfawr o archwiliadau a gynlluniwyd
- Sefydlu Panel Sicrwydd Ansawdd.

Cynhaliwyd archwiliadau yn rheolaidd yn y gwasanaeth ac, yn ddiweddar, mae aelodau'r tîm rheoli gweithredol wedi cynnal archwiliadau cydweithwyr yn fisol. Mae'r Panel Sicrwydd Ansawdd yn cyfarfod yn chwarterol ac yn adolygu cynnydd yn erbyn gweithredoedd gwella'n chwarterol. Ymhlith themâu a thueddiadau a gyfyd o archwiliadau hyd yn hyn mae: dim cysondeb yn y defnydd a wneir o gofnodion electronig, ansawdd cynnwys mewn dogfennau statudol, anghenion hyfforddi staff, glynu wrth brosesau a gweithdrefnau'r gwasanaeth a chofnodi tystiolaeth o waith a wnaed.

Rydym wedi datblygu diwylliant cryf o reoli perfformiad lle mae gan "bawb ei ran i chwarae". Rydym yn adolygu perfformiad yn erbyn targedau ein Dangosyddion Perfformiad allweddol yn rheolaidd. Derbynnir adroddiadau data a naratif a'u hystyried ar lefelau Tîm, Gwasanaeth a Chorfforaethol. Mae'r rhesymau dros berfformiad gwael yn cael eu trafod, a lle bo angen, cymerir camau adferol. Mae defnydd rheolaidd o ddata rheoli yn tynnu sylw at y materion yn wythnosol, sy'n caniatáu i gamau gael eu cymryd fel y bo'n briodol. Mae hyn wedi cefnogi ein gallu i gyflawni gwelliannau mewn perfformiad a defnydd mwy effeithlon o adnoddau. Rydym yn credu bod y maes hwn yn un o'n cryfderau penodol. Mae'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd yn y broses o gael ei weithredu ar draws y gwasanaeth gan y Rheolwr Sicrwydd Ansawdd. Rydym yn medru arddangos gwelliannau amlwg mewn prosesau, ymarferion ac mewn perfformiad yn sgil ein gweithgaredd sicrwydd ansawdd.

Rydym yn monitro cwynion i nodi unrhyw themâu a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg o adborth gan gwsmeriaid fel y gellir gwneud gwelliannau. Mae'n bleser nodi bod nifer y sylwadau cadarnhaol (12) yn llawer uwch na’r sylwadau negyddol (5). Rydym wedi gweld rhyw fymryn o gynnydd yn nifer y cwynion dan Sylwadau’r Gwasanaethau Cymdeithasol, y Drefn Gwyno a Sylwadau ond ni chyrhaeddodd yr un gŵyn gam 3 am y tro cyntaf mewn pedair blynedd. Rydym yn parhau i roi pwyslais ar wella ein trefniadau ar gyfer cofnodi sylwadau a chwynion dan Gam 1 y Canllawiau a gwneir pob ymdrech i ymdrin â chwynion ac ymateb iddynt yn gynt er mwyn datrys problemau ac osgoi trosglwyddo pryderon yn uwch. Yn ystod 2013/14 rydym wedi rhoi mwy o bwyslais ar gyfarfod wyneb yn wyneb â'r rhai sy’n anfodlon, a hynny ar y cyfle cyntaf posib. Cynigir cyfarfodydd i achwynwyr sy’n anhapus gydag ymatebion Cam 1 y maent yn eu derbyn er mwyn ceisio datrys problemau heb orfod mynd ymlaen i Gam 2.

| Blwyddyn | Cam 1 Plant | Cam 2 Plant | Cam 3 Plant |
|---|---|---|---|
| 2012/13 | 24 | 4 | 3 |
| 2013/14 | 26 | 6 | 0 |

Mae'r diwylliant gwleidyddol yn gyffredinol gefnogol i ofal cymdeithasol gyda’r Deilydd Portffolio a’r Deilydd Portffolio Cysgodol yn cynnal diddordeb cryf a chadarn yn y gwasanaethau plant. Creffir yn rheolaidd ar y Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant gan y Bwrdd Gwella a’r Bwrdd Cynaliadwyedd. Mae ymweliadau Laming gan aelodau wedi’u cyflwyno yn ystod y flwyddyn ac mae’r Arweinydd wedi bod ar ddau ymweliad yn barod. Rhoddwyd hyfforddiant diogelu i Aelodau yn ystod 2013.

**Dyfarniad**

Rwyf yn falch o'r cynnydd yr ydym wedi ei wneud o ran rhoi systemau effeithiol yn eu lle i fonitro perfformiad. Y flaenoriaeth wrth symud ymlaen yw sefydlu a gwella mwy ar broses sicrhau ansawdd y gwasanaeth. Rwyf yn cydnabod rôl hanfodol sicrwydd ansawdd a byddaf yn gwneud yn siŵr bod prosesau sicrwydd ansawdd cadarn yn cael eu hymgorffori'n llawn ar draws yr haenau rheoli i sicrhau bod ansawdd y gwaith yn cael ei archwilio'n fanwl er mwyn gwella’r canlyniadau i blant a phobl ifanc.

**Blaenoriaethau Allweddol**

- Llwyr weithredu'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd

Ynys Môn

THE ISLE OF Anglesey

# Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2013/14

## Adroddiad Trosolwg o'r Gwasanaethau Oedolion

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.gov.uk www.anglesey.gov.uk

cyngormon
ioacc

@cyngormon
@angleseycouncil

# CYNNWYS

1. **Cyflwyniad**
2. **Cyd-destun y Gwasanaeth**
3. **Ymateb i Angen**
4. **Diogelu**
5. **Comisiynu a Phartneriaethau**
6. **Rheoli Adnoddau**
7. **Rheoli Busnes a Pherfformiad**
8. **Cefnogaeth ac Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol**

## 1 Cyflwyniad

Yn yr Adroddiad Blynyddol hwn i'r Gwasanaethau Oedolion, mae'n bwysig, yn gyntaf, ailddatgan ein pwrpas a'n gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth ac yna rannu gyda chi'r hyn y credwn yr ydym wedi'i gyflawni yn 2013/14 a'r hyn y dylai ein blaenoriaethau fod ar gyfer 2014/15.

**EIN GWELEDIGAETH**

Nod Gofal a Chefnogaeth Gymdeithasol i oedolion yw:

- Cefnogi oedolion a'u gofalwyr i ddatblygu ffyrdd o ddatrys eu hanghenion gofal cymdeithasol sydd, lle bynnag y mae hynny'n bosibl, yn ei gwneud yn bosib iddynt naill ai gadw ei hannibyniaeth neu adennill eu hannibyniaeth;
- Gweithio gyda phartneriaid megis Iechyd a Gwasanaethau Tai, sefydliadau yn y Trydydd Sector a grwpiau cymunedol fel bod modd cefnogi pobl fregus yn ddiogel yn eu cymunedau lleol;
- Gyda'i gilydd, sicrhau bod oedolion bregus yn cael eu gwarchod rhag niwed.

Fel yr ydym eisoes wedi'i ddweud, rhaid i Ofal Cymdeithasol i oedolion drawsnewid dros y cyfnod nesaf i gynnwys rhaglen ehangach na'r hyn y mae wedi'i gynnwys hyd yn hyn. Rhaid iddo symud y tu draw i waith traddodiadol darparu gofal cymdeithasol i roi i oedolion ym Môn weledigaeth gydgysylltiedig a chyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Rhaid i'r weledigaeth hon fod yn uchelgeisiol a chynnwys yr isod:

- Cefnogi pobl ym Môn i aros yn eu cartrefi eu hunain - gydag ystod o wasanaethau o ansawdd uchel ar gael iddynt yn y gymuned;
- Hyrwyddo a chefnogi oedolion annibynnol, iach sydd wedi'u cynnwys yn gymdeithasol ac yn economaidd yng nghymuned yr Ynys;
- Cydnabod bod cyflwr a lles meddyliol iach cyn bwysiced â lles corfforol;
- Cefnogi oedolion i wneud y mwyaf o fanteision;
- Cydnabod bod gan oedolion rolau i'w cyflawni sy'n wahanol ac yn gymhleth (gweithiwr, rhiant, gwirfoddolwr, gofalwr, esiampl i eraill) ac sydd â gwahanol gyfrifoldebau cymdeithasol sy'n cael effaith ar eu ffordd o fyw a'u dewisiadau o ran iechyd;
- Sicrhau y bydd ein partneriaid yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol yn canolbwyntio ar ymyriad cynnar a gwasanaethau ataliol;
- Sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf effeithlon ac effeithiol o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Bydd yr egwyddorion a'r ymyriadau hyn yn parhau i lywio'r ffordd yr ydym yn trawsnewid ac yn ailfodelu'r modelau comisiynu a gwasanaeth ar gyfer 202014/15 a thu draw i hynny.

**Ein llwyddiannau mwyaf yn 2013/14**

Mae ein cynnydd wedi bod yn fawr dros y deuddeg mis diwethaf wrth i ni ddatblygu nifer o ffrydiau gwaith yn unol â'n blaenoriaethau datganiedig. Ymhlith rhai o'n llwyddiannau mwyaf mae:

- Cynnydd wrth ddatblygu'r Rhaglen Drawsnewid i Oedolion Hŷn gan gynnwys cyhoeddi ein gweledigaeth a Bwriadau'r Gwasanaeth yn sgil cyfnod o ymgysylltu, ail-lansio Ailalluogi, datblygu Llety a Chefnogaeth, datblygu trefniadau Broceriaeth a Rhestr Brisiau ar gyfer gwasanaethau gofal cartref, a "Creu Cymunedau".

Yn ystod y flwyddyn a fu, gwnaed ymdrech sylweddol i ymgynghori gyda'r holl randdeiliaid allweddol gan gynnwys defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr, yr holl staff mewnol ac Aelodau'r Cyngor ynghylch ein bwriadau i drawsnewid gwasanaethau gofal cymdeithasol i Oedolion. Trefnwyd nifer o ddigwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu yn ystod y cyfnod ymgynghori ynghylch y ddogfen ar fwriadau'r gwasanaeth rhwng misoedd Ionawr a Mawrth 2014.

Ymhlith y negeseuon allweddol y mae pobl wedi'u rhannu gyda ni mae'r isod:

- ❖ Mae pobl yn dymuno byw gartref cyhyd â bo modd
- ❖ Rhaid i bobl ddeall beth fydd y newidiadau'n eu golygu a pha wasanaethau fydd ar gael i bobl hŷn a gofalwyr.
- ❖ Mae pobl yn dymuno bod yn rhan o unrhyw ymgysylltiad pellach ynghylch sut y byddem o bosib yn datblygu ein gwasanaethau.
- ❖ Mae pobl wedi dweud wrthym fod rhaid sicrhau ein bod yn ystyried beth fyddai'r ffordd orau i gefnogi gofalwyr i allu parhau i ofalu.

- Rydym wedi hwyluso gwaith datblygu gwasanaeth cartref cadarnach ar y cyd gyda'r sector annibynnol trwy gyflymu gwaith allanoli gofal cartref yn y tymor hir. Ddiwedd mis Mawrth 2014, bu i ni amcangyfrif bod 53% o'r ddarpariaeth hon bellach yn cael ei phrynu gan ddarparwyr y sector annibynnol o gymharu â 37% ym mis Mawrth 2013.

- Gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddatblygu mwy ar y Pwynt Mynediad sengl; datblygu ymatebion gwasanaeth trwy'r Gwasanaeth Gofal Lefel Uwch Môn ac Ymateb Brys (Gofal canolraddol) a thrwy weithio'n lleol ac ar y cyd gyda Thîm Arweinyddiaeth Lleol Model Môn sy'n cynnwys rheolwyr strategol a gweithredol ar gyfer disgyblaethau gofal cymdeithasol ac iechyd cymunedol.

- Ymateb effeithiol parhaus i honiadau o gam-drin ac esgeulustod a pharhad o'n hymdrechion i godi ymwybyddiaeth yng nghyswllt gwarchod oedolion bregus (rhaglen ataliol). Mae hyn yn cynnwys cynnydd wrth sefydlu Bwrdd Diogelu Gwynedd a Môn sy'n golygu ein bod mewn lle da i ymateb i'r disgwyliadau a fynegir trwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru).

- **Mae gennym dystiolaeth o ymgysylltiad da rhwng defnyddwyr y gwasanaeth a'r gofalwyr yn ogystal â gweithgaredd cymunedol mewn meysydd gwasanaeth penodol (e.e. pobl hŷn ac oedolion ag anableddau). Rydym wedi adolygu Cytundebau Lefel Gwasanaeth a'n buddsoddiadau yn y 3ydd Sector. Rydym wedi datblygu Fforwm Gofal Cartref ar gyfer darparwyr ac wedi dechrau gwaith llywio a datblygu'r farchnad i gwrdd â galwadau'r gwasanaeth ar draws y chwe bro ddaearyddol ym Môn. Rydym wedi dechrau gweithio dan y ffrwd gwaith Creu Cymunedau lleol i ddatblygu dull o weithio gyda'r gymuned yn ardal Seiriol er mwyn gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau cymunedol a chyfalaf cymdeithasol trwy fodel o gydgynhyrchu.**

- Rydym wedi cyhoeddi strategaeth gofalwyr ddrafft yn amlinellu ein bwriadau comisiynu yng nghyswllt gwasanaethau i gefnogi Gofalwyr. Rydym hefyd wedi gweithio ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu swyddi Hwylusydd Gofalwyr er mwyn adnabod a chefnogi Gofalwyr yn Ysbyty Gwynedd ac mewn meddygfeydd.

- Rydym wedi cynnal perfformiad da yn lleol ar draws cyfres o Ddangoswyr Perfformiad Allweddol a'r tu mewn i'n fframwaith rheoli perfformiad lleol. Cyflawnwyd hyn gyda llai o gyllideb yn cwrdd â strategaeth effeithlondeb heriol y cyngor.

- Rydym wedi sefydlu Bwrdd Cyflawni Integredig ar gyfer Gofal Cymdeithasol ac Iechyd er mwyn darparu trefniadau llywodraethu cadarnach i ddatblygu gwaith ar y cyd gydag Iechyd er mwyn integreiddio gwasanaethau. Rydym hefyd wedi gweithio gyda'r awdurdodau eraill a'r Bwrdd Iechyd yng Ngogledd Cymru i ddatblygu Datganiad o Fwriad ar y Cyd yng nghyswllt integreiddio i'w gyflwyno'n derfynol i Lywodraeth Cymru erbyn 31/03/14.

**Ein Blaenoriaethau Allweddol ar gyfer 2014/15**

Rydym yn cydnabod ein bod yn gweithio mewn amgylchedd sy'n heriol, yn gymhleth ac yn newid. Yn y flwyddyn ddiwethaf bu pwysau parhaus i gwrdd â galwadau'r gwasanaeth gyda phwysau sylweddol ar y gyllideb. Wrth edrych i'r dyfodol, rhaid i ni ystyried cyd-destun o bwysau ariannol sylweddol, newidiadau demograffig a disgwyliadau uwch. Rhaid i wasanaethau'r dyfodol fod yn gynaliadwy a chaiff hyn ei adlewyrchu yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Llywodraeth Cymru. Mae'r blaenoriaethau a ganlyn wedi'u nodi ar gyfer 2014/15:

- Parhau gyda'n rhaglen i drawsnewid gwasanaethau i Bobl Hŷn. Rydym wedi dechrau gyda chynllunio prosiectau fydd yn canolbwyntio ar wasanaethau Dementia a datblygu ein dull o weithredu Cefnogaeth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion.
- Parhau i ddatblygu ein strategaeth i ailfodelu ystod a dewis o wasanaethau cefnogi a llety i Bobl Hŷn.
- Datblygu rhaglen waith ar y cyd gydag Iechyd i integreiddio gwasanaethau mewn ymateb i alwadau a disgwyliadau Llywodraeth Cymru fel y nodir yn 'Fframwaith ar gyfer Gwasanaethau Integredig i Bobl Hŷn ag Anghenion Cymhleth' (Gorffennaf 2013).
- Cyflwyno trefniadau Asesu Integredig diwygiedig ar y cyd gydag Iechyd a rhoi hyfforddiant amlddisgyblaethol i staff gofal cymdeithasol ac iechyd.
- Cryfhau modelau o ddarparu gwasanaethau yn y gymuned mewn partneriaeth ag Iechyd, Tai a'r Trydydd Sector trwy'r Grant Gofal Canolraddol a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru.
- Dechrau'r adolygiad i ailfodelu gwasanaethau Anabledd Dysgu.
- Cryfhau mwy ar ein trefniadau cefnogi Busnes a Chomisiynu.
- Datblygu mwy ar ein trefniadau ar gyfer ymgysylltu gyda defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr, a darparwyr y trydydd sector a'r sector annibynnol wrth adolygu ein bwriadau comisiynu i sicrhau ystod o wasanaethau cefnogi cymunedol priodol.
- Llunio ein bwriadau comisiynu ar gyfer y dyfodol o ran sicrhau gwasanaethau eiriolaeth annibynnol i gwrdd â'r anghenion ar draws y gwasanaethau oedolion.

Bu cynnydd sylweddol yn ystod 2013/14 er nad ydym wedi gallu cwblhau ein ffrydiau gwaith i gyd o fewn yr amser disgwyliedig. Er hynny, byddwn yn parhau i wneud cynnydd dros y deuddeg mis nesaf. Rhaid bod yn realistig ynghylch yr hyn y mae modd ei gyflawni o fewn yr adnoddau sydd gennym a byddir yn parhau i fod angen blaenoriaethu ac aildrefnu rhaglenni gwaith yn y gwasanaeth a'r awdurdod. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor wedi nodi'r sialensiau a sefydlu dull corfforaethol o adnabod blaenoriaethau a monitro cynnydd. Mae Gofal Cymdeithasol Oedolion yn flaenoriaeth a gydnabyddir yn y rhaglen waith hon.

**Gareth Llwyd**
**Rheolwr yr Uned Cefnogi Busnes** **Ebrill 2014**

## 2 Cyd-destun y Gwasanaeth

Rydym wedi parhau gyda'n hymrwymiad i ymgynghori ac ymgysylltu'n helaeth gyda dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, partneriaid allweddol a rhanddeiliaid eraill yr Ynys ynghylch ein Gweledigaeth a Bwriadau ein Gwasanaeth wrth i ni symud ymlaen gyda'n rhaglen o drawsnewid Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion.  Mae'r weledigaeth hon yn canolbwyntio ar y pethau allweddol y mae modd eu darparu dros y tair blynedd nesaf. Mae ein Cynllun Busnes Gwasanaeth yn egluro sut y byddwn yn cyflawni hyn.

**Ein proffil lleol**

Yn 2011, 69,913 oedd amcangyfrif poblogaeth yr Ynys. O hyn roedd:

- 11,885 yn 0-15 oed [17% o'r boblogaeth];
- 41,948 yn 16-64 oed [60% o'r boblogaeth];
- 16,080 yn 65+ oed [23% o'r boblogaeth].

Fodd bynnag, rhagamcenir y bydd cyfanswm poblogaeth Môn wedi codi i 72,563 [12,333 yn 0-15 oed, 37,518 yn 16-64 oed a 22,712 yn 65+ oed] erbyn 2033.

**Ein Hadnoddau**

Mae modd rhannu Gwasanaethau Oedolion, yn fras, i bum prif grŵp defnyddiwr:

- Pobl hŷn - gwasanaethir gan ddau Dîm Gwaith Cymdeithasol (un ar gyfer gogledd yr Ynys a'r llall ar gyfer de'r Ynys) a Thîm Therapi Galwedigaethol yn gweithio o'n prif swyddfa yn Llangefni.
- Pobl ag anableddau corfforol/ nam ar y synhwyrau - gwasanaethir gan y timau uchod.
- Pobl ag anableddau dysgu – gwasanaethir gan Dîm Rheoli Achos gofal cymdeithasol ac Iechyd wedi'i lleoli ar y cyd yn y brif swyddfa yn Llangefni;
- Pobl ag anghenion iechyd meddwl – gwasanaethir gan y Tîm iechyd Meddwl ar y Cyd yn gweithio o ddau leoliad yn Llangefni a Chaergybi
- Gofalwyr – gwasanaethir gan ddau Swyddog Gofal yn gweithio o'r brif swyddfa yn Llangefni ac yn gweithio ar draws gwasanaethau Oedolion a'r gwasanaethau arbenigol plant.

Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth yn cynnwys yr isod:

- Tîm Cyswllt Cyntaf / Gofal Cwsmer (Pwynt Mynediad Sengl Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cymunedol ar y Cyd);
- Cydgysylltydd Gwarchod Oedolion Bregus (POVA);
- Gwasanaeth gwaith cymdeithasol yn yr ysbyty ((ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd) mewn ysbytai cymunedol ac achosion llym);
- Swyddog Adsefydlu ar gyfer y rhai â Nam ar y Golwg – yn gweithio yn y Tîm Therapi Galwedigaethol ac yn gweithio ar y cyd gyda Chymdeithas y Deillion Gogledd Cymru;
- Cefnogaeth i ofalwyr (ar draws Oedolion a Phlant ag anableddau)
- Gwasanaethau cefnogi a gweinyddol yn cynnwys arian cleientiaid a swyddogaethau profi modd.
- Swyddfa Broceriaeth – dau swyddog broceriaeth sy'n gweithredu fel pwynt cyswllt sengl gyda darparwyr gofal cartref wrth drefnu a phrynu pecynnau gofal.
- Rheolwr Rhaglen a staff cefnogi Trawsnewid Oedolion Hŷn gan gynnwys y Cydgysylltydd Pobl Hŷn.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Cyngor wedi gweithredu ei swyddogaeth Rheolaeth Uwch sydd wedi cyfuno'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a'r Gwasanaeth Darparu. Cyflwynwyd y newidiadau, ar draws y Cyngor, ym mis Tachwedd er mwyn caniatáu ar gyfer trefniadau atebolrwydd cliriach ac fel rhan o'r rhaglen effeithlonrwydd gyffredinol. Mae hyn wedi golygu bod y gwasanaeth, bellach, yn cyflwyno rhagor o newidiadau er mwyn symleiddio prosesau. Bydd Pennaeth newydd Gofal Cymdeithasol Oedolion yn ei le ym mis Mehefin 2014. Mae cyn-benaethiaid y Gwasanaeth, i bob pwrpas, wedi cefnogi'r rhaglen drawsnewid yn ystod y flwyddyn.

Rydym wedi parhau i gynnal trefniadau gweithio amlddisgyblaethol da gyda chydweithwyr yn y disgyblaethau Iechyd Cymunedol yn seiliedig ar chwe bro ddaearyddol ac a oruchwylir gan Dîm Datblygu Ardal Model Môn. Mae'r tîm yn cynnwys Arweinydd Lleol, Meddygon Teulu a rheolwyr gwasanaeth o ystod o ddisgyblaethau Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cymunedol. Bydd y Tîm Datblygu Ardal yn goruchwylio gwaith datblygu ystod o brosiectau amlddisgyblaethol a ariennir trwy'r Gronfa Gofal Canolraddol yn ystod 2014/15.

Mae'r gwaith rheoli llinell ar gyfer yr Uned Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol wedi'i drosglwyddo o'r Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Uned Hyfforddi Gorfforaethol dan Bennaeth Adnoddau Dynol. Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd raid i ni sicrhau bod Uned Datblygu'r Gweithlu yn cynnal cysylltiadau agos gyda'r gwasanaeth er mwyn ymateb i anghenion datblygu gweithlu a hyfforddiant yng nghyd-destun trawsnewid gwasanaethau.

Fel y mae ar draws maes Awdurdodau Lleol yng Nghymru, mae cyfran sylweddol o wariant Gwasanaethau Cymdeithasol ar yr Ynys i'w briodoli i'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion. Yn ystod 2013/14, amcangyfrifir y bydd cyfanswm gwariant ar Wasanaethau Oedolion yn £22,377,000 o gymharu â £21,742,000 yn 2012/13. Bu gofyn i ofal cymdeithasol i Oedolion wneud arbedion effeithlonrwydd sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf (£1.26m) ac o gofio'r cynildeb cenedlaethol sydd ohoni, bydd hyn yn parhau ac amcangyfrifir y bydd oddeutu £1.26m yn ystod 2014/15. Er hyn, mae angen gwirioneddol i Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion newid, diwygio ac addasu patrymau gwario er mwyn ymestyn ystod y canlyniadau o ansawdd dda i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithioldeb.

Yr hyn yw gweddill yr adroddiad yw asesiad o wasanaethau oedolion ym Môn yn ystod 2013/14 ac mae'n disgrifio ein blaenoriaethau dros y deuddeg mis nesaf dan y penawdau a ganlyn:

- Ymateb i Angen – sy'n cynnwys mynediad, asesu a rheoli gofal;
- Diogelu – oedolion bregus;
- Comisiynu a Phartneriaethau – cefnogi gofal cymdeithasol i oedolion;
- Rheoli Busnes a Pherfformiad - yn cynnwys sicrwydd ansawdd a thechnoleg gwybodaeth;
- Rheoli adnoddau – yn cynnwys sefydlogrwydd a rheoli'r gweithlu;
- Cefnogaeth ac Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol – gwasanaethau oedolion.

## 3 Ymateb i Angen

Yn y rhan gyntaf hon o'm hadroddiad, ceir disgrifiad o sut yr ydym yn ceisio sicrhau trefniadau effeithiol fel bod pobl yn medru cael gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt ac y gwrandewir ar oedolion, bod pobl yn eu deall a'u bod yn ganolog i drefniadau sy'n gwneud newidiadau i'w bywydau. Rydym, hefyd, yn adrodd ar effeithiolrwydd ein trefniadau wrth sicrhau yr ymatebir yn dda ac yn amserol i anghenion pobl, lle bo'r bobl hynny'n gymwys, a bod ganddynt gynlluniau gofal cynaliadwy o ansawdd dda sy'n sicrhau y diwellir eu hanghenion.

**Ein hystadegau 2013/14**

| | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 |
|---|---|---|---|
| Nifer yr oedolion yn cael gwasanaeth ar 31 Mawrth | 2,098 | 1,752 | 1,609 |
| Cynlluniau gofal newydd wedi'u cwblhau (Gofal Preswyl a Chartref) | Data ddim ar gael | Data ddim ar gael | 739 |
| Cynnal asesiadau o ofalwyr newydd | 450 | 396 | 403 |
| Pobl yn cael Taliad Uniongyrchol | 26 | 33 | 44 |
| Oriau gofal cartref yn cael eu comisiynu | 346,445 | 293,958 | 247,005 |
| Pobl yn cael gofal cartref preswyl/nyrsio | 901 | 767 | 690 |
| Cynnal adolygiadau | 1,206 | 1,104 | 941 |
| Pobl yn cael technoleg gynorthwyol | 384 | 480 | 469 |
| Pobl yn cael offer i'w cynorthwyo gyda gweithgareddau bywyd beunyddiol | 714 | 636 | 579 |
| Pobl yn cael offer i'w cynorthwyo gydag addasiadau mawr neu fach i'w tai | 168 | 151 | 125 |
| Pobl yn cael gwasanaeth ailalluogi | 256 | 298 | 438 |

**Beth wnaethom addo'i wneud?**

**Mynediad at Wasanaethau – Cael Cymorth**

- Cwblhau adolygiad o daflenni gwybodaeth a gyhoeddwyd ac adolygu'r trefniadau gwybodaeth presennol gan gynnwys yr ystod o bwyntiau gwybodaeth a datblygu ein tudalennau gwe;
- Dod â'n trefniadau Pwynt Mynediad Sengl gyda'r Bwrdd iechyd i'r brif ffrwd;

**Ymateb i Anghenion**

- Ail-lunio ac ailfodelu gwasanaethau i bobl hŷn fydd yn cael eu harwain gan ddwy nod - ei gwneud yn bosib i bobl allu aros gartref, darparu canlyniadau gwell i ddefnyddwyr y gwasanaeth a gwella effeithlonrwydd/fforddiadwyedd. Bydd ailalluogi ac ymyriad cynnar yn y gymuned yn dod yn nodweddion fwyfwy amlwg yn ein modelau ymateb i'r gwasanaeth wrth i ni ostwng ein dibyniaeth ar ofal preswyl tymor hir;
- Proffesiynol - gwella effeithlonrwydd ac effeithioldeb ar draws y maes Gwasanaethau Oedolion fel gyrrwr yn cynnal ein gweithredoedd, yn tystiolaethu i ddarparu gwasanaeth atebol o fewn diwylliant rheoli perfformiad lleol a chadarn. Bydd hyn yn cynnwys gwreiddio disgyblaeth rheoli rhaglen yn holl agweddau'r busnes. Datblygu mwy ar y rhyngwyneb strategol a gweithredol gydag Iechyd - gan sicrhau cydbwysedd priodol rhwng ardal, modelau gweithredol yn seiliedig ar fröydd ac ymatebion i wasanaethau rhanbarthol - e.e. datblygu mwy ar Ofal Lefel Uwch Môn, dod â threfniadau pwynt mynediad sengl arbrofol mewn model gofal cwsmer integredig i'r brif ffrwd;
- Cwblhau'r adolygiad presennol o wasanaethau eiriolaeth a gomisiynir a gweithredu arno;
- Sicrhau y cryfheir rhagor ar wasanaethau cyffredinol ataliol cymunedol trwy ddatblygu capasiti cymunedol a mwy o gyfalaf cymdeithasol – mabwysiadu rôl arweinyddiaeth gymunedol mewn un gymuned yn y lle cyntaf;
- Sicrhau Model Heneiddio'n Dda cynaliadwy yn y brif ffrwd ar draws holl gymunedau'r Ynys;
- Adnewyddu ein strategaethau comisiynu cyfredol fel dogfennau allweddol i arwain gweledigaeth, cyfeiriad a blaenoriaethau ein Gwasanaeth;
- Mewn cydweithrediad ag Iechyd, adolygu ein trefniadau strategol i gefnogi gofalwyr ar draws yr holl grwpiau defnyddwyr gan sicrhau bod ein holl fwriadau comisiynu yn gyfoes, yn addas i bwrpas ac yn unol â blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

**Sut wnaethom ni?**

At ei gilydd, mae Mynediad at Wasanaethau Oedolion fel y bu i ni adrodd arno'r llynedd ac, yn hyn o beth, mae wedi parhau i berfformio'n dda yn ystod 2013/14. Roedd cyfanswm o 5,440 o gyfeiriadau wedi'u neilltuo i weithwyr yn ystod y flwyddyn aeth heibio gan gynnwys adolygiadau o wasanaethau (o gymharu â 4,524 yn ystod 2012/13). O'r rhain, roedd 5,061 (3493 yn 2012/13) yn geisiadau am wasanaeth newydd gydag 84% (77% yn 2011/12 AC 85% yn 2012/13) wedi'u neilltuo cyn pen pum diwrnod gwaith. Yn wir, neilltuwyd 76% (64% yn 2012/13) cyn pen dau ddiwrnod gwaith gan roi ymateb amserol i gyfeiriadau.

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein pwynt cyswllt cyntaf ar y cyd gydag Iechyd trwy ddatblygu ein trefniadau pwynt cyswllt cyntaf yn ein Swyddfa dyletswydd Gofal Cwsmer ym mhrif swyddfeydd y Cyngor yn Llangefni. Rydym wedi cael dyraniad cyllid trwy Gronfa Cydweithio Ranbarthol Gogledd Cymru i benodi Rheolwr Prosiect er mwyn mynd â'r gyd-fenter hon yn ei blaen. Rydym hefyd wedi sefydlu Bwrdd Prosiect Pwynt Mynediad Sengl I arwain rhagor o ddatblygu.

Rydym wedi parhau i ddatblygu a chryfhau'r Cyd-Bwynt Mynediad Sengl gyda chydweithwyr yn y Gwasanaethau Iechyd Cymunedol ac mae Rheolwyr Nyrsio Ardal wedi cael eu lleoli o fewn Gwasanaethau Oedolion yn ein prif swyddfa yn Llangefni. Rydym wedi adnabod yr angen i gryfhau gwaith tracio cynnydd gyda chyfeiriadau'n cael eu pasio i ddisgyblaethau Iechyd. Rydym hefyd wedi dechrau trafodaethau gydag Iechyd a chydweithwyr TCG y Cyngor i hwyluso mynediad ac adrodd i staff iechyd pwrpasol trwy'r system Gwybodaeth am Gleientiaid Gofal Cymdeithasol RAISE. Ein bwriad hefyd yw cryfhau capasiti hyd yn oed yn fwy yn y Pwynt Mynediad Sengl trwy

benodi Swyddog dyletswydd arall gydag arian o'r Grant gofal canolraddol i brosesu cyfeiriadau Iechyd yn 2014/15.

Yn 2012, dywedasom y byddem yn adolygu ein taflennu gwybodaeth yn sgil ymgynghori gyda grwpiau defnyddwyr. Llynedd, adroddwyd gennym nad oeddem wedi gorffen adolygu'r holl daflenni gwybodaeth ac y byddai'r gwaith hwn yn cael ei orffen yn ystod 2013/14. Rydym bellach wedi gorffen y rhaglen adolygu ac mae'r taflenni hyn wedi cael eu cyhoeddi a'u cylchredeg i bwyntiau mynediad gwybodaeth allweddol. Er hynny, rydym yn parhau i weithio gyda Thîm canolog Datblygu'r We i gyhoeddi'r holl daflenni ar wefan y cyngor. Rydym wedi cyflwyno i Gyngor y Bobl Hŷn ystod o daflenni ar gyfer adborth ffurfiol yng nghyswllt fformat a chyfathrebu negeseuon allweddol a'r iaith a ddefnyddir.

Rydym yn parhau i hyrwyddo Mynediad at Wasanaethau trwy Ofal Sylfaenol - gyda chydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd - i sicrhau bod ystod gynhwysfawr o wybodaeth ar gael yn y lleoliadau Gofal Sylfaenol ym mhob ardal ar yr Ynys. Mae meddygfeydd, clinigau, gwasanaethau Heneiddio'n Dda a'n canolfan adnoddau mewnol, Canolfan Byron yn bwyntiau gwybodaeth allweddol. Yn ystod y flwyddyn, bu raid i ni gau'r Priordy yng Nghaergybi, oedd yn ganolfan adnoddau i wasanaethau Iechyd Meddwl, a hynny oherwydd materion iechyd a diogelwch. Mae llawer o waith wedi'i wneud gyda sefydliadau'r trydydd sector i symud eu gwasanaethau er mwyn sicrhau parhad busnes a mynediad parhaus i ddefnyddwyr y gwasanaeth.

Er hynny, rydym yn cydnabod bod mwy y gallwn ei wneud i adolygu a gwella effeithiolrwydd y trefniadau'n barhaus er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gywir a chyngor ar gael i ddefnyddwyr y gwasanaeth a darpar ddefnyddwyr.

Gellid hefyd adrodd y bu cynnydd sylweddol yn erbyn meysydd blaenoriaeth eraill yn ein trefniadau ar fynediad at wasanaethau:

- **Gwasanaethau Iechyd Meddwl -** Cafodd cynnydd ei gynnal gyda threfniadau mynediad amserol yn y gwasanaethau iechyd meddwl. Mae Rheolwyr Gweithredol yn cyfarfod yn ddyddiol i fonitro'r Pwynt Mynediad Sengl a'r trefniadau cyfeirio ac asesu sydd wedi'u rhoi yn eu lle er mwyn i reolwyr gael rhoi mewnbwn cadarn i wneud penderfyniadau ynghylch neilltuo cyfeiriadau. Gwnaed cynnydd sylweddol wrth ddefnyddio cyfeirio electronig gan gydweithwyr meddygol gyda lefel uchel o gydymffurfiaeth ar draws yr Ynys. Bellach mae gwaith datblygu gwasanaethau gofal sylfaenol yn gwreiddio mewn llwybrau cyfeirio. Fodd bynnag, cydnebydd bod angen rhagor o gapasiti er mwyn darparu ymyriadau yn dilyn asesiad mewn Gofal Sylfaenol. Rydym hefyd wedi datblygu cynllun peilot 'Nodiadau achos integredig' lle mae cofnodion achos yn dilyn defnyddwyr y gwasanaeth sy'n mynd i'r ysbyty neu i leoliadau gofal eraill.

- **Meini Prawf Cymhwysedd** - Rydym wedi parhau i fonitro'r defnydd a wneir o'n meini prawf cymhwysedd yng nghyswllt prosesu cyfeiriadau a darparu ymatebion gwasanaeth. Rydym wedi parhau gyda'n hymdrechion i arallgyfeirio pobl nad oes ganddynt gymaint o angen i wasanaethau cefnogi yn y gymuned ac i'r trydydd sector. Rydym wedi parhau i gefnogi pobl hŷn mewn gwahanol ffyrdd ac mae rhai o'n defnyddwyr yn gallu bod yn annibynnol gyda llai o oriau gofal uniongyrchol yn sgil cyfnod o ailalluogi trwy'r Model Derbyn a ailgyflwynwyd ym mis Hydref 2013.

  Rhoddir gwasanaethau yn unol ag asesiad o'u hanghenion i ddefnyddwyr y gwasanaeth sy'n syrthio i Gategorïau 1 a 2 (anghenion critigol a sylweddol). Caiff y rhai sy'n cael eu

hasesu yng nghategorïau 3 a 4 eu cyfeirio at ddarpariaeth arall yn y gymuned a'r trydydd sector. Cânt wybodaeth a chyngor sy'n berthnasol i'w hanghenion unigol.


- **Gwasanaethau Eiriolaeth** - Rydym wedi dechrau adolygu ystod o wasanaethau eiriolaeth sydd ar gael i gefnogi defnyddwyr y gwasanaeth ar draws y Gwasanaethau Oedolion. Fodd bynnag, mae'r gwaith hwn yn barhaus gan fod angen adnabod adnoddau i gryfhau rhagor ar ddarpariaethau, yn enwedig felly i gefnogi pobl hŷn ac oedolion gydag anableddau corfforol a synhwyrol. Bydd yn her darparu gwasanaethau eiriolaeth priodol wrth i ni ailfodelu rhai gwasanaethu llety a chefnogi dan y Rhaglen Trawsnewid.

**Asesu a Rheoli Achosion**

Mae gweithlu yn ei le gennym sy'n ymroddedig ac yn fedrus, ac wedi'i hyfforddi'n dda ac mae'n adlewyrchiad o'r gwasanaeth o ansawdd yr ydym yn ceisio ymgyrraedd ato. Mae canran uchel iawn o'n gweithlu'n ddwyieithog (tua 80%) a golyga polisi iaith ein Hawdurdod ein bod mewn lle da i gwrdd ag anghenion strategaeth iaith Llywodraeth Cymru, "Mwy na Geiriau". Rydym mewn sefyllfa ers sawl blwyddyn i adrodd bod nifer y staff sy'n aros yn wych ac, felly, mae'n ei gwneud yn bosib dangos parhad ar draws y Gwasanaethau Oedolion.

Cynhaliwyd trefniadau gweithio ar y cyd effeithiol gyda'r Bwrdd Iechyd, gydaThîm Amlddisgyblaethol wrth wraidd asesu a rheoli achosion. Rydym yn darparu staff asesu a gwaith cymdeithasol yn yr ysbytai achosion llym i oedolion wrth iddynt baratoi i adael trwy bartneriaeth gyda Chyngor Gwynedd. Mae'r tîm yn yr ysbyty'n cynnwys ymarferwyr gwaith cymdeithasol ac asesu gofal. Mae ein perfformiad o ran oedi wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty oherwydd rhesymau gofal cymdeithasol wedi aros ymhell o fewn y targedau yn ystod y flwyddyn aeth heibio. Dangosir hyn o fewn cyd-destun tair blynedd yn y graff a ganlyn:

**SCA/001 (NS1): The rate of delayed transfers of care for social care reasons per 1,000 population aged 75 or over (2013/14)**





| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 |
|---|---|---|---|---|
| Môn | 1.51 | 1.06 | 2.53 | 0.97 |
| Cymru | 5.76 | 5.03 | 4.57 | |
| Targed Môn | 6 | 6 | 1.2 | 1.75 |

**Asesu Gofalwyr Anffurfiol a'u Cefnogi**

Er 2012, mae gennym ddau Swyddog Gofalwyr sy'n gyfwerth ag amser cyflawn i asesu, adolygu a chefnogi gofalwyr ar draws y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaeth Arbenigol Plant. Rydym wedi cynnal ein perfformiad ar lefel foddhaol ac rydym ymhell uwchlaw cyfartaledd cenedlaethol Cymru. Rhoddwyd yr asesiad i 63.2% o ofalwyr y cynigiwyd asesiad iddynt – mae hyn fymryn yn is na'r flwyddyn flaenorol. Er hynny, rydym yn parhau i fod ar y blaen i'r cyfartaledd cenedlaethol (38.7% yn 2012/13). Wrth ddadansoddi ein data'n lleol daethpwyd i'r casgliad nad oedd 20% o ofalwyr y cynigiwyd iddynt asesiad eisiau asesiad. Gwelir hyn yn arwydd negyddol yn y dangosydd perfformiad hwn (SCA/018b) ond yn un cadarnhaol mewn dangosydd perfformiad arall (SCA/018a).

**SCA/018a: The percentage of carers of adults who were offered an assessment or review of their needs in their own right during the year (2013/14)**




| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 |
|---|---|---|---|---|
| Môn | 74.2 | 70.1 | 81.7 | 91.3 |
| Cymru | 77.1 | 76.1 | 86.8 | |
| Targed Môn | 85 | 85 | 77 | 85 |

**<u>Mae gofalwyr ym Môn wedi dweud yn gyson mai'r peth pwysicaf y mae arnyn nhw ei angen yw cefnogaeth ddibynadwy o ansawdd dda i'r bobl y maent yn gofalu amdanynt a bod digon ohono ar gael fel bod modd iddynt gael cyfleoedd iddyn nhw eu hunain. Er mwyn ymgymryd â'u rôl ofalgar, mae pobl wedi dweud mai'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw yw:</u>**

- **<u>Cydnabyddiaeth a pharch</u>**
- **<u>Gwybodaeth a chyngor</u>**
- **<u>Asesiadau o'u hangen sy'n glir ac y mae modd cael atynt</u>**
- **<u>Cyfleoedd i gael toriad oddi wrth y rôl ofalgar</u>**
- **<u>Datblygu mwy o wasanaethau ysbaid</u>**

**<u>Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi ailgodi'r Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr gyda rhanddeiliaid allweddol ac, ar hyn o bryd, mae'r pwyllgor hwn yn cael ei gadeirio gan Brif Swyddog y Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr. Ymhlith yr aelodau mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol gan</u>**

**<u>gynnwys Eiriolwr Gofalwyr, sefydliadau'r trydydd sector sy'n rhoi gwasanaeth i ofalwyr a chynrychiolwyr gofalwyr sy'n rhoi llais i ofalwyr.</u>**


**<u>Rydym wedi ymgynghori gyda Gofalwyr wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu a Strategaeth y Gofalwyr. Anfonodd y Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr holiaduron at oddeutu 900 o ofalwyr a gofrestrwyd gyda nhw a rhoddwyd holiadur ar wefan y Cyngor er mwyn cael adborth. At hyn, mae aseswyr gofalwyr wedi casglu gwybodaeth am faterion gofalwyr.</u>**

**Gwasanaethau Ailalluogi**

Dan y Rhaglen Trawsnewid i Wasanaethau Oedolion, rydym wedi datblygu trefniadau Rheoli Prosiect ffurfiol i gefnogi ail-lansio Model Derbyn o Ailalluogi er mwyn gostwng mwy ar ddibyniaeth sy'n rhy gynnar ar wasanaethau gofal yn y tymor hir. O'r herwydd, bu mwy o ddefnydd o ailalluogi ac adroddodd y gwasanaeth ar adborth cadarnhaol oddi wrth y rhai a ddefnyddiodd y gwasanaeth. Wrth i'r Cyngor ddefnyddio ei wasanaeth ailalluogi, roedd pobl yn cael llai o becynnau gofal cartref ac yn cael cefnogaeth am gyfnodau byrrach cyn byw'n annibynnol. O fis Hydref 2013 i fis Mawrth 2014, cafodd 264 o oedolion eu cefnogi trwy'r gwasanaeth ailalluogi, gyda 42.2% yn gadael gyda dim anghenion cefnogi parhaus i lai o ofal cartref. Yn y pen draw, cafodd llai o oedolion eu cefnogi yn y gymuned yn ystod y flwyddyn, gyda llai o unigolion yn datblygu dibyniaeth tymor hir ar wasanaethau. Roedd hefyd ostyngiad cyson mewn defnyddwyr y gwasanaeth a ariannwyd ar gyfer lleoedd gofal cartref (gostyngiad o 105 i 90 mewn cartrefi gofal yr Awdurdod Lleol ac o 197 i 182 mewn cartrefi gofal annibynnol).

**Trefniadau Adolygu**

Mae Gwasanaethau Oedolion hefyd wedi cynnal perfformiad da wrth adolygu cynlluniau gofal yn ystod 2013/14 – sydd yn ddangosydd perfformiad cenedlaethol arall yr ydym yn cael ein mesur yn ei erbyn. Cafodd 87.86% o ddefnyddwyr, oedd â chynllun gofal, adolygu eu cynlluniau yn ystod y flwyddyn (o gymharu ag 82% yn 2012/13) sydd, unwaith eto, yn braf uwchben cyfartaledd Cymru. Dengys ein data perfformiad y wybodaeth a ganlyn:




| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 |
|---|---|---|---|---|
| Môn | 78.23 | 78.7 | 82.82 | 87.86 |
| Cymru | 75.52 | 78.3 | 80.9 | |
| Targed Môn | 75 | 75 | 80 | 84 |

Yn y Gwasanaethau Iechyd Meddwl, mae Cynlluniau Gofal a Thriniaeth bellach wedi'u cyflwyno ar gyfer yr holl gyfeiriadau mewn gofal eilaidd ac mae'r holl gynlluniau gofal cyfredol wedi'u trosglwyddo i'r fformat newydd hwn.

Mae yna ddau faes o'n gwasanaeth sydd wedi cael sylw penodol gan ddarparwyr a grwpiau diddordeb defnyddwyr / gofalwyr:

i) **Gwasanaethau therapi galwedigaethol** – Mae angen datblygu rhagor o drafodaethau ar y cyd gydag Iechyd i sicrhau bod yna fwy o ganolbwyntio ar rolau rhwng swyddogaethau awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd a bod y rolau hyn yn fwy eglur. Rydym hefyd wedi cael sylwadau ynghylch amseroldeb ymatebion gwasanaeth ac, yn fwy penodol, yng nghyswllt darparu offer ac addasiadau i gefnogi oedolion ag anableddau corfforol difrifol sy'n gadael yr ysbyty;
ii) **Gwasanaethau dydd** – yr angen i sicrhau bwriadau comisiynu clir i gynnal gwaith darparu cyfleoedd dydd er mwyn diwallu ystod o anghenion (cyfeiriwyd yn benodol at wasanaethau pobl hŷn oherwydd y bu raid cael hyd i gyfleoedd dydd eraill ar gyfer grŵp o bobl yn ardal Llangefni);

Mae cyfrinachedd a rheoli a llywodraethu gwybodaeth bersonol a ffeiliau achos yn parhau i fod yn feysydd o dragwyddol bwys i ni. Rydym wedi parhau gyda'n rhaglen i drosglwyddo ffeiliau achos agored (cyfanswm o oddeutu 10,500 o ffeiliau ar amcan) i'r Ganolfan Cofnodion yn 2013/14.


Mae'r Gwasanaeth wedi cryfhau trefniadau trwy drosglwyddo i reoli achosion electronig ac rwyf yn falch o gael dweud y bu hwn yn ddatblygiad cadarnhaol ac mae'r holl staff wedi croesawu'r symudiad hwn yn ymarferol. Nid ydym mwyach yn ddibynnol ar ffeiliau achos papur a gallwn weld manteision gwirioneddol yn ein hymdrechion i leihau i'r eithaf ddyblygu gwybodaeth a bylchau.

**Darparu Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion**

Yn ein hadroddiad blynyddol diwethaf bu i ni adrodd ei fod yn flaenoriaeth gennym wella ar ***gyfradd*** y bobl (yn ôl 1,000 y boblogaeth) yr ydym yn eu cefnogi yn y gymuned a hefyd weld

gostyngiad yn ***niferoedd*** y bobl hŷn yr ydym yn eu cefnogi mewn cartrefi preswyl/nyrsio. Ceir dau ddangosydd perfformiad cenedlaethol gwahanol sy'n mesur ein perfformiad. Dengys y graffiau isod ein perfformiad lleol dros y tair blynedd yn erbyn y fframwaith perfformiad cenedlaethol hwn.

Mae ein perfformiad lleol yng nghyswllt graddfa'r bobl hŷn yr ydym yn eu cefnogi yn y gymuned ar ddiwrnod y cyfrifiad (31 Mawrth) wedi parhau i ostwng wrth i ni gyfeirio ac arallgyfeirio pobl i gael cefnogaeth gan wasanaethau yn y trydydd sector a'r sector cymunedol. Mae'r cyfeiriad yr ydym yn mynd iddo'n adlewyrchu'r cyfeiriad cenedlaethol ond mae ar raddfa gyflymach a chaiff ei ddangos yn y graff a ganlyn:





| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 |
|---|---|---|---|---|
| Môn | 74.86 | 82.37 | 58.94 | 54.41 |
| Cymru | 81.4 | 78.6 | 77.53 | |
| Targed Môn | 85 | 78 | 83 | 55 |

Ceir pum datblygiad allweddol sy'n CEFNOGI ein perfformiad lleol:

- Mae'r pwyslais o'r newydd ar fodel Derbyn o Ailalluogi ar gyfer yr holl ymgeiswyr Gwasanaeth Gofal Cartref wedi parhau i gael effaith gadarnhaol – gan ei gwneud yn bosib i unigolion aros y tu allan i'r system ofal am gyfnod hirach;
- Mae ein strategaeth o roi gwybodaeth, cyfeirio a grymuso yn ein pwyntiau mynediad (yn hytrach na thynnu pobl i'r system) yn cael effaith uniongyrchol ar niferoedd yr oedolion sy'n cael gwasanaeth gennym. Rydym wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer yr oriau gofal a ddarperir trwy ein gwasanaeth mewnol neu a brynir trwy wasanaethau gofal cartref annibynnol.
- Mae'r rhaglen waith a flaenoriaethwyd o adolygu ein hymyriadau gyda phobl hŷn ar lefelau critigol a sylweddol (yn unol â'n meini prawf cymhwysedd a gyhoeddwyd) wedi arwain at nifer sylweddol o bobl hŷn yn y gymuned yn cael llai o wasanaethau.
- Allanoli'r gwasanaethau Pryd-ar-glud trwy arallgyfeirio 152 o ddefnyddwyr gwasanaeth i gael prydau gan bedwar darparwr cymunedol sy'n gweithredu'n ôl bröydd daearyddol gwahanol ar yr Ynys.
- Datblygiad parhaus gwasanaeth gofal Lefel Uwch Môn mewn cydweithrediad gyda'r Bwrdd Iechyd i gefnogi pobl gartref.

Ochr arall i geiniog y perfformiad cenedlaethol hwn mae cyfradd y bobl hŷn yr ydym yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal. Dengys y graff isod ein perfformiad lleol tair blynedd:





| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 |
|---|---|---|---|---|
| Môn | 23.46 | 23.57 | 21.93 | 18.16 |
| Cymru | 21.75 | 21.3 | 20.63 | |
| Targed Môn | 20 | 20 | 23 | 20 |

Byddwn yn parhau i wneud rhagor o welliannau trwy drawsnewid ein modelau gwasanaeth ar gyfer pobl hŷn trwy gryfhau cefnogaeth gymunedol pedair awr ar hugain ar draws yr Ynys ynghyd â'r gwasanaethau Ailalluogi sydd â chyfyngiad amser effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys ymestyn ystod yr ymatebion sydd ar gael y tu allan i oriau swyddfa ac ar y penwythnos.


**Bellach mae angen ystyried perfformiad yng nghyswllt canran holl ddefnyddwyr y gwasanaeth yr ydym yn eu cefnogi yn y gymuned wrth i ni ddefnyddio ein meini prawf cymhwysedd yn rhagweithiol, hyrwyddo ailalluogi a pharhau i gyfeirio ac arallgyfeirio pobl i gael cefnogaeth gan y trydydd sector a gwasanaethau ataliol a phrif lif yn y gymuned er mwyn osgoi mynd i ddibynnu'n rhy gynnar ar Wasanaethau Cymdeithasol statudol. Dangosir y perfformiad lleol dros y tair blynedd diwethaf yn y graff a ganlyn:**

**SCA/003a: The percentage of clients, in the following age groups, who are supported in the community during the year: Aged 18-64 (2013/14)**




| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 |
|---|---|---|---|---|
| Môn | 91.47 | 92.82 | 93.91 | 88.77 |
| Cymru | 94.05 | 94.03 | 93.87 | |
| Targed Môn | 90 | 90 | 93 | 94 |

**SCA/003b: The percentage of clients, in the following age groups, who are supported in the community during the year: Aged 65+ (2013/14)**






| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 |
|---|---|---|---|---|
| Môn | 81.29 | 78.74 | 80.83 | 77.87 |
| Cymru | 83.71 | 83.94 | 83.47 | |
| Targed Môn | 81 | 81 | 80 | 81 |

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld cynnydd parhaus yn nifer y bobl ar y Gofrestr Anabledd Dysgu a'r nifer sy'n cael cefnogaeth mewn amrywiol leoliadau gofal. Rydym hefyd yn gweld cynnydd yng nghymhlethdod yr anghenion y mae pobl o bob oed yn ei brofi ac mae'n rhaid wrth ymyriad wedi'i dargedu gan arbenigwyr yr ydym yn ei ddarparu mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd gyda'r tîm Anabledd Dysgu Cymunedol a leolir ar y cyd.
Rhaid i ni gydnabod na fydd yn bosib gwneud rhagor o welliannau arwyddocaol yng nghanran yr oedolion ifancach a gefnogir yn y gymuned heb ailfodelu modelau gwasanaeth cyfredol a dulliau gweithredu. Roeddem wedi bwriadu dechrau adolygiad sylweddol o wasanaethau anableddau dysgu yn ystod 2013/14. Fodd bynnag, penderfynwyd blaenoriaethu'r rhaglen trawsnewid ar gyfer Pobl Hŷn yn ystod 2013/14 a bellach rydym yn bwriadu dechrau ein hadolygiad o wasanaethau

anableddau dysgu yn ystod 2014/15. Mae adolygiad o gontractau ar gyfer gwasanaethau gofal ysbaid a chyfleoedd dydd wedi'i raglenni.

Rydym yn parhau i weld bod pobl – lle maent yn gymwys – yn cael ymateb da ac amserol i'w hanghenion a aseswyd. Mae ein perfformiad lleol yng nghyswllt teleofal yn faes o'n busnes sy'n haeddu sôn yn benodol amdano ac rydym, yn naturiol ddigon, yn falch ohono. Yn y graffiau isod dangosir y cynnydd yr ydym wedi'i wneud yng nghyswllt targedau gosod dros y tair blynedd diwethaf:



Rydym hefyd yn falch o fedru adrodd ar gynnydd yng nghyswllt rhai datblygiadau arwyddocaol dros y flwyddyn ddiwethaf:

- **Heneiddio'n dda** - Mae'r model hwn o ddarpariaeth gwasanaeth dydd i bobl hŷn yn parhau i esblygu'n wasanaeth cyffredinol sy'n cynnig cyfleoedd cymdeithasol a hamdden i bobl hŷn, gyda thros 500 yn mynychu ar draws yr Ynys. Bellach mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg gan bobl hŷn eu hunain ac yn ddiweddar maent wedi cael eu gwneud yn elusen. Mae'r model hwn am gael ei efelychu ar draws yr Ynys. Bydd yr agwedd gydgynhyrchiol i ddatblygiad cymunedol ym mro Seiriol yn adeiladu ar y profiad o ddatblygu'r model heneiddio'n dda. Mae darparu gwasanaethau dydd trwy'r model hwn hefyd yn fodd o arallgyfeirio pobl oddi wrth fod yn ddibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol statudol ac mae'n cyfrannu at y gostyngiad yn nifer y bobl hŷn a gefnogir yn uniongyrchol gan y Gwasanaethau Cymdeithasol (Gweler SCA/002a uchod).

- **Gwasanaethau Prydau Cymunedol** - Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi digomisiynu'n llwyddiannus wasanaethau prydau cymunedol a ddarperir yn uniongyrchol ac rydym wedi gweithio gyda phedwar darparwr a defnyddwyr y gwasanaeth i sicrhau y bydd y rhai hynny y mae arnynt angen pryd poeth yn parhau i gael y cyfryw wasanaeth ym mhob cymuned ar draws yr Ynys. Rydym wedi adolygu anghenion 152 o ddefnyddwyr y gwasanaeth ac wedi eu rhoi mewn cysylltiad gyda darparwyr lleol er mwyn sicrhau y bydd y rhai mewn angen yn parhau i gael y ddarpariaeth. Mae'r datblygiad hwn wedi cael croeso mawr gan ddefnyddwyr y gwasanaeth ac wedi arwain at arbedion effeithlonrwydd i'r Cyngor. Byddwn yn parhau i fonitro ansawdd y gwasanaethau prydau a gyflenwir trwy ddarparwyr cymunedol.

Roeddem yn hapus iawn gyda phroses trosglwyddo'r gwasanaeth. Rhoddwyd gwybod i ni trwy lythyr ac yna ymwelodd y Swyddog Trawsnewid â'r cartref; pryd y rhoes yr holl wybodaeth yr oedd ei hangen arnom i wneud penderfyniad ynghylch pa ddarparwr i ddewis.

**Dyfarniad**

Yn ystod 2013/14, gallodd y Gwasanaethau Oedolion adrodd ar berfformiad da yn y rhan fwyaf o feysydd ein busnes yng nghyswllt Ymateb i Angen. Mae ein perfformiad o ran oedi wrth drosglwyddo gofal (am resymau gofal cymdeithasol) yn braf o fewn ein targedau. Rydym wedi gweithio gyda'r trydydd sector a'r sectorau annibynnol a chymunedol er mwyn llunio darpariaeth gwasanaethau cefnogi yn y gymuned o fewn y farchnad gofal cymdeithasol leol. Rydym mewn lle da yn mynd ymlaen o gofio'r cynnydd sylweddol a wnaed yn 2013/14. Bellach mae angen i waith ailfodelu modelau gwasanaeth cyfredol barhau i ddangos cynnydd yn gyflym fel ein bod yn gweld canlyniadau da/gwych i oedolion. Bydd hyn yn golygu dod yn llai dibynnol ar wasanaethau preswyl tymor hir diangen, darparu mwy o Ailalluogi sy'n gyfyngedig gan amser a nifer gynyddol o oedolion yn cael eu cefnogi trwy asedau, gwasanaethau ac adnoddau cymunedol.

**Blaenoriaethau Allweddol ar gyfer Gweithredu**

**Mynediad at Wasanaethau**

- Cwblhau gwaith datblygu tudalennau gwybodaeth gofal cymdeithasol ar wefan y Cyngor mewn partneriaeth gyda Thîm corfforaethol Datblygu'r We a sicrhau bod yr holl daflenni gwybodaeth ar gael yn electronig.
- Parhau i ddatblygu ein trefniadau o ran Pwynt Mynediad Sengl ar y cyd lleol gyda'r Bwrdd Iechyd i wella gwaith cydgysylltu ymatebion gwasanaeth ar draws iechyd a gofal cymdeithasol;

**Asesu a Rheoli Achosion**

- Gweithredu trefniadau Fframwaith Asesiad Integredig newydd ar y cyd gydag Iechyd a rhoi hyfforddiant amlddisgyblaethol i staff iechyd a gofal cymdeithasol;
- Cwblhau'r adolygiad yr ydym wedi'i ddechrau o'n bwriadau comisiynu yng nghyswllt gwasanaethau eiriolaeth;
- Parhau i arfarnu effeithiolrwydd y model Derbyn o Ailalluogi;
- Datblygu cynllun gweithredu mewn ymateb i'r wybodaeth, y cyngor ac anghenion cefnogi defnyddwyr gwasanaeth y Taliadau Uniongyrchol yn sgil y gweithdy 'Eich Bywyd eich Dewis' a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2013;

**Darparu Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion**

- Cytuno ar fodel o ofal a chymhwysedd ar gyfer Tai Gofal Ychwanegol.
- Sicrhau caniatâd ffurfiol y Cyngor i fwrw ymlaen gyda thri chyfleuster tai gofal ychwanegol yn Amlwch, Llangefni a de'r Ynys.
- Ymgysylltu'n lleol ynghylch anghenion llety a gofal ar draws yr Ynys.
- Gweithredu'r cynllun gwaith mewn ymateb i'r argymhellion yn yr Adolygiad Cefnogi Pobl ynghylch y contract i ddarparu Gwasanaeth Warden mewn tai gwarchod.
- Datblygu'r agwedd creu Partneriaeth Gymunedol leol wrth ddarparu ymateb gwasanaeth ataliol yn y gymuned yn ardal Seiriol a datblygu agwedd ar gyfer Cydgysylltu Ardaloedd Lleol.
- Gweithredu'r bwriadau comisiynu ar gyfer dyfodol Gwasanaethau Cefnogi Pobl Hŷn yng nghyswllt Tai - bwriadau a nodir yn y Strategaeth Comisiynu Cefnogi Pobl.
- Dechrau adolygiad sylweddol o wasanaethau anabledd dysgu ar y cyd gyda phartneriaid.
- Dechrau gwaith ar y Prosiect Gwasanaethau Dementia a ffrydiau gwaith blaenoriaethu Cefnogaeth a gyfarwyddir gan Ddinasyddion dan y Rhaglen Trawsnewid.

## 4 Diogelu

Gwarchod ein pobl fwyaf bregus yw busnes craidd y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'n hanfodol bod gennym strwythurau a systemau effeithiol yn eu lle i warchod y rhai mwyaf bregus. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y strwythurau a'r systemau hyn yn gynaliadwy ac yn rhoi diogelu wrth galon gweithredu mewn partneriaeth ar draws y sector cyhoeddus ac, yn wir, y sector gofal yn gyffredinol.


**Beth wnaethom addo'i wneud?**

- Cryfhau mwy ar arfer diogelu yn lleol mewn fframwaith cynllun gwella – yn cynnwys asesiadau risg, cynlluniau gwarchod, profiad defnyddwyr a chysylltiadau â Diogelwch Cymunedol;
- Ystyried cyfleoedd sydd ar gael i gryfhau capasiti strategol mewn diogelu;
- Parhau i gydymffurfio'n llwyr â'r polisi/gweithdrefn Diogelu Corfforaethol;
- Gwreiddio'n llwyr archwiliadau o ffeiliau achos yng nghyswllt arferion diogelu yn fframwaith sicrhau ansawdd ein gwasanaeth sy'n esblygu;
- Parhau i ddatblygu Bwrdd Diogelu Cysgodol Gogledd-Orllewin Cymru;
- Ystyried opsiynau ar gyfer gwell gweithio'n rhanbarthol (Bwrdd Diogelu Oedolion rhanbarthol a Chanolfan Gyfeirio Diogelu arfaethedig Gogledd Cymru);
- Adolygu ein protocol lleol a chyfredol, Trosglwyddo Pryderon yn Uwch.


**Sut wnaethom ni?**

Rydym yn parhau i weithredu'n llwyr Weithdrefnau Gwarchod Oedolion Dros Dro Cymru Gyfan. Mae'r cyfraddau cyfeirio ar gyfer gwarchod oedolion wedi codi dros y flwyddyn ddiwethaf (daeth 148 o gyfeiriadau i law yn 2013/14 o gymharu ag 134 yn 2012/13).

Yn y graff isod dangosir patrwm y cyfeiriadau dros y tair blynedd diwethaf. Rydym wedi darparu nifer o gyrsiau POVA Lefel 2 a diogelu cyffredinol yn ystod y flwyddyn ac aeth nifer dda o staff ar draws y sector Gofal Cymdeithasol iddynt.




Yn ystod y flwyddyn gwrthododd 10 allan o 90 dioddefwr honedig y camau a argymhellwyd gan ein trefniadau diogelu. Adlewyrchir hyn yn nata ein perfformiad:




| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 |
|---|---|---|---|---|
| Môn | 89.8 | 96.74 | 92.78 | 89.04 |
| Cymru | 86.3 | 88 | 91.84 | |
| Targed Môn | 85 | 85 | 97 | 95 |

Yn dilyn comisiynu adolygiad rheoli annibynnol o’r broses gan arwain at gau cartref yn 2012/13, cynhaliwyd digwyddiad amlddisgyblaethol i roi sylw i’r canfyddiadau a’r argymhellion yn yr adroddiad rheoli annibynnol. Rhoddwyd ar waith Gynllun Gweithredu gyda phartneriaid i roi sylw i’r gwersi a ddysgwyd. Rydym hefyd wedi cwblhau adolygiad o’n Polisi Trosglwyddo Pryderon yn Uwch gyda phartneriaid yn ystod chwarter cyntaf 2013/14.

Yn 2013/14, rydym wedi parhau i gryfhau a datblygu Bwrdd Diogelu Gogledd-Orllewin Cymru ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd.

Yn ystod y flwyddyn, daeth yr Awdurdod Lleol â chyfrifoldeb diogelu plant ac oedolion ynghyd dan un pennaeth gwasanaeth. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau bod ein hymatebion i anghenion pobl fregus yn gyson ac yn gadarn a bod ein harfer o’r safon uchaf bosib. Y bwriad yw sefydlu Gwasanaeth Diogelu Pobl ar draws gwasanaethau Plant ac Oedolion. Y bwriad yw bod y gwasanaeth hwn yn weithredol erbyn hydref 2014. Mae’r awdurdod wedi rhoi yn ei le Bolisi Diogelu’r Cyngor ac mae Cynllun Gweithredu Corfforaethol cysylltiedig wedi’i fabwysiadu i sicrhau y gweithredir y polisi diogelwch yn effeithiol ac yn gyson ar draws yr Awdurdod Lleol.

Rydym wedi sicrhau bod trefniadau recriwtio diogel ac effeithiol a pholisi chwythu’r chwiban yn eu lle ar gyfer yr holl weithwyr, aelodau etholedig a darparwyr gwasanaeth. Mae’r Polisi Cyflwyno Corfforaethol yn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o’u cyfrifoldebau yng nghyswllt diogelu plant ac oedolion.

Mae hyfforddiant wedi’i gomisiynu ar gyfer yr holl Benaethiaid Gwasanaeth, Deiliaid Portffolio a Deiliaid Portffolio Cysgodol, Aelodau Allweddol eraill a swyddogion diogelu dynodedig ym mhob gwasanaeth fel eu bod yn cael cefnogaeth i ddeall eu cyfrifoldebau diogelu a bod yn gyfrifol amdanynt. Comisiynwyd hyfforddiant hefyd ar gyfer yr holl Aelodau a chaiff ei roi yn ystod 2014.

Mae’r Uned Datblygu’r Gweithlu’n parhau i ddarparu rhaglen sy’n cynnwys cyfleoedd hyfforddi a dysgu sy’n gysylltiedig â diogelu oedolion, yn cynnwys:

- POVA Lefel 1 i 5
- Diogelu Cyffredinol
- Diogelu wedi’i dargedu
- Diogelu i Oedolion/Gwarchod Oedolion
- Asesu Risg o Niwed Sylweddol

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi adolygu ein trefniadau mewnol i sicrhau ymatebion effeithiol wrth brosesu cyfeiriadau a hawliau yng nghyswllt trefniadau diogelu rhag colli rhyddid (DOLS). Rydym wedi sicrhau bod sesiynau hyfforddi Galluedd Meddyliol a DOLS wedi’u rhoi i staff ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol fel rhan o raglen hyfforddi a datblygu parhaus.

Yn sgil dyfarniad Goruchaf Lys P v Cyngor Caer a Gorllewin Swydd Gaer a P and Q arall v Cyngor Sir Surrey, bydd raid i ni rŵan sgopio goblygiadau’r penderfyniad hwn ar nifer defnyddwyr y gwasanaeth mewn gwahanol leoliadau gofal a’n capasiti i gwrdd â’r galwadau ychwanegol ar wasanaethau.

**Dyfarniad**

Rydym wedi parhau i wneud cynnydd sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf wrth ddatblygu arferion gwarchod lleol a diogelu yn ogystal â’n datblygiadau isranbarthol strategaethol. Rydym wedi parhau gyda’n rhaglen o godi ymwybyddiaeth a rhoi hyfforddiant ar Warchod Oedolion i staff ar draws y sector gofal cymdeithasol. Rydym mewn lle da i chwarae rhan lawn yn y fframwaith diogelu rhanbarthol sy’n esblygu yn ogystal â pharatoi ar gyfer newid sylweddol yn y fframwaith

cyfreithiol sy'n cynnal diogelu a gwarchod oedolion. Wrth gyfuno cyfrifoldebau diogelu plant ac oedolion dan un pennaeth gwasanaeth, ceir cyfleoedd i sicrhau bod ein hymatebion i anghenion pobl fregus yn gyson ac yn gadarn a bod ein harfer o'r safon uchaf posib.

**Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu**

- Cynnal archwiliadau o ffeiliau achos yn rheolaidd yng nghyswllt arferion diogelu yn fframwaith sicrhau ansawdd ein gwasanaeth sy'n esblygu;

Adolygu a chryfhau ein trefniadau ar gyfer ymateb i geisiadau am hawliau yng nghyswllt Diogelu rhag Colli Rhyddid, yn enwedig felly ar gyfer y bobl fregus hynny nad oes ganddynt y gallu na chefnogaeth teulu mewn cartrefi gofal a chyfleusterau byw gyda chefnogaeth.

## 5 Comisiynu a Phartneriaeth

Yn yr adran hon ceir disgrifiad o'n trefniadau ar gyfer sicrhau bod modd i oedolion a'u gofalwyr/teuluoedd allu gael mynediad at ystod o wasanaethau gofal a chefnogi effeithiol a fforddiadwy. Rhaid i drefniadau comisiynu sicrhau bod y gwasanaethau gofal a chefnogi hyn yn cael eu darparu ar y cyd gyda'n partneriaid yn y sectorau statudol, annibynnol ac yn y trydydd sector o fewn yr adnoddau sydd ar gael i ni fel Gwasanaeth. Er bod camau wedi'u cymryd yn ystod y flwyddyn i ddatblygu ac ymateb i flaenoriaethau uniongyrchol, mae yna angen cydnabyddedig i adolygu a chryfhau mwy ar y trefniadau. Bydd raid cyflawni hyn trwy ail-flaenoriaethu capasiti yn y gwasanaeth cyfan a bydd yn rhan o'r adolygiad adrannol i'w gynnal erbyn hydref 2014.

**Beth wnaethom addo'i wneud?**

- Parhau yn gyflym i drawsnewid gwaith ailfodelu gwasanaethau pobl hŷn er mwyn rhoi mwy o gefnogaeth yn y gymuned, atal dirywiad mewn iechyd a lles, gostwng dibyniaeth ar wasanaethau preswyl tymor hir a gostwng nifer y bobl sy'n mynd i'r ysbyty heb fod rhaid;
- Cynnal adolygiad cynhwysfawr o wasanaethau anableddau dysgu;
- Datblygu a chryfhau mwy ar ein trefniadau lleol ar gyfer ymgysylltu â defnyddwyr y gwasanaeth, gofalwyr a dinasyddion o fewn fframwaith corfforaethol sy'n esblygu;
- Mewn partneriaeth gyda Chyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd, arfarnu ein trefniadau cyfredol o ran gwaith cymdeithasol yn yr ysbyty;
- Adolygu ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd lywodraethu a chyfrifoldebau sy'n cynnal gwasanaethau iechyd meddwl o fewn ethos o welliant parhaus;
- Parhau i ddatblygu ein partneriaethau gyda'r Sector Annibynnol a'r Trydydd Sector;
- Cryfhau a datblygu mwy ar ein perthynas gydag Iechyd trwy sefydlu'r Bwrdd Darparu Integredig arfaethedig ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

**Sut wnaethom ni?**

**Trawsnewid ac Ailfodelu Gwasanaethau Pobl Hŷn**

Rydym wedi gwneud cryn gynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf wrth ddatblygu nifer o ffrydiau gwaith a flaenoriaethwyd gan y Bwrdd Trawsnewid Oedolion Hŷn a sefydlwyd ym mis Mawrth 2013 i arwain ar y Rhaglen Drawsnewid ar gyfer gwasanaethau Pobl Hŷn. Comisiynwyd gennym asesiad cynhwysfawr o angen trwy Bartneriaeth Cefnogi Tai a fyddai'n fodd i ddatblygu dogfen o fwriadau'r gwasanaeth a ryddhawyd ar gyfer ymgynghoriad yn ystod chwarter cyntaf 2014. Mae'r asesiad o anghenion hefyd wedi arfarnu bod angen gwahanol fodelau o lety a chefnogaeth i ddiwallu anghenion poblogaeth sy'n mynd yn hŷn dros yr ugain mlynedd nesaf.

Dan y Rhaglen Drawsnewid, sefydlwyd trefniadau rheoli Prosiect ffurfiol er mwyn gyrru ymlaen

- **Ailalluogi** – Ailgyflwyno Model Derbyn o wasanaeth Ailalluogi ar gyfer yr holl gyfeiriadau newydd am wasanaeth gofal cartref er mwyn cael gymaint o annibyniaeth a diogelwch trwy gefnogaeth ddwys am hyd at chwe wythnos er mwyn gostwng dibyniaeth ar fwy o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol tymor hir. Mae modd rhoi cefnogaeth ailalluogi un ai yn y cartref neu mewn gwelyau Ailalluogi dynodedig mewn cartrefi preswyl. Rydym wedi penderfynu cadw'r gwasanaeth ailalluogi'n fewnol ar hyn o bryd ac i weithwyr Cefnogi Ailalluogi a hyfforddwyd gan y Cyngor ei ddarparu.

- **Llety a Gofal** – Datblygu Prosiect Llety a Chefnogaeth er mwyn adnabod safleoedd datblygu gofal ychwanegol posib yn Amlwch, Llangefni a de'r Ynys ac edrych ar ddiddordeb Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wrth ddatblygu'r cyfleusterau hyn. Mae'r Prosiect hwn hefyd yn edrych ar ddiddordeb mewn prynu cartref preswyl i bobl hŷn yn sgil yr ymgynghoriad a'r ymgysylltu a gafwyd yn 2012/13 ac a barhaodd gyda staff, preswylwyr a'r gymuned leol dros y deuddeg mis diwethaf wrth i ni gadarnhau bwriadau ein gwasanaeth.

- **Broceriaeth** – Trefniadau Broceriaeth a sefydlwyd ym mis Medi 2013 fel pwynt cyswllt sengl i drefnu a phrynu pecynnau gofal cartref oddi wrth naw asiantaeth gofal cartref annibynnol sy'n gweithredu ym Môn. Mae hyn wedi bod o gymorth i ni gasglu gwybodaeth a chael dealltwriaeth well o'r farchnad gofal cartref leol a datblygu sgiliau darparwyr a chael mwy ohonynt er mwyn ymateb i ofynion gwasanaeth ar draws y chwe bro ddaearyddol. Rydym hefyd wedi cyflymu'r gwaith o allanoli'r ddarpariaeth gofal cartref yn y tymor hir ac, erbyn mis Mawrth 2014, amcangyfrifwn y bydd 53% o gyfanswm nifer yr oriau cynnal a chadw tymor hir bellach yn cael eu prynu oddi wrth ddarparwyr gofal cartref annibynnol ar gost uned is er mwyn gwneud arbedion effeithlonrwydd.

- **Rhestr Brisiau** – Mae casglu gwybodaeth am faint o ddarparwyr sector annibynnol lleol sydd ar gael ynghyd â dadansoddi costau uniongyrchol y ddarpariaeth gwasanaeth wedi bod yn fodd i adolygu cost uned yr awr ar gyfer darparu gwasanaethau gofal cartref. Gwneir hyn er mwyn sicrhau marchnad gofal cymdeithas leol a chynaliadwy wrth i ni barhau i allanoli darpariaeth gofal Cartref yn ystod 2014/15.

- **Creu Cymunedau Lleol** - Rydym wedi gweithio gyda Medrwn Môn (sefydliad ymbarél Trydydd Sector yr Ynys) a sefydliadau'r trydydd sector sydd ynghlwm yng ngwaith darparu'r Prosiect Lleisiau Lleol i roi hyfforddiant ar Gydgynhyrchu. Cynhaliwyd dau weithdy ym misoedd Mehefin a Gorffennaf 2013. Rydym hefyd wedi gweithio gyda Lleisiau Lleol wrth ymgynghori ac ymgysylltu gyda'r gymuned leol yn ardal Biwmares. Gwneir hyn er mwyn edrych ar opsiynau i ddatblygu Partneriaeth gymunedol o ran llunio modelau cyd-gynhyrchu o ddarparu gwasanaeth yn ardal Seiriol. Mae hyn wedi cynnwys ymgysylltu gyda Chynghorau Cymuned a Thref.

- **Gofal Ychwanegol Penucheldre (Caergybi)** - Wedi i'r cyfleuster tai gofal ychwanegol hwn agor yng Nghaergybi ym mis Hydref 2012, comisiynodd Tai Eryri a Chyngor Sir Ynys Môn arfarniad annibynnol i adnabod y gwersi i'w tynnu o ddatblygu, comisiynu, a gweithredu'r cynllun newydd. Bydd yr hyn a ddysgir yn gorfforaethol oddi wrth y datblygiad penodol hwn yn cynorthwyo'r cyngor wrth ddatblygu ei ddull gweithredu strategol i ddarparu llety a gofal yn y dyfodol i bobl hŷn dan y Rhaglen Trawsnewid. Bydd hyn yn cael effaith ar ddarparu gofal cofrestredig, patrymau o ofal a chefnogaeth yn y dyfodol ac ar ddatblygu opsiynau newydd ar gyfer llety, gan gynnwys mwy o ddatblygiadau Gofal Ychwanegol. Dymuna'r Cyngor Sir sicrhau bod cynllun Penucheldre yn gwneud ei gyfraniad mwyaf i ddarparu llety, gofal a chefnogaeth i bobl hŷn yn yr ardal honno o Fôn. Mae hefyd yn dymuno sicrhau bod y profiad o ddatblygu, comisiynu a gweithredu'r cynllun yn fodd i ddarparu ei ddull gweithredu strategol newydd ar draws yr Ynys.

Casglodd yr adroddiad arfarnu annibynnol:

Bod pawb yr ymgynghorwyd â nhw yn cadarnhau bod yr hyn sydd eisoes wedi'i gyflawni ym Mhenucheldre yn newid sylweddol mewn darpariaeth i

bobl hŷn ym Môn.

Mynegodd staff Tai Eryri falchder o fod yn gysylltiedig gyda'r datblygiad. Mae swyddogion yr Awdurdod Lleol yn ei gefnogi gan ei fod yn cynrychioli arfer gorau ac amgylchedd a naws cyffredinol sy'n crisialu dyheadau ar gyfer darpariaeth i'r dyfodol ym Môn. Yr hyn sydd bwysicaf yw bod y preswylwyr a'u teuluoedd yn siarad am y cynllun gan ddweud ei fod y tu draw i bopeth yr oeddynt wedi'i ddisgwyl. Roeddynt yn unfrydol bod hwn yn lle da i fyw ynddo.

Soniodd nifer o breswylwyr am y ffyrdd yr oedd symud i'r Penucheldre newydd wedi trawsnewid eu bywyd. Roedd nifer o storïau o fod yn weddw, yna bod ar wahân, yn unig ac yn isel eu hysbryd ac yna bod symud i'r cynllun wedi trawsnewid pethau. Soniodd nifer am y cydbwysedd rhwng y preifatrwydd a'r cynhwysiad yr oeddynt wedi'i gael yno. Roedd modd iddynt gael preifatrwydd yn eu fflat eu hunain os oeddynt yn dymuno hynny ond bod cwmni difyr i'w gael wrth fynd i chwilio amdano.

**Adolygu'r Gwasanaethau Anabledd Dysgu**

Er gwaethaf ein bwriadau i ddechrau adolygu'r Gwasanaethau Anabledd Dysgu yn ystod 2013/14, penderfynodd y Bwrdd Trawsnewid Gwasanaethau Oedolion y byddid yn rhoi blaenoriaeth ac adnoddau i yrru ymlaen brosiectau yng nghyswllt ailfodelu gwasanaethau Pobl Hŷn fel y disgrifir uchod. Bellach ein bwriad yw dechrau adolygu'r gwasanaethau Anabledd Dysgu yn 2014/15 dan faner y Bwrdd Trawsnewid ac mae adolygiad o gontractau sylweddol i ddarparu gwasanaethau ysbaid a dydd wedi'i drefnu ar gyfer y deuddeg mis nesaf.

**Gwasanaethau Cefnogi sy'n gysylltiedig â Thai**

Mae'r Tîm Cefnogi Pobl wedi cynnal adolygiad o'r contract i ddarparu gwasanaeth warden mewn tai gwarchod a gwnaed nifer o argymhellion i wella'r gwasanaeth hwn.

Mae'r Tîm Cefnogi Pobl wedi datblygu dull gweithredu cydgynhyrchiol 'Ochr Yn Ochr' yng nghyswllt datblygu bwriadau comisiynu ar gyfer gwasanaethau cefnogi sy'n gysylltiedig â thai ac a nodir yn y Strategaeth Gomisiynu ar gyfer 2014/17. Mae'r dull gweithredu hwn yn cynnwys datblygu model prif ganolfan a lloerennau ar gyfer darparu gwasanaethau cefnogi a llety yn seiliedig o gwmpas canolfannau cymunedol ym mhob bro ddaearyddol ar yr Ynys.

**Ymgysylltu â Defnyddwyr y Gwasanaeth a Gofalwyr**

Rydym wedi datblygu gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu effeithiol ac ystyrlon â defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr mewn nifer o feysydd gwasanaeth dros y deuddeg mis diwethaf. Isod ceir esiamplau nodedig y mae'n werth eu crybwyll:

- **Dogfen Bwriadau'r Gwasanaeth** – Ymgynghori ac ymgysylltu parhaus yng nghyswllt datblygu bwriadau ein gwasanaeth wrth adolygu angen yr Awdurdod i barhau i ddarparu gofal preswyl yn ardal Caergybi a datblygiad y model gofal ychwanegol mewn partneriaeth â Chymdeithas Tai Eryri.

- Trefnu'r gweithdy 'Eich Llais Eich Dewis' gyda defnyddwyr y gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol ym mis Rhagfyr 2013 gyda chefnogaeth y Prosiect Lleisiau Lleol. Mae hyn wedi arwain at gynhyrchu adroddiad adborth gydag argymhellion ar gyfer gwella a chryfhau gwaith darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i hyrwyddo cynnydd yn nifer y bobl fydd yn cymryd Taliadau Uniongyrchol (44 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn ystod 2013/14 o gymharu â 33 yn ystod 2012/13).

- Ymgynghori ac ymgysylltu â Gofalwyr wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu a'r strategaeth gofalwyr lleol ar gyfer y tair blynedd nesaf.

- Ymgynghori ac ymgysylltu â defnyddwyr y gwasanaeth wrth ddatblygu'r dull gweithredu cydgynhyrchiol 'Ochr Yn Ochr' i ddatblygu'r Strategaeth Comisiynu Cefnogi Pobl (2014-17) y cyfeirir ati uchod.

**Trefniadau Gwaith Cymdeithasol yn yr Ysbyty**

Mae gennym bartneriaeth sy'n mynd yn ôl gryn amser gyda Chyngor Gwynedd i ddarparu Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol yn yr Ysbyty, a hynny yn yr ysbyty achosion llym ym Mangor. Ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, rydym wedi cwblhau ein hadolygiad o'r gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol yn yr Ysbyty yn Ysbyty Gwynedd ac rydym wedi adolygu'r trefniadau ar gyfer cofnodi a dilysu achosion o Oedi wrth drosglwyddo gofal.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl**

Rydym wedi dechrau trafodaethau gyda'r Bwrdd Iechyd i ffurfioli ein trefniadau ar y cyd lleol sy'n mynd yn ôl flynyddoedd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol. Mae hyn yn cynnwys chwilio am yr angen am Gytundeb Adran 33 ffurfiol neu am Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Mae gennym Gynllun Gwella yn ei le ac y cytunwyd arno ar y cyd i ddarparu gwasanaethau Iechyd Meddwl cymunedol yr ydym yn eu hadolygu'n chwarterol trwy drefniadau rheoli gwasanaethau lleol. Rydym hefyd yn chwarae rôl weithgar yn Rhaglen Gydweithredol Iechyd Meddwl Gogledd Cymru sy'n cynnwys y chwe Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd.

**Partneriaethau**

- Rydym wedi ailsefydlu'r Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn datblygu Cynllun Gweithredu a Strategaeth y Gofalwyr ar gyfer y tair blynedd nesaf.

- Gyda chefnogaeth yr adnodd a ddarperir gan Brosiect y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd,'Dylunio Fframweithiau Gwella Cydweithredol', rydym wedi sefydlu Bwrdd Darparu Integredig ar y Cyd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym Môn. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Bwrdd hwn ym mis Mawrth 2014 i roi arweinyddiaeth a darparu trefniadau llywodraethu cadarnach i raglen waith sy'n rhoi blaenoriaeth i gael mwy o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Byddir yn cytuno ar gynllun gweithredu ar y cyd erbyn hydref 2014.

- Rydym wedi gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol eraill a'r Bwrdd Iechyd ar draws Gogledd Cymru i ddatblygu Datganiad o Fwriad a Chynllun Gweithredu (i Bobl Hŷn) yng nghyswllt datblygu modelau gwasanaeth mwy integredig dros y deuddeg mis diwethaf. Cyflwynwyd y Datganiad o Fwriad a'r Cynllun Gweithredu i Lywodraeth Cymru erbyn 31.03.14.

- Rydym wedi parhau i ymgynghori'n agos gyda'r trydydd sector a gweithio mewn partneriaeth gyda nhw trwy Bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol sy'n cyfarfod yn chwarterol. Dros y ddeuddeg mis diwethaf, rydym wedi cynnal adolygiad o fuddiannau'r Gwasanaethau Cymdeithasol mewn ystod o Gytundebau Lefel Gwasanaeth hanesyddol gyda darparwyr yn y trydydd sector er mwyn cadarnhau bod y gwasanaethau hyn yn dal i ddarparu yn erbyn perfformiad disgwyliedig a'u bod yn cydymffurfio gyda'n bwriadau comisiynu a gwasanaeth sy'n esblygu ar gyfer y tair blynedd nesaf. Rydym yn cydnabod rôl y trydydd sector yn lleol fel partner strategol. Rydym wedi datblygu trefniadau llywodraethu i adlewyrchu'r rôl bwysig hon - e.e. rôl Medrwn Môn ar bartneriaethau allweddol – y Bwrdd Gwasanaeth Lleol a chyfraniad y sector i ffrydiau gwaith allweddol o amgylch cynhwysiad ariannol er enghraifft. Rydym hefyd wedi datblygu, trwy Bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol, gompact lleol a chodau ymarfer cysylltiedig ar ariannu a gwirfoddoli y bydd y pwyllgor, o bosib, yn eu diweddaru ymhellach yn y man.

- **Storfeydd Offer Cymunedol_**– Partneriaeth ar draws tri awdurdod lleol (Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy) a'r Bwrdd Iechyd sydd wedi uno ei waith comisiynu a darparu offer yw hwn. Mae Cytundeb Adran 33 ffurfiol a diwygiedig wedi bod yn ganolbwynt ar gyfer gwelliant yn ystod 2013/14 ac rydym wedi gweld gwelliant yn yr amser a gymerwyd i ddarparu offer.

- Yn ystod 2013/14, rydym wedi sefydlu Fforwm Gofal Cartref Annibynnol gyda darparwyr er mwyn parhau gyda'n rhaglen waith yng nghyswllt datblygu partneriaeth gydweithredol er mwyn cefnogi marchnad gofal cymdeithasol leol a chynaliadwy i ymateb i alwadau'r gwasanaeth. Bydd y Fforwm hwn hefyd yn darparu arf i rannu gwybodaeth am ein bwriadau comisiynu a bwriadau ein gwasanaeth dan y Rhaglen Trawsnewid.

- Tuag at ddiwedd 2013/14, bu i ni orffen fersiwn Ynys Môn o Gytundeb Gofal Cartref Gogledd Cymru ac mae hon wedi'i llofnodi gan yr holl ddarparwyr yn y sector annibynnol. Rydym wedi parhau i weithio gyda'r awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd wrth adolygu gwaith gosod ffioedd cartrefi nyrsio a phreswyl ar gyfer 2014/15 trwy ddefnyddio Methodoleg Ffi Gogledd Cymru. Rydym wedi datgomisiynu tri chontract i roi cefnogaeth hyfforddi a chyflogaeth yn sgil dirwyn i ben y prosiect Taith i Waith a ariannwyd gan Ewrop, yn 2014.

**Dyfarniad**

Rydym wedi parhau i wneud cynnydd sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf wrth fwrw ymlaen gyda nifer o ffrydiau gwaith a flaenoriaethwyd dan y Rhaglen Trawsnewid i oedolion hŷn. Rydym wedi datblygu canolbwynt cliriach ynghylch ein bwriadau i'r dyfodol o ran comisiynu a'r gwasanaeth. Rydym wedi datblygu trefniadau ymgynghori ac ymgysylltu effeithiol mewn nifer o feysydd gwasanaeth y gallwn barhau i adeiladu arnynt dros y deuddeg mis nesaf. Rydym wedi gosod cyfeiriad clir ar gyfer parhau i ddatblygu gwasanaethau i ddiwallu anghenion gofalwyr trwy Gynllun Gweithredu a Strategaeth y Gofalwyr. Rydym hefyd wedi gosod bwriadau comisiynu clir a Chynllun Gweithredu ar gyfer datblygu model 'prif ganolfan a lloerennau' i ddarparu gwasanaethau cefnogi a gofal sy'n gysylltiedig â thai ar draws pob un o'r chwe bro ddaearyddol wrth i ni barhau i ddatblygu modelau llety a chefnogi.

Yn ystod hanner cyntaf 2014/15, bydd raid i ni roi blaenoriaeth i ailstrwythuro'r Adran er mwyn cryfhau trefniadau comisiynu a chefnogi busnes. Fel hyn bydd modd sicrhau bod digon o bobl i ddarparu swyddogaethau craidd, canolog megis comisiynu, gweithgaredd hwyluso'r farchnad a monitro cydymffurfiaeth gyda chontractau ar draws ystod eang o wasanaethau a darparwyr. Bydd raid i ni hefyd adolygu'r capasiti i ymdrin â'r galw cynyddol am geisiadau yng nghyswllt Rhyddid Gwybodaeth a Mynediad at Ffeiliau.

Fel y disgrifiwyd, mae ein hymdrechion i baratoi ar gyfer trawsnewid a moderneiddio gwasanaethau wedi canolbwyntio ar wasanaethau pobl hŷn yn ystod 2013/14 ac rydym yn hyderus ein bod mewn lle llawer gwell wrth i ni ymdrechu i barhau i ailfodelu gwasanaethau yn ystod 2014/15. Rhaid i ni hefyd ddechrau gyda'n hadolygiad sylweddol cynlluniedig o wasanaethau anabledd dysgu yn ystod 2014/15 a fydd o fudd i strategaeth gomisiynu ddiwygiedig a Chynllun Darparu Gwasanaeth ar gyfer y tymor canolig.

Rydym wedi gwneud cryn gynnydd i gryfhau trefniadau llywodraethu cadarn gyda'r Bwrdd Iechyd a bydd sefydlu'r Bwrdd Darparu Integredig i Ynys Môn yn rhoi'r hwb i ddatblygu mwy o fodelau integredig o ddarparu gwasanaeth yn y dyfodol.

**Blaenoriaethau Allweddol ar gyfer 2014/15**

- Parhau i ddatblygu bwriadau'r gwasanaeth dan y Prosiect Gofal a Llety Gofal Uwch dan y Rhaglen Trawsnewid i Bobl Hŷn, cadarnhau bwriadau comisiynu yng nghyswllt Cartref Preswyl Garreglwyd;
- Dechrau gweithio ar adolygiad cynhwysfawr o wasanaethau anableddau dysgu;
- Sefydlu trefniadau Rheoli Prosiectau ffurfiol i gefnogi gwaith datblygu gwasanaethau Cefnogi Dementia dan y Rhaglen Trawsnewid;
- Datblygu trefniadau Rheoli Prosiectau ffurfiol i gefnogi gwaith datblygu ffrwd gwaith Cefnogaeth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion dan y Rhaglen Trawsnewid;
- Cytuno ar fersiwn derfynol y Strategaeth Gofalwyr a dechrau gweithredu'r Cynllun Gwaith tair blynedd.
- Gweithredu'r Cytundeb Fframwaith Cyn-leoliad Preswyl Gogledd Cymru gyda darparwyr gofal nyrsio a phreswyl ym Môn ac adfywio'r fforwm darparu Gofal Nyrsio a Phreswyl lleol.
- Rhoi ar waith y Cynllun Gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion yn yr adolygiad Cefnogi Pobl o wasanaethau warden mewn cynlluniau tai gwarchod.
- Datblygu rhaglen o flaenoriaethau ar gyfer darparu mwy o wasanaethau integredig gydag Iechyd dan faner y Bwrdd Darparu Integredig ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

## 6 Rheoli Adnoddau

Yn y rhan hon o'r adroddiad ceir disgrifiad o'n trefniadau i sicrhau bod gennym weithlu sefydlog sydd wedi'u goruchwylio, eu rheoli a'u cefnogi i wneud eu gwaith yn effeithiol. Yma hefyd, disgrifir sut yr ydym yn cynllunio ac yn defnyddio ein hadnoddau ariannol i sicrhau sefydlogrwydd ariannol ar gyfer y Gwasanaeth o fewn hinsawdd heriol i'r Llywodraeth Leol.

**Beth wnaethom addo'i wneud?**

- Parhau i gryfhau arferion cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn y Gwasanaeth;
- Cwrdd â'r holl dargedau cymhwyso cenedlaethol perthnasol, mandadol a phenodol;
- Parhau i sicrhau cyfleoedd hyfforddi a datblygu ystyrlon ar draws gweithlu, defnyddwyr a gofalwyr gofal cymdeithasol yn unol â blaenoriaethau Cynllun Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol y Sir;
- Parhau i weithio gyda phartneriaid i ddarparu cyfleoedd hyfforddi Fframwaith Credyd a Chymwysterau (QCF) er mwyn cryfhau mwy ar weithlu gofal cymdeithasol cymwys;
- Gweithredu'n llwyr y Rhaglen Gyfuno sydd newydd ei lansio ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol sydd newydd gymhwyso dan faner y Fframwaith Cyngor Gofal ar gyfer Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus i Weithwyr Cymdeithasol yng Nghymru (CPEL);
- Parhau i weithio ar y cyd a chynnal ein partneriaethau ffurfiol (datblygu'r gweithlu);
- Datblygu strategaeth Gweithlu ar gyfer gwasanaethau darparu Gofal Cymdeithasol i Oedolion;
- Sicrhau peirianwaith cadarn er mwyn rheoli absenoldeb/salwch;
- Parhau i foderneiddio gan sicrhau y gwneir y defnydd gorau posib o adnoddau a chyfrannu at raglen effeithlonrwydd y Cyngor (targed ariannol y gwasanaeth o £640k yn ystod 2013/14);
- Mabwysiadu strategaeth ariannol tymor canolig ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion gan ostwng dibyniaeth ar leoliadau nyrsio/preswyl tymor hir yn ogystal â rhoi sylw i bwysau ariannol a adnabuwyd.

**Beth wnaethom ni?**

Mae gweithlu Môn yn parhau i fod ein hased mwyaf a'n hased mwyaf gwerthfawr wrth sicrhau y darperir gwasanaethau gofal cymdeithasol o ansawdd. Yn 2013/14, cofnodwyd gennym 37 achos o ganmoliaeth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth a'u gofalwyr/teuluoedd. At ei gilydd, roeddynt yn canmol sgiliau staff neu eu hagwedd ofalgar at eu gwaith. Dyma un enghraifft:

*"Nid oes dim yn ormod o drafferth i'r staff sy'n trin y preswylwyr fel pe baent yn deulu.Maent yn ymgorffori'r gwerthoedd y dylem ni eu cynnig i bobl mewn cymdeithas… sef gweld gwerth mewn unigolyn, grymuso a chyfathrebu."*

Perthynas Defnyddiwr y Gwasanaeth, mis Ionawr 2014

Rydym o'r farn bod cyfathrebu amserol a rhannu gwybodaeth gyda'n gweithlu yn rhan bwysig o reoli'n Gwasanaeth ac o'n diwylliant sy'n esblygu. Rydym wedi cynnal cyfres o sesiynau rhannu gwybodaeth a chyfarfodydd tîm rheolaidd ar draws sbectrwm gwasanaethau oedolion yn ystod y flwyddyn er mwyn rhannu gwybodaeth ac annog deialog gyda chydweithwyr. Mae'r sesiynau hyn wedi cael croeso mawr a bu llawer ynddynt. Roeddynt yn cynnwys pynciau megis y Gwasanaeth a chyfyngiadau a thargedau cyllidebol y Cyngor, perfformiad diwedd blwyddyn, ein gweledigaeth a'n cynlluniau trawsnewid i bobl hŷn. Mae'r sesiynau hyn yn ategu'r bwletin diweddaru dros yr e-bost i holl staff y Gwasanaeth, yn enwedig felly yng nghyswllt cynnydd gyda phrosiectau dan y Rhaglen Trawsnewid.

Wrth gyflwyno trefniadau Broceriaeth ar gyfer prynu gwasanaethau gofal cartref oddi wrth ddarparwyr annibynnol, rydym wedi datblygu rôl y Swyddog Broceriaeth yn y Gwasanaeth Oedolion a bydd raid datblygu hyn ymhellach yn ystod 2014/15 wrth i ni edrych i mewn i gyfleoedd i ymestyn cyfraniad y swyddogaeth newydd hon yn y gwasanaeth.

**Hyfforddiant a Datblygu'r Gweithlu**

Yn sgil ailstrwythuro swyddogaethau Pennaeth y Gwasanaeth yn gorfforaethol yn y cyngor, trosglwyddwyd Uned Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol i'r Adain Gorfforaethol Adnoddau Dynol a Hyfforddiant. Rydym wedi parhau i gynnal cysylltiadau cyfathrebu gyda'r Uned Datblygu'r Gweithlu trwy wahodd y Swyddog Hyfforddi Oedolion i fynd i gyfarfodydd Rheoli'r Gwasanaeth yn fisol.


Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cynnal cyfres o sesiynau Datblygu Rheolaeth mewnol ar ystod o bynciau ar gyfer rheolwyr canol a rheng flaen o fewn Tai a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r sesiynau hyn wedi canolbwyntio ar ddatblygu tîm a gwasanaeth. Cawsant groeso mawr gan staff. Ein bwriad yw parhau i ddarparu Hyfforddiant i Reolwyr dan Raglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn ystod 2014/15.

Rydym wedi parhau i weithio gyda phartneriaid trwy "Canolfan Anterth" i roi cyfleoedd i staff ar draws y Sector Gofal Cymdeithasol gael hyfforddiant a chymwysterau Fframwaith Cymwysterau ac Achrediadau (QCF). O arolwg o ddarparwyr y Bartneriaeth Gwella Gofal Cymdeithasol a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2013, dangosodd y canlyniadau bod 68% o'r gweithlu wedi ennill cymwysterau a bydd 15% arall yn cwblhau hyfforddiant cymhwyso yn ystod 2014/15. Byddwn yn

parhau i ddarparu cyfleoedd hyfforddiant arbenigol yn y meysydd tasgau ailalluogi, gofal dementia ac iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod 2014/15. Wrth ddiwallu anghenion poblogaeth hŷn sy'n cynyddu fwyfwy a'r angen i drosglwyddo modelau gwasanaeth o ddarparu, byddwn yn rhoi hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar gefnogaeth yn y gymuned a gyfarwyddir gan Ddinasyddion a chefnogaeth yn seiliedig ar ganlyniadau wrth ddarparu gwasanaethau sy'n troi o amgylch yr unigolyn.

**Adnoddau Ariannol**

£20.22m oedd y gyllideb net ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion yn 2013/14 ac fe'i dadansoddwyd fel a ganlyn:




Mae gwariant y Cyngor ar draws maes gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn is na'r gwariant cyfartaledd ar draws Awdurdodau Lleol Cymru:

- £702.60 y pen o boblogaeth 65+ yw gwariant pobl hŷn – sy'n gosod yr Awdurdod 21/22 gyda chanolrif y gwariant ar gyfer holl Awdurdodau Cymru yn £849 y pen o'r boblogaeth 65+;
- £246.62 y pen yw gwariant gofal cymdeithasol i oedolion dan 65 – sy'n gosod yr Awdurdod 12/22 gyda chanolrif y gwariant canol yn £247.12.

Bu gofyn i'r Gwasanaeth wneud arbedion sylweddol yn ystod 2013/14 – cyfanswm o £1,261,000. Mae'n braf medru adrodd y cyrhaeddwyd y targed hwn ac y darparwyd gwasanaethau y tu mewn i'r gyllideb. Rydym wedi blaenoriaethu camau sy'n unol â'r egwyddorion yn y Rhaglen Trawsnewid er mwyn canolbwyntio ar wneud arbedion effeithlonrwydd trwy gyflwyno Ailalluogi, trefniadau broceriaeth a Rhestr Brisiau wrth i ni godi cyfradd prynu gwasanaethau gofal cartref oddi wrth ddarparwyr allanol mewn modd mwy cost effeithiol. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar adolygu ac ailfodelu modelau gwasanaeth o fewn yr adnoddau sydd gennym.

**Rhaglen Gyfalaf**

Yn ystod hydref 2013, cymeradwyodd y Cyngor rhaglen gyfalaf i wella ansawdd cyfleusterau yng Nghartref Preswyl Brwynog yn Amlwch – cartref sy'n cael ei redeg gan yr awdurdod lleol. Bu raid i

ni gyfyngu ar y defnydd a wneir o wyth ystafell yn y cartref hwn yn ystod y flwyddyn wrth i ni ddisgwyl am ganiatâd i'r rhaglen wella. Rydym yn disgwyl y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn mis Mehefin/Gorffennaf 2014.

**Dyfarniad**

Mae'r Gwasanaethau Oedolion mewn lle da o gofio'r gwaith sylweddol a wnaed ar eu cynllun ariannol tymor canolig. Mae'r gwaith hwn wedi adnabod sialensiau gwirioneddol o ran cadw cydbwysedd priodol rhwng effeithlondeb ac effeithiolrwydd / ansawdd a darparu canlyniadau gwell i ddefnyddwyr ein gwasanaeth.

Rydym wedi parhau i ddangos ein hymrwymiad i gefnogi a datblygu ein gweithlu i sicrhau'r capasiti a'r sgiliau i ymateb i anghenion newidiol ein poblogaeth. Yn ôl y disgwyl, bydd trosglwyddo gofal cymdeithasol i oedolion yn gosod sialensiau i'n gweithlu dros y blynyddoedd i ddod. O'r herwydd, bydd raid i'n strategaeth gweithlu ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion sicrhau y caiff gwaith recriwtio, rheoli a datblygu ein gweithlu ei wneud yn effeithiol er mwyn rhoi'r canlyniadau gorau i ddefnyddwyr ein gwasanaeth.

Rydym wedi gweld tystiolaeth o resymoli gwariant yn y Gwasanaethau Oedolion yn barhaus yn ystod 2012/13 ac wedi rheoli ein busnes y tu mewn i'r dyraniad cyllidebol llai. Yr her ar y gorwel yw sicrhau cynllun ariannol, tymor canolig, cynaliadwy sy'n darparu ein hamcanion strategol.

**Blaenoriaethau ar gyfer 2014/15**

- Datblygu perthynas waith effeithiol gyda'r Uned Datblygu'r Gweithlu y mae ei rheolwr llinell bellach yn yr adain gorfforaethol;
- Parhau i sicrhau cyfleoedd hyfforddi a datblygu ystyrlon ar draws gweithlu gofal cymdeithasol, defnyddwyr a gofalwyr yn unol â'r blaenoriaethau yn ein Cynllun Trawsnewid;
- Parhau i weithio gyda phartneriaid i roi cyfleoedd datblygu hyfforddiant QCF i gryfhau mwy ar y gweithlu gofal cymdeithasol cymwys;
- Gweithredu'n llwyr y Rhaglen Gyfuno sydd newydd ei lansio ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol sydd newydd gymhwyso, dan faner fframwaith CEPL y Cyngor Gofal ar gyfer Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru;
- Parhau i weithio ar y cyd a chynnal ein partneriaethau ffurfiol yng nghyswllt Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol;
- Parhau i foderneiddio gan sicrhau'r defnydd gorau posib o adnoddau a chyfrannu i raglen effeithlonrwydd y Cyngor (Targed ariannol y gwasanaeth o £1,260,000 yn 2014/15).

## 7 Rheoli Busnes a Pherfformiad

Yn yr adran hon o'm hadroddiad, ceir disgrifiad o'n trefniadau i sicrhau bod sustemau a phrosesau digonol yn eu lle i ddeall holl agweddau ein perfformiad fel Gwasanaeth wrth i ni ymdrechu i gefnogi oedolion i aros gartref a byw bywyd boddhaus.

**Beth wnaethom addo'i wneud?**

- Cwblhau a chyhoeddi ein fframwaith sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad;
- Cyhoeddi a gweithredu cynllun gwella mewn ymateb i arfarniad allanol o'n systemau gwybodaeth a data;
- Gweithredu cynllun gwella ar reoli cwynion;
- Parhau i adolygu cofrestr risg y Gwasanaeth yn rheolaidd wrth i gamau lliniaru gael eu gyrru ymlaen;

**Beth wnaethom ni?**


Yn ystod y flwyddyn rydym wedi datblygu Fframwaith Rheoli a Sicrwydd Ansawdd drafft ar gyfer gwasanaethau Oedolion. Rydym wedi methu sicrhau secondiad er mwyn darparu adnodd pwrpasol i yrru'r rhaglen waith hon ymlaen o fewn y gwasanaeth. Bydd raid i ni gynllunio i weithredu ein Fframwaith Sicrwydd Ansawdd yn llwyr gyda phennaeth newydd y Gwasanaethau Oedolion pan fydd yn dechrau yn ei swydd ym mis Mehefin 2014.

**Cynllun Monitoriaid Gwasanaethau Cymheiriaid** - Pobl dros 50 mlwydd oed sydd wedi cael eu recriwtio'n annibynnol ac sydd â diddordeb mewn materion Pobl Hŷn yw Monitoriaid Gwasanaethau Cymheiriaid. Mae gan y gwirfoddolwyr y capasiti i gynrychioli persbectif a barn Pobl Hŷn, mae ganddynt ddealltwriaeth a phrofiad o wasanaethau a gallant gynnwys pobl sy'n ddefnyddwyr y gwasanaeth neu a fu'n ei ddefnyddio ar un adeg, neu bobl sydd wedi gweithredu er lles pobl sy'n cael gwasanaeth statudol. Mae'r cynllun yn rhoi i'r Awdurdod Lleol farn annibynnol sydd yn fodd i gynorthwyo'r system sicrwydd ansawdd ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir mewn Gofal Preswyl a Gofal Cartref. Ymwelodd y Monitoriaid Cymheiriaid â phob un o chwe chartref yr Awdurdod Lleol yn ystod mis Tachwedd 2013.

**Rheoli cwynion** – Rydym yn defnyddio cwynion fel rhan greiddiol o'n sicrwydd ansawdd yn y Gwasanaeth ac ymdrechwn i ddefnyddio cwynion yn sail i ddylanwadu ar sut yr ydym yn gwella ein cyfathrebu gyda defnyddwyr y gwasanaeth a'u gofalwyr a'n hymatebion gwasanaeth. Rheolir ein trefn gwyno gan reolwr adrannol yn yr Uned Cefnogi Busnes sy'n ddiduedd ar y Gwasanaeth. Cyflwynir unrhyw gwynion neu sylwadau'n chwarterol i Banel Cwynion adrannol sy'n cynnwys cynrychiolaeth o uwch reolwyr ac aelodau etholedig ar draws y maes Tai a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
Mae gweithlu Môn yn parhau i fod ein hased mwyaf a'n hased mwyaf gwerthfawr wrth sicrhau y darperir gwasanaethau gofal cymdeithasol o ansawdd. Yn 2013/14, cofnodwyd gennym 22 achos o ganmoliaeth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth a'u gofalwyr/teuluoedd. At ei gilydd, roeddynt yn canmol sgiliau staff neu eu hagwedd ofalgar at eu gwaith.

Yn 2013/14, roedd gostyngiad yn nifer y cwynion Cam 1 a ddaeth i law yn erbyn y Gwasanaethau Oedolion – yn gostwng o 25 yn 2012/13 i 24 yn 2013/14. Yn y tabl isod crynhoir nifer y cwynion Cam 1 a ddaeth i law yn ystod y pedair blynedd diwethaf.

**GWASANAETHAU OEDOLION: CRYNODEB PEDAIR BLYNEDD O GWYNION CAM 1 A DDAETH I LAW**




Yn ogystal â'r data uchod, aeth pump (dwy yn 2012/13) o'r cwynion a ddaeth i law i Gam 2 y Drefn Gwyno. Fodd bynnag, aeth dim un (dwy yn 2012/13) i Gam 3 (adolygiad gan Banel Annibynnol).

Yn y tabl isod crynhoir nifer y cwynion a ddaeth i law dros y tair blynedd diwethaf ynghylch y gwasanaethau Oedolion a Phlant dan Gam 1, Cam 2 a Cham 3 y Drefn Gwyno a Sylwadau.

| Blwyddyn | Cam 1 Oedolion | Cam 1 Plant | Cam 1 Cyfanswm | Cam 2 Oedolion | Cam 2 Plant | Cam 2 Cyfanswm | Cam 3 Oedolion | Cam 3 Plant | Cam 3 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2011/12 | 25 | 40 | **65** | 3 | 4 | **7** | 0 | 0 | **0** |
| 2012/13 | 32 | 24 | **56** | 2 | 4 | **6** | 2 | 3 | **5** |
| 2013/14 | 24 | 26 | **50** | 5 | 6 | **11** | 0 | 0 | **0** |

Mae angen parhau i fonitro a gwella ein hymlyniad i ymateb i gwynion o fewn yr amser statudol dan Gam 1 y Drefn. Roedd hwn yn faes y nodwyd bod gofyn rhoi sylw iddo'r llynedd ac mae'r perfformiad wedi gwella rhyw fymryn. Yn 2013/14, roedd 42% y tu allan i'r amser ymateb statudol, sef deg diwrnod gwaith. Yn 2012/13, roedd 53% y tu allan iddo.

Wrth ddadansoddi'r cwynion, mae modd crynhoi'r negeseuon allweddol a ganlyn:

- Cyfathrebu aneffeithiol wrth ymateb i negeseuon ac adrodd yn ôl i ddefnyddwyr y gwasanaeth a/neu i berthnasau a gofalwyr;
- Anfodlonrwydd o ran dirwyn y gwasanaeth i ben neu ostwng ei oriau;
- Oedi wrth baratoi pecynnau gofal ar ôl gadael yr ysbyty.

Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad yn chwarterol trwy'r Tîm Rheoli Gwasanaeth. Byddwn hefyd yn mynd ati'n rhagweithiol i ddatblygu Cynlluniau Gweithredu i yrru ymlaen y gwersi a ddysgwyd o'r ymchwiliad i gwynion.

**Cydymffurfio â cheisiadau am wybodaeth -** Dros y deuddeg mis diwethaf**,** rydym wedi gweld cynnydd parhaol a sylweddol mewn ceisiadau i gael gweld cofnodion ffeil yng nghyswllt gwneud cwynion a herio penderfyniadau a wnaed gan y gwasanaethau. Rydym hefyd yn gweld cynnydd blwyddyn ar ôl blwyddyn yn nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a ddaw i law o wahanol ffynonellau. Mae maint y gwaith hwn bellach yn risg i'r Adran gan nad ydym yn medru cwrdd ag

amserau statudol wrth ymateb i rai ceisiadau sy'n ymwneud â phrosesu nifer fawr o gofnodion achos hanesyddol. Bu raid i ni ymateb i ddwy gŵyn a wnaed i Swyddfa'r Comisiynydd ynghylch oedi mewn ymateb i geisiadau i gael gweld cofnodion achos. Bydd nifer y staff sy'n ofynnol i ymateb i'r angen uwch hwn yn cael ei adolygu pan fyddwn yn bwriadu ailstrwythuro'r Adran yn 2014/15.

Yn y tabl isod amlinellir y cynnydd cyflym mewn ceisiadau tros y pedair blynedd diwethaf.

| Dangosydd | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | % cynnydd mewn ceisiadau o 2010/11 i 2013/14 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth | 101 | 121 | 143 | 153 | 51% |
| Nifer y Ceisiadau Deddf Gwarchod Data | 1 | 2 | 12 | 40 | 3900% |
| Nifer y Ceisiadau Mynediad at Ffeiliau | 13 | 13 | 41* | 19 | 46% |

- Amryfusedd oherwydd bod rhai ceisiadau oddi wrth yr heddlu â Thîm Adolygu Ôl-weithredol GIG wedi'u cofnodi fel ceisiadau Mynediad at Ffeiliau yn hytrach na fel ceisiadau Deddf Gwarchod Data.

**Defnyddio Technoleg -** Gallwn adrodd bod y Gwasanaeth wedi medru gweld mwy o dystiolaeth o gynnydd yn y defnydd a wneir o system fonitro achosion electronig (DRAIG/RAISE) y Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2012. Bu tair blaenoriaeth benodol:

- Datblygu adroddiadau Broceriaeth misol er mwyn monitro gweithgaredd ac ymatebion ansawdd gwasanaeth oddi wrth ddarparwyr mewnol ac annibynnol;
- Cryfhau arfer wrth symud i ffeiliau achos electronig;
- Cynllunio ar gyfer y system gwybodaeth electronig newydd am gleientiaid yr ydym yn gyrru ymlaen â hi trwy broses dendro Cymru Gyfan.

Gwelwyd technoleg yn cael ei defnyddio mewn rhannau eraill o'n busnes hefyd. Rydym bellach yn rhoi profiad a mewnbwn gweithredol i ddylunio manyleb gwasanaeth newydd ar gyfer sicrhau system newydd yn lle'r hen system DRAIG/RAISE. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth weithio gyda'r adain Technoleg, Cyfathrebu a Gwybodaeth (TCG) Gorfforaethol i lunio Rhaglen Waith a Chynllun Gwaith TCG tair blynedd i gefnogi gwasanaethau Cymdeithasol. Rydym hefyd wedi gweithio gydag awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd i edrych ar gyfleoedd i gyflwyno System Gwybodaeth Gofal Cymunedol ar y Cyd i hwyluso mwy o rannu a rheoli gwybodaeth ar draws Iechyd a gofal cymdeithasol.

**Dyfarniad**

Er ein bod wedi llunio Fframwaith Sicrwydd Ansawdd ar gyfer y gwasanaeth, bydd raid i ni adnabod adnodd pwrpasol er mwyn gweithredu trefniadau sicrwydd ansawdd yn llwyr ar draws y gwasanaeth. Yn sgil ailstrwythuro swyddogaethau gwasanaeth yn gorfforaethol, trosglwyddwyd yr Uned Datblygu'r Gweithlu i'r adain Hyfforddiant Corfforaethol yn ystod y flwyddyn. Yn ystod

2014/15, bydd raid i ni ddatblygu trefniadau gweithio ar y cyd effeithiol gyda'r Uned Datblygu'r Gweithlu er mwyn ymateb i anghenion hyfforddiant a datblygu staff mewn meysydd gwasanaeth â blaenoriaeth.

Cafwyd cynnydd da iawn wrth sylweddoli arbedion effeithiolrwydd trwy allanoli gwasanaethau gofal cartref, ail-lansio Ailalluogi a datgomisiynu gwasanaethau trwy greu cymunedau a mentrau datblygu'r farchnad.

Yn ystod 2014/15, bydd raid i ni ailstrwythuro'r adran er mwyn rhoi sylw i broblemau capasiti i gefnogi swyddogaethau cefnogi busnes – e.e. comisiynu, caffael a rheoli contractau, datblygu'r farchnad, cynllunio CAEL SYSTEM GWYBODAETH NEWYDD YN LLE'R SYSTEM DRAIG ac YMATEB YN EFFEITHIOL I GEISIADAU i gydymffurfio gyda gwybodaeth.   .

**Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu**

- Datblygu Fframwaith Rheoli Perfformiad a Sicrwydd Ansawdd ar draws yr Adran i wella gwaith canolbwyntio ar fonitro ansawdd gwasanaethau;
- Cryfhau trefniadau mewn Cefnogi Busnes i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig gyda'n gallu i ymateb i geisiadau i gydymffurfio â gwybodaeth o fewn amser statudol;
- Parhau i fonitro effeithiolrwydd ein trefniadau wrth ymateb i gwynion a'u datrys a dysgu'r gwersi i wella ansawdd ein gwasanaethau'n barhaus.
- Gweithredu'r Cynllun Gwella a luniwyd mewn ymateb i'r argymhellion yn yr adolygiad allanol o'n systemau gwybodaeth;
- Rhoi i Weithwyr Cymdeithasol rheng flaen liniaduron i lenwi ffurflenni a rhoi gwybodaeth i mewn i DRAIG pan fyddant allan yn y maes;
- Parhau i weithio gyda'r Adain TCG wrth flaenoriaethu gwaith a bwrw ymlaen gydag o ar ddatblygu systemau TCG, cael systemau newydd yn eu lle a'u gweithredu;

Parhau i gydweithredu gyda phartneriaid yn Rhaglen Gydweithredol Systemau Cymru i sicrhau system wybodaeth newydd yn lle'r un DRAIG/RAISE.

## 8 Arweiniad a Chefnogaeth Gorfforaethol a Gwleidyddol

Yn y rhan olaf hon o'm hadroddiad, ceir disgrifiad o sut yr ydym yn ceisio arweinyddiaeth a chefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol effeithiol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Mae hefyd yn cynnwys sut y mae'r Awdurdod yn goruchwylio ac yn cefnogi gwelliannau i'r gwasanaeth yng nghyd-destun darparu ein swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol statudol yn effeithiol.

**Beth wnaethom addo'i wneud?**

- Sicrhau y penodir Aelodau'n fentoriaid ar gyfer Gwasanaethau Oedolion, Aelod Arweiniol ar Ddiogelu Oedolion, Eiriolwr Gofalwyr ac Eiriolwr Pobl Hŷn pan gaiff y Cyngor Newydd ei gadarnhau ym mis Mai 2013;
- Rhoi cwrs cyflwyno ar ofal cymdeithasol i oedolion ar gyfer Aelodau Etholedig newydd yn sgil etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2013;
- Parhau i gryfhau mwy ar waith datblygu a gwerthfawrogi Aelodau Etholedig ac Uwch Reolwyr (gyda chyfrifoldebau corfforaethol) ynghylch rolau a swyddogaeth Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion;
- Datblygu strategaeth ymgysylltu i Aelodau ac uwch reolwyr gyda staff rheng flaen yn y gwasanaeth gofal cymdeithasol i oedolion;
- Egluro mwy ar lefelau a chyfyngiadau o gyfrifoldeb dirprwyedig sydd yn mynd law yn llaw gyda gweithredu'n llawn sustem gyfrifon ariannol newydd y Cyngor;
- Cryfhau mwy ar waith archwilio corfforaethol a gwleidyddol gofal cymdeithasol i oedolion o fewn fframwaith craffu/perfformio.

**Sut wnaethom ni?**

Gallaf ddweud y bu cynnydd sylweddol wrth ddatblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad aelodau etholedig o'r arweinyddiaeth a'r gefnogaeth wleidyddiaeth y bu raid i Ofal Cymdeithasol Oedolion wrthi yn y flwyddyn a aeth heibio yn dilyn etholiadau'r Cyngor a gynhaliwyd ym mis Mai 2013. Mae yna arwyddion calonogol bod Aelodau ac Uwch Reolwyr sydd â chyfrifoldebau Corfforaethol yn deall rôl a swyddogaeth Gofal Cymdeithas i Oedolion, pa mor dda y mae gwasanaethau'n diwallu angen lleol ac yn rhoi blaenoriaeth briodol iddynt. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y flaenoriaeth gorfforaethol a roddwyd i'r rhaglen trawsnewid ar gyfer pobl hŷn dros y deuddeg mis diwethaf, sefydlu'r Bwrdd Trawsnewid a rhoi adnoddau ychwanegol i gefnogi gwaith rheoli'r Rhaglen Trawsnewid.

Yn 2013, ailstrwythurodd y Cyngor swyddogaethau ei Benaethiaid Gwasanaeth ac mae hyn wedi arwain at golli un swydd Pennaeth Gwasanaeth yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Rydym yn edrych ymlaen at gyfnod o fwy o sefydlogrwydd yn ystod 2014/15 wrth benodi Pennaeth newydd i'r Gwasanaethau Oedolion a strwythur diwygiedig i gefnogi Gwasanaethau Plant ac Oedolion.
Mae cyfres o sesiynau datblygu anffurfiol hefyd wedi'u hwyluso ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Mae'r sesiynau hyn wedi rhoi cyfleoedd amhrisiadwy i swyddogion rannu cymhlethdodau ein busnes o ddydd i ddydd wrth gefnogi oedolion bregus sy'n cwrdd â'n trothwyon cymhwyso ar gyfer gwasanaethau. Rydym wedi darparu'r sesiynau anffurfiol hyn ar ystod o bynciau er mwyn datblygu dealltwriaeth Aelodau o'r sialensiau y mae'r gwasanaeth yn eu hwynebu ac iddynt eu gwerthfawrogi. Mae'r sesiynau hyn wedi cael croeso mawr hefyd gan Aelodau sy'n eu defnyddio fel cyfle mewn amgylchedd anffurfiol (y tu allan i Siambr y Cyngor) i ddechrau llwyr werthfawrogi ein busnes.

Mae gennym gefnogaeth barhaus ein Deilydd Portffolio dros y Gwasanaethau Cymdeithasol (y Cynghorydd Kenneth Hughes) a'n Eiriolwr Pobl Hŷn (y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones). At

hyn, rydym wedi ymwneud mwy ag Aelodau Etholedig yn ein gwaith e.e. Bwrdd Trawsnewid i Oedolion Hŷn, craffu perfformiad, gofal cwsmer a'r panel cwynion. Mae Cyfarwyddwyr Corfforaethol ac Arweinyddion Portffolio wedi bod yn dod i Adolygiadau perfformio blynyddol a chwarterol Gofal Cymdeithasol i Oedolion ac mae hyn yn gosod y llwyfan ar gyfer archwilio a herio perfformiad a phwysau.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymuno â Datganiad Dulyn, sydd â'i nod o gefnogi pobl hŷn mewn meysydd megis cyflogaeth, gwasanaethau cyhoeddus, trafnidiaeth a chynhwysiad cymdeithasol. Wrth ymuno â Datganiad Dulyn byddir yn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried yr effeithiau posib y gallai ei benderfyniadau eu cael ar bobl hŷn. Mae'r symudiad hefyd yn gweld Môn yn dod yn rhan o rwydwaith Heneiddio'n Dda yng Nghymru - rhaglen genedlaethol bum mlynedd a allai arwain at gyfran mewn pair o arian o'r UE sydd wedi'i neilltuo i gefnogi heneiddio'n iach ac yn weithgar. Un o nodweddion allweddol Rhwydwaith Heneiddio'n Dda yng Nghymru yw datblygu ffyrdd y mae'r cyngor a'i bartneriaid yn ymateb i newid demograffig.

*"Wrth lofnodi Datganiad Dulyn rydym yn cydnabod pwysigrwydd anghenion preswylwyr hŷn. Bydd y cam hwn yn gymorth i godi proffil pobl hŷn a rhoi iddynt lais cryfach trwy gydol ein proses gwneud penderfyniadau. Bydd hefyd yn llunio sut yr ydym yn ymateb i'r sialensiau demograffig a wynebir ar hyn o bryd"*

Y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones, Eiriolwr Pobl Hŷn

Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, mae'r Cyngor wedi penodi'r Cynghorydd Llinos Medi Huws yn Eiriolwraig Gofalwyr ar gyfer Môn. Prif swyddogaeth Eiriolwr Gofalwyr yw hyrwyddo hawliau gofalwyr ac ymgysylltu gyda gofalwyr di-dâl yn rheolaidd fel bod modd tanlinellu unrhyw broblemau sydd ganddynt.

"Rwyf yn edrych ymlaen at ymgymryd â'r rôl hynod bwysig hon. Yn ôl y cyfrifiad diweddar, mae dros 9000 o ofalwyr di-dâl ym Môn. Mae'n ffaith a gydnabyddir na allai ein cymdeithas na'n gwasanaethau cyhoeddus weithredu heb gyfraniadau sylweddol y gofalwyr. Byddaf yn gweithio gyda swyddogion y Cyngor a phartneriaid yn y trydydd sector i sicrhau fy mod yn cael cymaint o gyswllt â phosib gyda gofalwyr ym Môn."

Y Cynghorydd Llinos Medi Huws, Eiriolwraig Gofalwyr

Dros y deuddeg mis diwethaf mae strwythur pwyllgorau sgriwtini corfforaethol (yn cynnwys dau bwyllgor) wedi'u sefydlu i ddal gwaith Pwyllgor Gweithredol y Cyngor a'r partneriaid i gyfrif, yn gadarnhaol ac yn adeiladol, er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i ddarparu ei weledigaeth. Gwaith y Pwyllgorau Sgriwtini hefyd yw cefnogi gwasanaethau i gynnal safonau uchel wrth ddarparu gwasanaethau a'u harwain at well effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Y ddau bwyllgor yw: Y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio.

**Dyfarniad**

Mae'r Gwasanaethau Oedolion yn cael ei hun mewn sefyllfa dda wrth fynd yn eu blaen o gofio'r gwaith sylweddol a gyflawnwyd yn 2013/2014. Rydym wedi ymgysylltu'n ystyrlon trwy sesiynau gwybodaeth gydag aelodau etholedig fel eu bod yn craffu mwy ar Ofal Cymdeithasol i Oedolion a gwneud hynny'n ystyrlon ac yn cefnogi aelodau newydd y Cyngor fel bod ganddynt wybodaeth dda am Ofal Cymdeithasol i Oedolion. Rydym yn falch ein bod wedi enwebu Eiriolwyr ymhlith aelodau etholedig i ganolbwyntio ar y blaenoriaethau strategol ar gyfer meysydd gwasanaeth allweddol.

**Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu**

- Datblygu cysylltiadau effeithiol rhwng Pennaeth newydd Gwasanaethau Oedolion a deilyddion portffolio allweddol a sgriwtini corfforaethol;
- Parhau i ymgysylltu gydag aelodau etholedig trwy drefnu sesiynau gwybodaeth ar bynciau allweddol;
- Egluro mwy ar lefelau a chyfyngiadau o gyfrifoldeb dirprwyedig sydd yn mynd law yn llaw gyda gweithredu'n llawn system gyfrifon ariannol newydd y Cyngor;
- Cryfhau mwy ar waith archwilio corfforaethol a gwleidyddol gofal cymdeithasol i oedolion o fewn fframwaith sgriwtini/perfformio.

**Gareth Llwyd**
**Rheolwr Uned Cefnogaeth Busnes.** **Ebrill, 2014**

| Cyfeirnod | Dangosydd | Targed y dangosydd | Ynys Môn 2012/13 | Cyfartaledd Cymru 2012/13 | Ynys Môn 2013/14 | Targed Ynys Môn 2013/14 | Perfformiad wrth gymharu ag Ynys Môn 2012/13 | Perfformiad wrth gymharu â tharged Ynys Môn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SCC/001 | A) Y canran o leoliadau cyntaf o blant y gofelir amdanynt yn ystod y flwyddyn a ddechreuodd gyda chynllun gofal yn bodoli | Rhif uchel | 90.24 | 89.10 | **96.67** | 100.00 | ↑ | |
| | B) Ar gyfer y plant y gofelir amdanynt yr oedd eu hail adolygiad (a oedd i fod bob 4 mis) i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, pa ganran oedd a chynllun ar gyfer cael eu gwneud yn barhaol ar y dyddiad a nodwyd | Rhif uchel | 90.00 | 91.70 | **71.43** | 100.00 | ↓ | |
| SCC/002 (DSC) | Canran y plant y gofelir amdanynt ar ôl 31 Mawrth sydd wedi newid ysgol un neu fwy o weithiau, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o fod mewn cyfnod o ofal amdanynt, oedd ddim o ganlyniad i drefniadau pontio yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth | Rhif isel | 15.70 | 13.70 | **20.00** | 8.00 | ↓ | |
| SCC/004 (DSC) | Canran y plant y gofelir amdanynt ar 31 Mawrth a gafodd dri neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn | Rhif isel | 8.75 | 9.40 | **7.79** | 8.00 | ↑ | |
| SCC/006 | Y canran o atgyfeiriadau yn ystod y flwyddyn y gwnaethpwyd penderfyniad arnynt o fewn 1 diwrnod gwaith | Rhif uchel | 98.65 | 97.20 | **98.77** | 100.00% | ↑ | |
| SCC/007 | A) Canran yr atgyfeiriadau yn ystod y flwyddyn y dyrannwyd gweithiwr cymdeithasol iddynt i wneud asesiad cychwynnol | Rhif uchel | 74.80 | 63.80 | **56.05** | 60.00% | ↓ | |
| | B) Canran yr atgyfeiriadau yn ystod y flwyddyn a roddwyd i rywun heblaw gweithiwr cymdeithasol i wneud yr asesiad cychwynnol | Rhif isel | 0.00 | 8.30 | **0.00** | 0.00% | ↔ | |
| | C) Canran yr atgyfeiriadau yn ystod y flwyddyn wnaeth ddim symud ymlaen at drefnu asesiad cychwynnol | Rhif isel | 25.20 | 28.00 | **43.95** | 40.00% | ↓ | |
| SCC/010 | Canran yr atgyfeiriadau sy'n cael eu hailgyfeirio o fewn 12 mis | Rhif uchel | 25.02 | 27.00 | **18.87** | 26.00% | ↑ | |
| SCC/011 | A) Y canran o asesiadau cychwynnol yn ystod y flwyddyn ple mae tystiolaeth bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gweld y plentyn | Rhif uchel | 89.81 | 75.40 | **92.22** | 90.00% | ↑ | |
| SCC/011 (DSC) | B) Y canran o asesiadau cychwynnol yn ystod y flwyddyn ple mae tystiolaeth bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gweld y plentyn ar ei ben ei hun | Rhif uchel | 59.44 | 37.50 | **55.06** | 60.00% | ↓ | |
| SCC/013 | Ai) Y canran o achosion Agored o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant y dynodwyd gweithiwr cymdeithasol iddynt | Rhif uchel | 100.00 | 99.70 | **100.00** | 100.00% | ↔ | |
| | Aii) Y canran o achosion agored o blant y gofelir amdanynt y dynodwyd gweithiwr cymdeithasol iddynt | Rhif uchel | 100.00 | 94.90 | **100.00** | 100.00% | ↔ | |
| | Aiii) Y canran o achosion agored o blant mewn angen sydd â gweithiwr cymdeithasol wedi ei ddyrannu iddynt | Rhif uchel | 98.27 | 74.50 | **98.21** | 100.00% | ↔ | |
| | Bi) Y canran o achosion Agored o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant y dynodwyd rhywun heblaw gweithiwr cymdeithasol iddynt lle mae'r plentyn yn derbyn gwasanaeth yn unol â'i asesiad neu gynllun | Rhif isel | 0.00 | 0.20 | **0.00** | 0.00% | ↔ | |
| | Bii) Y canran o achosion agored o blant y gofelir amdanynt y dynodwyd rhywun heblaw gweithiwr cymdeithasol iddynt lle mae'r plentyn yn derbyn gwasanaeth yn unol â'i asesiad neu gynllun | Rhif isel | 0.00 | 4.40 | **0.00** | 0.00% | ↔ | |
| | Biii) Y canran o achosion agored o blant mewn angen y dynodwyd rhywun heblaw gweithiwr cymdeithasol iddynt lle mae'r plentyn yn derbyn gwasanaeth yn unol â'i asesiad neu gynllun | Rhif isel | 0.58 | 21.00 | **1.79** | 0.00% | ↑ | |
| SCC/014 | Y canran o gynadleddau cychwynnol amddiffyn plant sydd i ddigwydd yn ystod y flwyddyn ac sy'n cael eu cynnal o fewn 15 diwrnod i'r drafodaeth strategol | Rhif uchel | 95.51 | 87.40 | **92.66** | 100.00% | ↓ | |
| SCC/015 | Y canran o gyfarfodydd grŵp craidd cychwynnol i'w cynnal yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd o fewn 10 diwrnod i'r gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol | Rhif uchel | 82.86 | 88.40 | **91.46** | 100.00% | ↑ | |

| Cyfeirnod | Dangosydd | Targed y dangosydd | Ynys Môn 2012/13 | Cyfartaledd Cymru 2012/13 | Ynys Môn 2013/14 | Targed Ynys Môn 2013/14 | Perfformiad wrth gymharu ag Ynys Môn 2012/13 | Perfformiad wrth gymharu â tharged Ynys Môn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SCC/016 | Y canran o adolygiadau o gynlluniau plant mewn angen a gyflawnwyd yn unol â'r amserlen statudol | Rhif uchel | 77.58 | 71.40 | 92.51 | 85.00% | ↑ | |
| SCC/020 | Y canran o blant y gofelir amdanynt y mae deintydd wedi cael golwg ar eu dannedd yn ystod y flwyddyn | Rhif uchel | 93.80 | 83.40 | 94.92 | 87.00% | ↑ | |
| SCC/021 | Y canran o adolygiadau o gynlluniau plant mewn gofal a gyflawnwyd yn unol â'r amserlen statudol | Rhif uchel | 97.21 | 91.90 | 97.14 | 100.00% | ↔ | |
| SCC/022 | A) Canradd presenoldeb disgyblion ysgolion cynradd, y plant hynny y gofelir amdanynt. | Rhif uchel | 94.34 | 94.40 | 95.09 | 95.00% | ↑ | |
| | B) Canradd presenoldeb disgyblion ysgolion uwchradd, y plant hynny y gofleir amdanynt | Rhif uchel | 88.66 | 90.60 | 90.94 | 90.00% | ↑ | |
| SCC/024 | Canran y plant y gofelir amdanynt yn ystod y flwyddyn, sydd â Chynllun Addysg Personol o fewn 20 niwrnod ysgol i gychwyn bod mewn gofal, neu wedi symud ysgol yn ystod y flwyddyn | Rhif uchel | 100.00 | 65.00 | 90.00 | 90.00% | ↓ | |
| SCC/025 | Y canran o ymweliadau statudol dyledus â phlant y gofelir amdanynt a ddigwyddodd yn unol â'r rheoliadau | Rhif uchel | 90.78 | 83.00 | 90.54 | 95.00% | ↔ | |
| SCC/028 | Y canran o blant y gofelir amdanynt a gafodd Asesiad a Chofnod Cynnydd wedi ei gwblhau'n llawn a'i ddiweddaru yn ystod eu trydydd adolygiad | Rhif uchel | 69.23 | 18.00 | 25.00 | 10.00% | ↓ | |
| SCC/030 | A) Y canran o ofalwyr ifanc sy'n hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac a aseswyd | Rhif uchel | 83.58 | 92.30 | 86.67 | 97.00% | ↓ | |
| | B) Y canran o ofalwyr ifanc sy'n hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac y darparwyd gwasanaeth iddynt | Rhif uchel | 100.00 | 89.40 | 92.00 | 97.00% | ↓ | |
| SCC/033 (DSC) | D) Y canran o bobl ifanc y gofalwyd amdanynt yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy yn 19 oed | Rhif uchel | 100.00 | 93.40 | 100.00 | 100.00% | ↔ | |
| | E) Y canran o bobl ifanc y gofalwyd amdanynt yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod mewn llety addas sydd ddim yn llety argyfwng yn 19 oed | Rhif uchel | 100.00 | 93.20 | 85.71 | 100.00% | ↓ | |
| | F) Y canran o bobl ifanc y gofalwyd amdanynt yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, y gwyddys eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn 19 oed | Rhif uchel | 62.50 | 56.40 | 57.14 | 80.00% | ↓ | |
| SCC/034 | Y canran o adolygiadau amddiffyn plant a gynhaliwyd yn ystod yr amserlenni statudol yn ystod y flwyddyn | Rhif uchel | 99.57 | 96.10 | 98.49 | 100.00% | ↓ | |
| SCC/035 | Y canran o blant y gofelir amdanynt sy'n gymwys i gael asesiad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 ac a gyflawnodd y Dangosydd Pwnc Craidd, yn ôl Asesiad Athro | Rhif uchel | 25.00 | 46.09 | 100.00 | 60.00% | ↑ | |
| SCC/036 | Y canran o blant y gofelir amdanynt sy'n gymwys i gael asesiad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 ac a gyflawnodd y Dangosydd pwnc craidd yn ôl Asesiad Athro | Rhif uchel | 71.43 | 30.36 | 50.00 | 75.00% | ↓ | |
| SCC/037 (DSC) | Cyfartaledd y sgôr pwyntiau cymwysterau allanol i blant y gofelir amdanynt 16 oed, mewn unrhyw sefydliad dysgu a gynhelir gan yr awdurdod lleol | Rhif uchel | 206.00 | 221.00 | 136.00 | 200.00 | ↓ | |
| SCC/039 | Y canran o asesiadau iechyd dyledus ar gyfer plant y gofelir amdanynt yn ystod y flwyddyn ac a gyflawnwyd | Rhif uchel | 95.10 | 80.30 | 95.45 | 100.00% | ↔ | |
| SCC/040 | Y canran o leoliadau a gychwynnwyd yn ystod y flwyddyn, lle mae'r plentyn wedi cael ei gofrestru gyda darparwr gwasanaethau meddygol cyffredinol o fewn 10 diwrnod gwaith i ddechrau'r lleoliad | Rhif uchel | 100.00 | 90.10 | 98.48 | 100.00% | ↓ | |


| Cyfeirnod | Dangosydd | Targed y dangosydd | Ynys Môn 2012/13 | Cyfartaledd Cymru 2012/13 | Ynys Môn 2013/14 | Targed Ynys Môn 2013/14 | Perfformiad wrth gymharu ag Ynys Môn 2012/13 | Perfformiad wrth gymharu â tharged Ynys Môn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SCC/041 | A) Y canran o blant cymwys sy'n berthnasol ac a oedd yn berthnasol ac sydd wedi cael cynlluniau llwybro fel sydd angen | Rhif uchel | 95.65 | 89.50 | **77.78** | 100.00% | ↓ | |
| | B) Y canran o blant cymwys sy'n berthnasol ac a oedd yn berthnasol ac y dynodwyd cynghorydd personol iddynt | Rhif uchel | 100.00 | 96.30 | **100.00** | 100.00% | ↔ | |
| SCC/042 | A) Y canran o asesiadau cychwynnol a gyflawnwyd o fewn 7 diwrnod gwaith | Rhif uchel | 80.37 | 73.10 | **90.86** | 85.00% | ↑ | |
| | B) Cyfartaledd yr amser a gymerodd i gwblhau asesiadau cychwynnol a gymerodd fwy na 7 diwrnod gwaith i'w cwblhau | Rhif isel | 13.83 | 20.00 | **12.15** | 13.00 | ↑ | |
| SCC/043 | A) Y canran o asesiadau craidd gofynnol a gwblhawyd o fewn 35 diwrnod gwaith | Rhif uchel | 80.49 | 76.60 | **71.68** | 75.00% | ↓ | |
| | B) Cyfartaledd yr amser a gymerodd i gwblhau asesiadau craidd a gymerodd fwy na 35 diwrnod gwaith i'w cwblhau | Rhif isel | 75.29 | 65.00 | **46.00** | 45.00 | ↑ | |
| SCC/044 | A) Canran y plant y gofelir amdanynt a oedd wedi eu hatal yn barhaol o ysgolion yn y flwyddyn 1 Ebrill i 31 Mawrth | Rhif isel | 0.00 | 0.00 | **0.00** | 0.00% | ↔ | |
| | B) Cyfartaledd y nifer o ddyddiau wariwyd allan o'r ysgol ar waharddiad penodol o'r ysgol ar gyfer plant mewn angen yn ystod y flwyddyn 1 Ebrill i 31 Mawrth | Rhif isel | 5.75 | 6.30 | **5.50** | 0.00 | ↔ | |
| SCC/045 | Y canran o adolygiadau o gynlluniau plant mewn gofal, plant ar y gofrestr amddiffyn plant a phlant mewn angen, a gyflawnwyd yn unol â'r amserlen statudol | Rhif uchel | 90.09 | 86.40 | 95.68 | 90 | ↑ | |

# SCC/011a: Canran yr asesiadau cychwynnol wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle mae yna dystiolaeth bod: Gweithiwr Cymdeithasol wedi gweld y plentyn

| | |
|---|---|
| Perchennog | Anwen Huws |
| Mesurydd yma yn berthnasol i | Natalie Woodworth |
| Amlder Casglu | Misol |
| | |
| | |


| Targed Cyfredol Current Ynys Môn | Perfformiad cyfredol, cymharu â llynedd | Perfformiad Llynedd | Perfformiad o'i gymharu â'r Targed cyfredol |
|---|---|---|---|
| 90.00% | 92.22% ↑ | 89.81% | ↑ |
| Targed DP - Rhif Uchel | | | |

SCC/011a: Canran yr asesiadau dechreuol a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn lle bo tystiolaeth bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gweld y plentyn (misol)





| | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr | Chwefror | Mawrth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2013/14 | 95.35 | 86.96 | 90.91 | 96.72 | 100 | 68.57 | 79.59 | 88.89 | 96.97 | 94.64 | 97.83 | 100 |
| Targed Môn | 90 | 90 | 90 | 90 | 90 | 90 | 90 | 90 | 90 | 90 | 90 | 90 |

SCC/011a: Canran yr asesiadau dechreuol a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn lle bo tystiolaeth bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gweld y plentyn (Chwarterol)




| | Ebr - Meh | Gorff - Med | Hyd - Rhag | Ion - Maw |
|---|---|---|---|---|
| 2011/12 | 90.64 | 97.21 | 79.69 | 92.35 |
| 2012/13 | 89.86 | 88.11 | 91.13 | 90.40 |
| 2013/14 | 90.98 | 89.60 | 87.29 | 97.32 |
| Targed Môn | 90.00 | 90.00 | 90.00 | 90.00 |

SCC/011a: (Cymhariaeth 3 mlynedd)




| | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 |
|---|---|---|---|
| Môn | 90.39 | 89.81 | 91.63 |
| Cymru | 67.90 | 75.40 | |
| Targed Môn | 90.00 | 90.00 | 90.00 |

## Stori Tu ôl i'r Perfformiad

Rydym wedi cadw at ein prif ffocws o weld plant yn ystod eu hasesiad. Yn ystod 2013/14 roedd canran yr asesiadau cychwynnol a gynhaliwyd lle mae tystiolaeth bod y plentyn yn cael ei weld gan weithiwr cymdeithasol yn 91.63%, sydd eto yn welliant ar ein perfformiad yn 2012-13 (89.91%) a chyfartaledd Cymru gyfan (75.40% ) ar gyfer yr un flwyddyn , sy'n ein rhoi yn y chwartel uchaf.

Ein blaenoriaeth fydd
1. Cynnal y perfformiad hwn
2 Adnabod sut mae'r palnt a phobl ifanc yn barnu y rhyngweithio gwirioneddol gyda'r gweithiwr cymdeithasol - pa wahaniaeth a yw'n gwneud
3. Lle bo'n addas, byddwn bob amser yn gweld y plentyn ar ei ben/ phen ei hun

## Disgrifiad

**Rhifiadur:** Nifer yr asesiadau cychwynnol wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle mae'r plentyn wedi cael ei weld gan y Gweithiwr cymdeithasol

**Enwadur:** Nifer yr asesiadau cychwynnol wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn


**Fformiwla:** $\frac{\text{Rhifiadur}}{\text{Enwadur}} \times 100$

# SCC/025: Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy’n derbyn gofal oedd fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a’u cynhaliwyd yn unol â’r rheoliadau

| | |
|---|---|
| Perchennog | Anwen Huws |
| Mesurydd yma yn berthnasol i | Natalie Woodworth |
| Amlder Casglu | Misol |


| Targed Cyfredol Current Ynys Môn | Perfformiad cyfredol, cymharu â llynedd | Perfformiad Llynedd | Perfformiad o'i gymharu â'r Targed cyfredol |
|---|---|---|---|
| 95.00% | 90.54% | 90.78% | |
| Targed DP - Rhif Uchel | | | |

SCC/025: Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy’n derbyn gofal oedd fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a’u cynhaliwyd yn unol â’r rheoliadau





| | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr | Chwefror | Mawrth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2013/14 | 82.76 | 81.08 | 79.25 | 93.75 | 84.48 | 97.1 | 96.77 | 95.71 | 91.67 | 92.59 | 94.03 | 93.24 |
| Targed | 95 | 95 | 95 | 95 | 95 | 95 | 95 | 95 | 95 | 95 | 95 | 95 |

SCC/025: Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy’n derbyn gofal oedd fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a’u cynhaliwyd yn unol â’r rheoliadau (chwarterol)




| | Apr - June | July - Sept | Oct - Dec | Jan - Mar |
|---|---|---|---|---|
| 2011/12 | 83.26 | 89.87 | 96.67 | 91.45 |
| 2012/13 | 92.20 | 91.30 | 91.01 | 88.54 |
| 2013/14 | 81.08 | 92.15 | 94.44 | 93.24 |
| Targed | 95.00 | 95.00 | 95.00 | 95.00 |

SCC/025: Cymhariaeth 3 mlynedd




| | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 |
|---|---|---|---|
| Môn | 87.10 | 90.79 | 90.54 |
| Cymru | 82.50 | 83.00 | |
| Targed Môn | 95.00 | 95.00 | 95.00 |

## Stori Tu ôl i'r Perfformiad

Mae gan bob plentyn mewn gofal weithiwr cymdeithasol cymwysedig

Cynhaliwyd 90.54% o ymweliadau statudol i blant yn eu lleoliadau o fewn amserlen, sy'n ein rhoi'n gadarn yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer 2012/13 (83%). Er ein bod wedi cynnal ein safle ar y flwyddyn flaenorol, roeddwn wedi setio allan eleni i wella ar ein perfformiad yn 2012/13; Yn ystod rhai misoedd yn 2013-14, gwnaethom gyflawni'n well na'r targed.

Felly bydd hyn yn parhau i fod yn ffocws ar gyfer gwelliant yn 2014/15 fel y bydd y ffocws ar sut mae plant a phobl ifanc yn gweld a barnu y rhyngweithio gwirioneddol gyda'r gweithiwr cymdeithasol - pa wahaniaeth mae'n ei wneud.

## Disgrifiad

**Rhifiadur:** Nifer yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal oedd fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a'u cynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau.

**Enwadur:** Nifer yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal oedd i fod i gael eu cynnal.

**Fformiwla:** Rhifiadur x 100
Enwadur

# SCC/043(a): Canran yr asesiadau craidd gofynnol wedi eu cwblhau o fewn 35 diwrnod gwaith

| | |
|---|---|
| Perchennog | Anwen Huws |
| Mesurydd yma yn berthnasol i | Natalie Woodworth |
| Amlder Casglu | Misol |
| | |
| | |

| Targed Cyfredol Current Ynys Môn | Perfformiad cyfredol, cymharu â llynedd | Perfformiad Llynedd | Perfformiad o'i gymharu â'r Targed cyfredol |
|---|---|---|---|
| 75.00% | 71.68% | 80.49% | |
| Targed DP - Rhif Uchel | | | |

## Stori Tu ôl i'r Perfformiad


Rydym yn cydnabod yr angen i wella ein perfformiad mewn perthynas ag amseriad cwblhau asesiadau craidd. Gwnaethom gwblhau 71.68% o'r asesiadau craidd o fewn 35 niwrnod, o'i gymharu â 80.49% llynedd, a chyfartaledd Cymru (yn ystod 12-13) o 76.60%. Fodd bynnag mae hyn yn safle cryfach i fod ynddo na'n perfformiad yn 2010/11 & 2011/12.

Gall yr uchaf-rif a'r isaf-rif misol a amlygir yn y graff fod yn gamarweiniol oherwydd y nifer fach o asesiadau craidd a gwblhawyd yn ystod rhai misoedd. Fodd bynnag, er bod y canlyniad diwedd y flwyddyn yn siomedig, 'rydym wedi gweld gwelliant yn y nifer dyddiau (ar gyfartaledd) a gymerir i gwblhau'r holl asesiadau craidd, i lawr o 99.25 diwrnod yn 2010-11; 75 diwrnod yn 2012/13, i 46 yn 2013/14. Golyga hyn ei fod yn cymryd hanner yr amser i gwblhau'r holl asesiadau craidd yn 2013/14, nac yn 2010/11. Er ein bod yn siomedig nad ydym wedi cynnal y gwelliannau a gyflawnwyd y llynedd, mae'n perfformiad yn parhau i fod yn welliant sylweddol ar ein perfformiad yn 2010-11 a 2011-12.

Cwblheuir ein holl asesiadau cychwynnol a chraidd gan weithwyr cymdeithasol cymwysedig. Mae pob un o'n gweithwyr cymdeithasol wedi cael eu hyfforddi i ddefnyddio Model Risg cyson, sy'n fodd o adnabod risgiau o fewn achosion. Mae'r model yma yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd mewn nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr. Enillodd y Model Risg ddyfarniad gofal cymdeithasol yn 2010. Mae'r dull hwn o weithio yn sicrhau bod gweithwyr yn gofyn cwestiynau rheolaidd ynglyn â risg, a dod i benderfyniadau ar sail tystiolaeth cadarn.

Byddwn yn canolbwyntio ar wella'r perfformiad hwn, tra hefyd yn canolbwyntio ar ansawdd yr asesiadau a gallu gweithwyr cymdeithasol i ddadansoddi gwybodaeth a rheoli risg.

SCC/043a: Canran yr asesiadau craidd gofynnol wedi eu cwblhau o fewn 35 diwrnod gwaith (chwarterol)




| | Ebr - Meh | Gorff - Med | Hyd - Rhag | Ion - Maw |
|---|---|---|---|---|
| 2013/14 | 90.91 | 58.33 | 50.00 | 78.79 |
| Targed Môn | 75 | 75 | 75 | 75 |


## Disgrifiad

**Rhifiadur:** Nifer yr asesiadau craidd gofynnol a gwblhawyd o fewn 35 diwrnod gwaith yn ystod y flwyddyn

**Enwadur:** Nifer yr asesiadau craidd gofynnol gwblhawyd yn ystod y flwyddyn


**Fformiwla:** Rhifiadur x 100
Enwadur

SCC/043a: Canran yr asesiadau craidd gofynnol wedi eu cwblhau o fewn 35 diwrnod gwaith (Chwarterol)




| | Ebr - Meh | Gorff - Med | Hyd - Rhag | Ion - Maw |
|---|---|---|---|---|
| 2011/12 | 40 | 20 | 77.27 | 90.48 |
| 2012/13 | 96.67 | 89.74 | 33.33 | 69.05 |
| 2013/14 | 90.91 | 58.33 | 50.00 | 78.79 |
| Targed Môn | 75.00 | 75.00 | 75.00 | 75.00 |

SCC/043(a): (Cymhariaeth 3 mlynedd)




| | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 |
|---|---|---|---|
| Môn | 72.60 | 80.49 | 71.68 |
| Cymru | 73.20 | 76.60 | |
| Targed Môn | 75.00 | 75.00 | 75.00 |

| Cyfeirnod | Dangosydd | Targed y dangosydd | Ynys Môn 2012/13 | Cyfartaledd Cymru 2012/13 | Ynys Môn 2013/14 | Targed Ynys Môn 2013/14 | Perfformiad wrth gymharu ag Ynys Môn 2012/13 | Perfformiad wrth gymharu â tharged Ynys Môn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SCA/001 (DSC)** | Cyfradd y trosglwyddiadau gohiriedig ar gyfer gofal am resymau gofal cymdeithasol, allan o bob 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd | Rhif isel | 2.53 | 4.57 | **1.25** | 1.75 | ↑ | |
| **SCA/002 (DSC)** | Cyfradd y bobl hŷn (65 oed neu drosodd):<br>a) A gefnogir yn y gymuned allan o bob 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth, | Rhif isel (Disgwyliad Cenedlaethol - Rhif uchel) | 58.94 | 77.53 | **54.41** | 55.00 | ↑ | |
| | b) Y mae'r Awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal allan o bob 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth | Rhif isel | 21.93 | 20.63 | **18.16** | 20.00 | ↑ | |
| **SCA/003** | Canran y cleientiaid, yn y grwpiau oedran canlynol, sy'n cael eu cefnogi yn y gymuned yn ystod y flwyddyn:<br>a) Oed 18 - 64 | Rhif uchel | 93.91% | 93.87% | **88.77%** | 94.00% | ↓ | |
| | b) Oed 65+ | Rhif uchel | 80.83% | 83.47% | **77.87%** | 81.00% | ↓ | |
| **SCA/007** | Canran y cleientiaid sydd a chynllun gofal ar 31 Mawrth y dylai eu cynllun gofal fod wedi cael ei adolygu ac a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn | Rhif uchel | 82.82% | 80.90% | **87.86%** | 84.00% | ↑ | |
| **SCA/018** | a) Canran y gofalwyr oedolion y cynigwyd aesiad neu adolygiad o'u hanghenion iddynt yn ystod y flwyddyn | Rhif uchel | 81.70% | 86.80% | **91.30%** | 85.00% | ↑ | |
| | b) Canran y gofalwyr oedolion a gafodd asesiad neu adolygiad o'u hanghenion yn ystod y flwyddyn | Rhif uchel | 75.00% | 38.70% | **63.20%** | 85.00% | ↓ | |
| | c) Canran ygofalwyr oedolion a aseswyd neu a ailaseswyd yn ystod y flwyddyn ac y darparwyd gwasanaeth iddynt | Rhif uchel | 72.00% | 62.80% | **73.90%** | 75.00% | ↑ | |
| **SCA/019 (DSC)** | Canran o gyfeiriadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd ble mae'r risg wedi'i rheoli | Rhif uchel | 92.78% | 91.80% | **88.89%** | 95.00% | ↓ | |
| **SCA/020** | Canran y cleientiaid oedolion sy'n cael eu cefnogi yn y gymuned yn ystod y flwyddyn | Rhif uchel | 84.20% | 86.16% | **80.37%** | 85.00% | ↓ | |


DSC Dangosyddion Strategol Cenedlaethol

# SCA/001 (DSC): Cyfradd y trosglwyddiadau gohiriedig ar gyfer gofal am resymau gofal cymdeithasol, allan o bob 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd

| | |
|---|---|
| Perchennog: | Carys Edwards |
| Mesurydd yma yn berthnasol i: | Iola Richards and Barbara Williams |
| Amlder Casglu: | Misol |
| Chwarter: | 4 |
| Dyddiad Adrodd: | 31/03/2014 |


| Canlyniad Dangosydd Perfformiad Presennol | Canlyniad cyfnod adrodd gynt | Canlyniad Ynys Môn 2012/13 | Targed Ynys Môn 2013 / 14 |
|---|---|---|---|
| 1.25 | 0.69 | 2.53 | 1.75 |
| Targed PI - Rhif isel | Perfformiad wrth gymharu ag canlyniad cyfnod adrodd gynt ↓ | Perfformiad wrth gymharu ag Ynys Môn 2012/13 ↑ | Perfformiad wrth gymharu â tharged Ynys Môn |

**SCA/001 (DSC): Cyfradd y trosglwyddiadau gohiriedig ar gyfer gofal am resymau gofal cymdeithasol, allan o bob 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd (2013/14)**





| | Ebrill-Mehefin | Ebrill-Medi | Ebrill-Rhagfyr | Ebrill-Mawrth |
|---|---|---|---|---|
| 2013/14 | 0.28 | 0.28 | 0.69 | 1.25 |
| Targed Môn 13/14 | 1.75 | 1.75 | 1.75 | 1.75 |

**SCA/001 (DSC): (Canlyniadau Chwarter Presennol a Gorffennol)**




| | Ebrill-Mehefin | Ebrill-Medi | Ebrill-Rhagfyr | Ebrill-Mawrth |
|---|---|---|---|---|
| 2013/14 | 0.28 | 0.28 | 0.69 | 1.25 |
| 2012/13 | 0.45 | 1.36 | 1.36 | 2.53 |
| 2011/12 | 0.3 | 0.61 | 0.91 | 1.06 |

**SCA/001 (DSC): (3 Blwyddyn diwethaf)**




| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 1.51 | 1.06 | 2.53 | 1.25 |
| Cyfartaledd Cymru | 5.76 | 5.03 | 4.57 | |
| Targed Môn | 6 | 6 | 1.2 | 1.75 |

## Y stori tu ôl i'r perfformiad

Rydym yn darparu asesiad a galluedd gwaith cymdeithasol i oedolion o fewn yr ysbyty acíwt, wrth iddynt baratoi ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty, drwy bartneriaeth gyda Chyngor Gwynedd. Mae'r tîm yn yr ysbyty yn cynnwys cyflenwad ymarferwyr gwaith cymdeithasol ac aseswyr gofal.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cynyddodd y tîm gwaith cymdeithasol integredig Gwynedd a Môn i ddarparu saith diwrnod o wasanaeth asesiad a rheoli gofal, gan ddefnyddio'r grant pwysau gaeaf i ariannu hyn.

Rhwng Ebrill 2013 a diwedd mis Mawrth 2014, bu 9 achos o oedi wrth drosglwyddo oherwydd rhesymau gofal cymdeithasol. Mae hyn yn arwain at sgôr dangosydd Perfformiad diwedd blwyddyn cyfredol o 1.25 sef yn well na'n targed blynyddol o 1.75, ac yn sylweddol well na'r 12/13 cyfartaledd Cymru o 4.57.

Mae'n dadansoddiad o'r 9 achos yn dangos:

- Disgwyl i gael ailgychwyn pecyn Gofal Cartref (8)
- Disgwyl i gael cwblhau asesiad addasiadau (1)

## Gwella Gweithredu Pellach

1) Parhau i adolygu ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd ein hasesiad a threfniadau gwaith cymdeithasol yn yr ysbyty acíwt - gyda'r bwriad o wella'r cydweithio rhwng y tîm gwaith cymdeithasol a'r hwyluswyr gadael ysbyty.

2) Arfarniad o drefniadau lleol mewn ymateb i brosesau asesu a chaffael adnoddau i gefnogi gadael ysbyty amserol.

3) Mae cynhwysedd o ddarparwyr sydd ar gael i ni yn y farchnad gofal lleol yn un o'r ffrydiau gwaith gaiff ei flaenoriaethu yn ein Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Pobl Hŷn (Broceriaeth ysgogol arallgyfeirio y farchnad gofal mewn ymateb i'n bwriadau comisiynu â gyhoeddwyd.)

4) Bydd amrywiaeth o opsiynau cymunedol yn cael eu cyflwyno yn 14/15 gyda'r bwriad o ddarparu gofal dros nos yn y Gymuned a gweithredu asesiad (TAD) saith niwrnod a gwasanaeth rheoli gofal.

## Disgrifiad

Rhifiadur: Cyfanswm nifer y preswylwyr awdurdod lleol (18 + oed) sy'n profi oedi wrth drosglwyddo gofal yn ystod y flwyddyn am resymau gofal cymdeithasol. Y rhifiadur yw swm y ffigurau 12 mis y cyfrifiad.

Enwadur: Cyfanswm y boblogaeth 75 oed +


Fformiwla: Rhifiadur x 1,000
Enwadur

# SCAb/002b (DSC): Cyfradd y bobl hŷn (65 oed neu drosodd): Y mae'r Awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal allan o bob 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth

| | |
|---|---|
| Perchennog: | Carys Edwards |
| Mesurydd yma yn berthnasol i: | Iola Richards |
| Amlder Casglu: | Misol |
| Chwarter: | 4 |
| Dyddiad Adrodd: | 31/03/2014 |


| Canlyniad Dangosydd Perfformiad Presennol | Canlyniad cyfnod adrodd gynt | Canlyniad Ynys Môn 2012/13 | Targed Ynys Môn 2013 / 14 |
|---|---|---|---|
| 18.16 | 17.97 | 21.93 | 20.00 |
| Targed PI - Rhif isel | Perfformiad wrth gymharu ag canlyniad cyfnod adrodd gynt ↓ | Perfformiad wrth gymharu ag Ynys Môn 2012/13 ↑ | Perfformiad wrth gymharu â tharged Ynys Môn |

**SCA/002b (DSC): Y mae'r Awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal allan o bob 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth (2013/14)**




| | Ar y 30/06/2013 | Ar y 30/09/2013 | Ar y 31/12/2013 | Ar y 31/03/2014 |
|---|---|---|---|---|
| 2013/14 | 19.76 | 18.83 | 17.97 | 18.16 |
| Targed Môn 13/14 | 20 | 20 | 20 | 20 |

**SCA/002b (DSC): (Canlyniadau Chwarter Presennol a Gorffennol)**



| | Ebrill-Mehefin | Ebrill-Medi | Ebrill-Rhagfyr | Ebrill-Mawrth |
|---|---|---|---|---|
| 2013/14 | 19.76 | 18.83 | 17.97 | 18.16 |
| 2012/13 | 23.57 | 23.17 | 21.58 | 21.93 |
| 2011/12 | 23 | 24.07 | 24.67 | 23.57 |

**SCC/002b (DSC): (3 Blwyddyn diwethaf)**



| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 23.46 | 23.57 | 21.93 | 18.16 |
| Cyfartaledd Cymru | 21.75 | 21.3 | 20.63 | |
| Targed Môn | 20 | 20 | 23 | 20 |

## Y stori tu ôl i'r perfformiad

Mae ein strategaeth Gofal Canolraddol o ddefnyddio gwelau gofal canolradd a ddynodwyd mewn lleoliad gofal preswyl yn cefnogi model ail-alluogi o drosglwyddo unigolion yn ôl adref i'r gymuned, gan osgoi gorddibyniaeth ar ofal tymor hir.

Dros y flwyddyn ddiwethaf bu gwelliant calonogol yn ein perfformiad lleol. O 31/03/2014, cefnogwyd 295 o ddefnyddwyr mewn Cartrefi gofal - roedd hyn yn gynnydd o 3 cleient ers y chwarter blaenorol, ond yn ostyngiad o 50 o ddefnyddwyr yn derbyn gwasanaeth ers 31/03/2013.

Mae Cyflwyno'r model cymeriant ail-alluogi yn cael effaith gadarnhaol ar gynnal annibyniaeth pobl, gan atal derbyniadau amhriodol i ofal preswyl tymor hir.

Mae nifer y bobl a gefnogir mewn cartrefi gofal yn amrywio o fis i fis gyda mwy o bwysau ar y system gofal yn ystod y rhan olaf o fisoedd y gaeaf, sy'n batrwm hanesyddol. Gall y pwysau tymhorol yma, ar y gwasanaethau statudol (Iechyd a Gofal Cymdeithasol) gael effaith negyddol ar berfformiad lleol yn ystod misoedd y gaeaf .

## Gwella Gweithredu Pellach

Gallwn ond wneud gwelliannau sylweddol a chynaliadwy pellach mewn perfformiad drwy drawsnewid ein modelau gwasanaeth ar gyfer pobl hŷn - sicrhau llai o ddibyniaeth ar ofal preswyl tymor hir a galluogi argaeledd cymorth 24 awr yn y gymuned ar draws yr Ynys, ynghyd â gwasanaeth ail-alluogi effeithiol cyfyngedig a chreu llu o fentrau gofal canolradd gwell.

Yn y tymor byr, bydd ein hymyriadau yn parhau o gwmpas cymeriant ail-alluogi, rhoi gwybodaeth effeithiol a chyfeirio 'mlaen, yn ein mannau mynediad.

## Disgrifiad

Rhifiadur: Nifer y bobl 65+ oed a gefnogir mewn cartrefi gofal


Enwadur: Cyfanswm y boblogaeth 65 oed neu drosodd

Fformiwla: Rhifiadur x 1,000
Enwadur


# SCA/018a: Canran y gofalwyr oedolion y cynigwyd aesiad neu adolygiad o'u hanghenion iddynt yn ystod y flwyddyn

| | |
|---|---|
| Perchennog: | Carys Edwards |
| Mesurydd yma yn berthnasol i: | Iola Richards and Barbara Williams |
| Amlder Casglu: | Misol |
| Chwarter: | 4 |
| Dyddiad Adrodd: | 31/03/2014 |


| Canlyniad Dangosydd Perfformiad Presennol | Canlyniad cyfnod adrodd gynt | Canlyniad Ynys Môn 2012/13 | Targed Ynys Môn 2013 / 14 |
|---|---|---|---|
| 91.30% | 87.10% | 81.70% | 85.00% |
| Targed PI - Rhif isel | Perfformiad wrth gymharu ag canlyniad cyfnod adrodd gynt ↑ | Perfformiad wrth gymharu ag Ynys Môn 2012/13 ↑ | Perfformiad wrth gymharu â tharged Ynys Môn |




| | Ebrill-Mehefin | Ebrill-Medi | Ebrill-Rhagfyr | Ebrill-Mawrth |
|---|---|---|---|---|
| 2013/14 | 84.3 | 86.8 | 87.1 | 91.3 |
| Targed Môn 13/14 | 85 | 85 | 85 | 85 |




| | Ebrill-Mehefin | Ebrill-Medi | Ebrill-Rhagfyr | Ebrill-Mawrth |
|---|---|---|---|---|
| 2013/14 | 84.3 | 86.8 | 87.1 | 91.3 |
| 2012/13 | 75.1 | 87.7 | 90.1 | 81.7 |
| 2011/12 | 53.3 | 63.9 | 64.5 | 70.1 |




| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 74.2 | 70.1 | 81.7 | 91.3 |
| Cyfartaledd Cymru | 77.1 | 76.1 | 86.8 | |
| Targed Môn | 85 | 85 | 77 | 85 |

## Y stori tu ôl i'r perfformiad

Mae asesu a chefnogi gofalwyr anffurfiol yn bwysig i ni.

Rydym yn disgwyl gallu dangos tystiolaeth o berfformiad parhaus yn ystod 2014/15.

Rhwng Ebrill 2013 a diwedd Mawrth 2014 cafodd 91.3% o ofalwyr anffurfiol o oedolion gynnig asesiad neu adolygiad o'u hanghenion hwy hunain. Mae hyn yn uwch na'n perfformiad yn 12/13 (81.7%) a chyfartaledd Cymru (86.8%).

## Gwella Gweithredu Pellach

- Parhau ein hymdrechion targedol i wella perfformiad ar draws yr holl grwpiau defnyddwyr oedolion.
- Mae'r gwasanaeth wedi cymryd camau i wella mewnbwn data trwy fonitro pan nad yw asesiad yn cael ei gynnig.
- Cyflwyno fframwaith fonitro i dderbyn gwell gwybodaeth am ein prosesau casglu data.

## Disgrifiad

Rhifiadur: Nifer y gofalwyr (am oedolion) 18+ oed sy'n hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol a gafodd gynnig asesiad neu adolygiad o'u hanghenion hwy hunain yn ystod y flwyddyn

Enwadur: Nifer y gofalwyr (am oedolion) 18+ oed sy'n hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol

Fformiwla: Rhifiadur x 100
Enwadur